# WHQ

WELSH HOUSING QUARTERLY

RHIFYN 131 • HYDREF 2023 • WWW.WHQ.ORG.

Syniadau newydd am dai ac adfywio

Papur gwyn ar dai

Technoleg a gofal

Meddwl yn sylfaenol



# Codi'r bar

MYND I'R AFAEL Â SATC 2023

# TAI CYMRU GWOBRAU 2023

**30 Tachwedd 2023**

Gwesty Holland House Mercure Caerdydd

Mae Gwobrau Tai Cymru blynyddol CIH yn cydnabod ac yn dathlu creadigrwydd, angerdd ac arloesedd sefydliadau tai ac unigolion ar draws y sector yng Nghymru

**Sganiwch y cod QR i archebu eich tocynnau yn awr**

Ein Crynodebau Arfer Da yw'r cofnod hanfodol o arloesi a datblygiadau yn y sector. Nid dim ond dogfen ddysgu graidd yw hon, ond ysbrydoliaeth i ni i gyd i wireddu ein cyd-weledigaeth o ddarparu dewis o dai cynaliadwy a fforddiadwy i bawb.

**Sganiwch y cod QR i ddarllen cofnodion y llynedd**

Noddwr pennawd: aico® | HomeLINK®

# CYNNWYS


42


16


14


**4 Gwrando ar landlordiaid**
*Ansicrwydd yn teyrnasu yn y sector rhentu preifat, medd Steve Bletso*

**8 Edrych tuag at newid deddfwriaethol**
*Katie Dalton yn amlinellu argymhellion i Lywodraeth Cymru ar ddigartrefedd*

**9 Papur gwyn â ffocws ar ataliaeth**
*WHQ yn edrych ar gynigion allweddol yn y papur gwyn digartrefedd a'r ymateb iddo*

**14 Adeiladu seiliau teg**
*Yr Athro Karel Williams a Keith Edwards ar swyddogaeth allweddol sefydliadau tai mewn economïau lleol*

**16 Awyrennau, cychod fferi a cheir**
*Brett Sadler yn myfyrio ar symud i weithio gyda thai yn Argyll a Bute*

**18 Ddim yn hawdd – ond rhaid ei wneud**
*Jules Birch yn holi'r Cyng Shayne Cook am gynlluniau Caerffili ar gyfer a chartrefi newydd*

**21 SAFONAU**

**22 Cyflwyno SATC 2023**
*Y Gweinidog newid hinsawdd Julie James ar y cynllun i wella safonau mewn tai cymdeithasol*

**24 Llwybrau a heriau**
*Bydd data'n allweddol gyda'r SATC newydd, meddai Fiona Westwood*

**25 Datgarboneiddio yn ymarferol**
*Debbie Green ar wersi o waith Coastal ar systemau gwresogi ac inswleiddio*

**26 Mynd i'r afael â'r heriau sgiliau**
*Bydd bod â'r sgiliau angenrheidiol yn allweddol i weithredu SATC 2023, meddai Tim Balcon*

**27 Mae'n bryd dysgu gwersi ôl-ffitio**
*Duncan Forbes yn edrych ar y SATC newydd ac yn ystyried ôl-osod hyd yn hyn*

**30 Cartrefi'r dyfodol**
*Mae Cartrefi Conwy mewn lle da i ymateb i her SATC unwaith eto, medd Adrian Johnson*

**32 Disgwyliadau'n cynyddu**
*Ross Thomas yn dadansoddi gofynion cydraddoldeb y SATC newydd*

**34 Ein gweledigaeth o fyw**
*Mae adeiladu cartrefi cynaliadwy yn dibynnu ar ymdrechion ar y cyd, medd Tom Boome*

**36 Canlyniadau anfwriadol**
*Max Hampton yn ystyried effaith safonau ar ddyluniad tai*

**39 Cwestiwn o sgiliau**
*Arweinwyr y sector yn ystyried beth raid i landlordiaid ei wneud i uwchsgilio staff*

**42 Lle diogel i fod yn fi**
*Rebecca Mollart, Ceri Molloy a Siân Evans ar sut i hyrwyddo cynhwysiant pobl LGBTQ+ hŷn*

**44 Y darlun technegol mwy**
*Vikki Hiscocks ar y posibilrwydd o wella'r ffordd y defnyddir technoleg mewn tai a gofal am bobl hŷn*

**48 Llywio cwrs y dyfodol**
*Francesca Zenati yn myfyrio ar yr her i arweinwyr yn y maes tai*

**DIWEDDARIADAU CYSON**

**5 Diweddariad Cyllid**
**10 Diweddariad Polisi**
**46 Diweddariad Cefnogaeth**
**52 Diweddariad Ymchwil**

**TUDALENNAU NAWDD**

**2, 7, 40, 41, 53**



36

*Os cewch chi unrhyw drafferth gyda'ch cyfrif defnyddiwr, da chi, cysylltwch â* ***Matthew.Dicks@cih.org***



# Hen bryd gwrando ar landlordiaid

O ddileu gofynion effeithlonrwydd ynni i ddiwygio rhenti, mae ansicrwydd yn teyrnasu yn y sector rhentu preifat, meddai Steve Bletsoe

**Nid diwygiadau rhent y dyfodol, sy'n cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru, yw'r unig gynigion a fydd yn effeithio'n sylweddol ar y sector rhentu preifat yng Nghymru. Yn y mis diwethaf gwelsom symud sylweddol ar fater arall o bwys mawr i landlordiaid ledled y DU: tynged polisïau sero net Llywodraeth y DU.**

Felly beth mae hyn yn ei olygu i landlordiaid Cymru? Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r sector rhentu preifat wedi disgwyl yn amyneddgar am ddyfodiad Safonau Effeithlonrwydd Ynni Lleiafswm sy'n nodi'r meincnodau y mae angen i landlordiaid eu bodloni. Ac eto, mewn newid sylweddol yn y cyfeiriad polisi, mae'r prif weinidog wedi dewis ffordd wahanol o fynd ati – sef dileu'r gofynion arfaethedig a fyddai wedi gorfodi landlordiaid i sicrhau bod eu heiddo â Thystysgrif Perfformiad Ynni gradd C.

## CAM ANFERTH

Mae hwn wrth gwrs yn gam anferth i'r farchnad. Ond yr hyn sy'n sefyll allan yw sut, er gwaethaf y cyhoeddiad hwn, y mae ansicrwydd yn parhau i deyrnasu yn y maes polisi yma. Chaiff llawer o landlordiaid ddim eu gorfodi bellach i wneud gwelliannau effeithlonrwydd ynni costus i'w heiddo. Roedd hyn yn ofyn mawr erioed gan y llywodraeth, yn wyneb y diffyg cymorth ariannol ar gyfer gwaith ôl-ffitio. Ond yn lle strategaeth newydd sy'n dangos yn glir y camau nesaf arfaethedig, y cwbl a gawn yw mwy o ddryswch parthed gwir gyfeiriad ein taith.

Dydy'r heriau yn y maes hwn ddim yn mynd i ddiflannu. Datgelodd ymchwil flaenorol gan Localis a gomisiynwyd gan Gymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl (NRLA) fod llawer o eiddo yng Nghymru gyda'r lleiaf ynni-effeithlon yn y DU. Os rhywbeth, mae hyn yn pwysleisio'r angen am ddatblygu strategaeth bellgyrhaeddol wedi'i hanelu at wella effeithlonrwydd ynni stoc tai rhentu preifat y DU.

Mae llawer o lunwyr polisi a chynrychiolwyr etholedig yn cytuno â ni. Tanlinellai adroddiad diweddar a gynhyrchwyd gan y Senedd bod yn rhaid i landlordiaid dderbyn cefnogaeth ariannol i sicrhau bod datgarboneiddio'n digwydd ar draws sector rhentu preifat Cymru. Mae cymorth o'r fath yn hanfodol i alluogi landlordiaid Cymru i wneud y newidiadau angenrheidiol i wella eu heiddo.

## ADEG GYTHRYBLUS

Daeth araith y prif weinidog ar adeg gythryblus i'r farchnad yng Nghymru – i'n hatgoffa mai dim ond un o nifer o broblemau sy'n wynebu landlordiaid preifat yw effeithlonrwydd ynni. Ers y cyflwynwyd Deddf Rhentu Cartrefi Cymru, mae'r NRLA wedi cymryd camau i sicrhau bod cyfran mor eang â phosib o randdeiliaid yn deall beth y gallai cynigion y Papur Gwyrdd ar Renti Teg a Thai Digonol ei olygu iddynt. Ein barn bendant ni o hyd yw y byddai ymyriadau marchnad o'r math a awgrymir gan Lywodraeth Cymru – sef rheolaethau rhenti – yn effeithio'n drychinebus ar sector rhentu preifat sydd eisoes mewn trafferthion.

Os ydych chi'n amau'r farn hon, peidiwch â chymryd ein gair ni am hynny. Dywed bron pob gwlad Ewropeaidd lle cawsant eu gorfodi bod rheolaethau rhent wedi lleihau'r cyflenwad o lety rhentu preifat. Ar adeg pan fo prinder cartrefi ar gyfer tenantiaid yn ddifrifol dros ben, ai nawr yn wir yw'r amser i Lywodraeth Cymru ystyried mesurau a fydd yn gwaethygu'r sefyllfa anodd iawn y caiff llawer o ddarpar-denantiaid eu hunain ynddi?

Fodd bynnag, un peth yw gwrthod rheolaethau rhent a pheth arall yw dyfeisio cynllun amgen. Felly, beth mae'r NRLA yn credu y dylid ei wneud i wella pethau i denantiaid a landlordiaid? Fel cam cyntaf, rhaid i Lywodraeth Cymru ddatgan ei chefnogaeth i fesurau o blaid twf a all adfywio'r sector rhentu preifat ledled Cymru.

## MATER ALLWEDDOL

Gydag effeithlonrwydd ynni yn debyg o fod yn fater allweddol i'r sector am y dyfodol rhagweladwy, rhaid i lunwyr polisi ystyried yr angen am ddatblygu cynllun aml-bolisi eang ei sail sy'n cymell landlordiaid i aros yn y farchnad. Rhydd yr ymchwil sydd ar gael ddarlun clir o fwriad buddsoddi landlordiaid dros y flwyddyn nesaf. Er enghraifft, dengys ymchwil ddiweddar a gyhoeddwyd gan yr ymgynghorwyr BVA/BDRC bod 33 y cant o landlordiaid yng Nghymru a Lloegr yn bwriadu lleihau eu portffolio o eiddo rhent dros y flwyddyn nesaf yn ystod chwarter 1af 2023 – cynnydd ar yr 20 y cant o landlordiaid yn chwarter 1af 2022 a ddywedodd eu bod yn bwriadu gwaredu eiddo rhent.

Os nad dim byd arall, dengys y data hyn bod angen i Lywodraeth Cymru a San Steffan wneud ymdrech frys, ar y cyd, i atal unrhyw grebachu ym maint y farchnad. Heb newid cyfeiriad polisi sylweddol, yr unig ganlyniad fydd mwy o ofid i ddarpar-denantiaid preifat.

Beth bynnag a ddigwydd nesaf, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn ystyried barn landlordiaid sy'n crefu am ffordd i allu darparu'r llety rhentu preifat, ynni-effeithlon y mae cymaint o alw amdano – mae dyfodol y sector yn dibynnu ar hynny.

**Steve Bletsoe yw rheolwr gweithrediadau Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl**



# Creu'r cysylltiadau rhwng ESG a SATC

Cofiwch nad dim â rheoli asedau y mae a wnelo SATC, meddai Sarah Prescott. Mae elfennau amgylcheddol a chymdeithasol hefyd yn ffactorau hanfodol i'w hystyried



**Meddai pennawd KPMG[1] ar y pwnc: 'Mae eich rhanddeiliaid yn seilio'u penderfyniadau fwyfwy ar eich rhinweddau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant (ESG).' Mae hyn yn berthnasol i waith y sector ar hyn o bryd ar Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). Ni all tai cymdeithasol yng Nghymru osgoi'r duedd fyd-eang hon.**

Er enghraifft, yng Nghymru, mae rhai trefniadau cyllid newydd yn amodol ar ymgais gan y gymdeithas tai i arddangos ei chymwysterau'n glir. Mae cyllidwyr mawr yn y sector Cymreig fel Banc Lloyds[2] yn datblygu cynhyrchion buddsoddi ESG penodol. Yr argoelion yw y gallai fod yn fwyfwy anodd cael gafael ar gyllid digonol yn y dyfodol heb gymwysterau ESG. Bydd hyn yn wir am gyllid ar gyfer adeiladu cartrefi newydd yn ogystal â chyllid SATC.

Dylai buddsoddi ar gyfer SATC gan gymdeithasau tai Cymru fod yn elfen werthfawr mewn arddangos cymwysterau o'r fath. Mae SATC yn cwmpasu o leiaf ddau o'r meysydd pwysig. Mae'r rheidrwydd i wella effeithlonrwydd tanwydd ar gyfer y cartref yn amlwg yn SATC. Felly mae'n dilyn y dylai SATC fod yn rhan hanfodol o elfen Amgylcheddol yr ESG. Ac yn amlwg, trwy wella ansawdd a diogelwch y cartrefi pobl, mae SATC hefyd eistedd yn wych o fewn elfen gymdeithasol ESG.

## ARGYFWNG YR HINSAWDD

Ni ddylid anghofio bod Llywodraeth Cymru wedi datgan argyfwng newid hinsawdd yn 2019. Mae'n her bellach i gymdeithasau tai Cymru i ymateb i'r agenda sylweddol honno. Gallai'r gost o symud i sero net ar gyfer y portffolio presennol fod yn fwy na £4 biliwn[3], ac mae'n bwnc cyfan ynddo'i hun. Fodd bynnag, os gall cymdeithasau tai Cymru ddatblygu cymwysterau ESG cryf trwy SATC, all hyn ddim ond helpu i sicrhau cyllid pellach ar gyfer prosiectau amgylcheddol yn y man.

Un o elfennau pwysig ESG yw gallu dangos y cymwysterau hyn yn glir mewn ffordd effeithiol. Dylai fod gan gymdeithasau tai Cymru lwythi o ddata a Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAion) eisoes a ddylai helpu yn hyn o beth. Mae rhannu DPAion sy'n dangos budd amgylcheddol neu fudd cymdeithasol eu gweithgareddau eisoes yn ofynnol ar gyfer rhywfaint o arian ESG yn y sector. Byddai datblygu a gwella elfen SATC o'r rhain yn gam da ymlaen. Byddai o fudd i dai Cymru wneud hyn yn arfer safonol ar draws y sector. Dylent hefyd barhau â'u hymdrechion i hyrwyddo'u gweithgareddau buddsoddi sylweddol yn y maes hwn.

## HERIAU SYLWEDDOL

I gloi, mae heriau technegol ac adeiladu sylweddol yn gysylltiedig â chyrraedd SATC, weithiau mewn amgylchiadau cymhleth a heriol, ac mae'r sector yn canolbwyntio ar gyflawni'r rheini, wrth reswm. Fodd bynnag, mae ESG yn ein hatgoffa nad yw SATC yn ymwneud â rheoli asedau yn unig. Mae'r elfennau amgylcheddol a chymdeithasol hefyd yn ffactorau hanfodol i'w hystyried. Gallai cyllido yn y dyfodol ddibynnu ar hynny.

**Ymgynghorydd annibynnol yw Sarah Prescott. Dewch o hyd iddi ar twitter *@SPrescottWales* neu ei blog yn *sarahprescott.medium.com/***

1. *www.kpmg.com/uk/en/home/services/environmental-social-governance-hubpage.html*
2. *www.lloydsbankinggroup.com/who-we-are/responsible-business/supporting-the-uk-housing-market.html*
3. *www.whq.org.uk/the-magazine/issue/124/altair-net-zero-can-we-build-our-way-to-a-more-sustainable-future/*

# WHQ
WELSH HOUSING QUARTERLY

**Rhifyn 131 | HYDREF 2023**

*ISSN 0962-9602*

*Cylchgrawn tai golygyddol annibynnol yw WHQ. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn y Cylchgrawn o reidrwydd yn rhai'r Golygydd na Sefydliad Tai Siartredig Cymru.*

**Dyddiadau olaf ar gyfer derbyn cyfraniadau**
Rhifyn 132 – 18fed Rhagfyr 2023
Rhifyn 133 – 18fed Mawrth 2024
Rhifyn 134 – 17eg Mehefin 2024
Rhifyn 135 – 18fed Medi 2024

**Rheolwyd, gweinyddwyd a chyhoeddwyd gan**
**Sefydliad Tai Siartredig Cymru**
4 Tŷ Purbeck
Parc Busnes Caerdydd
Llanisien
Caerdydd CF14 5GJ
***029 2076 5760***
***www.cih.org***

Chartered Institute of Housing Cymru

**Cyd-sefydlwyd gan**
**Prifysgol Caerdydd**
Adeilad Morgannwg
Rhodfa'r Brenin Edward VII
Caerdydd CF10 3WA
***029 2087 6412***
***www.cf.ac.uk/cplan***

CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

**Dyluniwyd gan**
Martin Williams
***07812 110837***
***www.mw-graphic-design.co.uk***



**Bwrdd Cynghorol**
Tom Broadhead (cadeirydd)
Helen Taylor (is-gadeirydd)
Ben Black
Steve Cranston
Matt Dicks
Jennifer Ellis
Shan Lloyd-Williams
Jim McKirdle
Matthew Miller
Bill Rowlands
Hayley Williams



**Cysylltwch â ni**
Mae WHQ yn croesawu erthyglau, nodweddion a newyddion, cysyllter â golygydd WHQ:
**Jules Birch**
***01736 332173*** | ***editor@whq.org.uk***


**Hysbysebu a noddi, cysyllter â:**
**Matthew Dicks**
***029 2076 5760*** | ***Matthew.Dicks@cih.org***

**Tanysgrifiadau, ymwelwch â:**
***www.whq.org.uk*** neu ebostiwch
***Matthew.Dicks@cih.org*** am ffurflen danysgrifio



**Mae WHQ yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru trwy'r Adran Polisi Tai**

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government


## Ffotograffiaeth

Marcus Aurelius via Pexels
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Call of the Wild
Cartrefi Conwy
ClwydAlyn
Grŵp Tai Coastal
Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu
Tim Crocker/RIBA
Cwmpas
Cymorth Cymru
Comisiwn Dylunio Cymru
James A Molnar via Unsplash
Grŵp Pobl
TPAS Cymru
Trivallis
United Welsh
West Highland Housing Association


## WHQ arlein

Os cewch chi unrhyw drafferth gyda'ch cyfrif defnyddiwr, da chi, cysylltwch â ***Matthew.Dicks@cih.org***



# Codi'r bar

**Ar ôl ymgynghoriad maith ar draws y sector, mae fersiwn newydd o Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) newydd gael ei gyhoeddi.**

Safonau yn gyffredinol, a SATC 2023 yn benodol, yw thema'r rhifyn Hydref hwn. Mae'r ffocws, yn anochel, ar ddatgarboneiddio a chynhesrwydd fforddiadwy, ond mae'r oblygiadau'n ymestyn ar hyd a lled stoc tai cymdeithasol presennol Cymru.

Mae'r gweinidog newid hinsawdd, Julie James yn cyflwyno ein rhifyn arbennig gydag erthygl yn amlinellu ei gobeithion ar gyfer SATC 2023 a'r meddylfryd y tu ôl iddo.

Clywn hefyd gan landlordiaid ledled Cymru am eu cynlluniau ar gyfer gwella eu stoc a sut mae SATC yn cyd-fynd â'u huchelgais ehangach ar gyfer cartrefi a chymunedau cynaliadwy. Mae eisoes yn amlwg yr atebodd yr ymgynghoriad ar y safon ddim ond rhai o'r cwestiynau sydd ganddynt, yn enwedig ynglŷn â chyllid ar gyfer y gwaith.

Yng nghyfweliad WHQ y tro hwn, holir Shayne Cook, yr aelod cabinet dros dai yng Nghaerffili, am y gwersi a ddysgwyd o'r SATC blaenorol, a sut mae'n cydbwyso buddsoddi yn ei stoc bresennol â chynlluniau uchelgeisiol ar gyfer cartrefi fforddiadwy newydd.

Mae Duncan Forbes hefyd yn ystyried profiad y tro diwethaf, ynghyd â rhai cwestiynau allweddol am y safon newydd a'r gwersi a ddysgwyd o'r modd yr aeth Trivallis ati i ôl-ffitio.

Mae erthyglau eraill yn cynnwys Fiona Westwood ar ofynion data, Debbie Green ar systemau gwresogi ac inswleiddio, Tim Balcon ar sgiliau a hyfforddiant, a Ross Thomas ar ofynion cydraddoldeb yn y SATC newydd.

Dim ond un yw SATC mewn amrywiaeth eang o safonau sy'n effeithio ar dai. Mae Max Hampton yn edrych ar ochr arall y geiniog: y canlyniadau anfwriadol weithiau ar gyfer dylunio tai y gellir eu hachosi gan ofynion mewn meysydd eraill. Mae'n dadlau na fyddai rhai o'n lleoedd hanesyddol gorau yn bodloni'r safonau mwyaf modern.

Ym mis Hydref hefyd cyhoeddwyd ail ddogfen bolisi allweddol gan Lywodraeth Cymru: y papur gwyn ar ddigartrefedd. Cyn rhifyn arbennig y Gaeaf ar ddigartrefedd, mae WHQ yn crynhoi'r cynigion allweddol a'r ymateb hyd yn hyn tra bod Katie Dalton yn canmol cyfraniad 'arbenigwyr trwy brofiad' i argymhellion y Panel Adolygu Arbenigol.

Mewn rhannau eraill o'r rhifyn hwn fe welwch erthyglau ar gynhwysiant a rhan technoleg mewn tai ar gyfer pobl hŷn, y newidiadau polisi diweddaraf sy'n effeithio ar rentu preifat, a swyddogaeth sefydliadau tai mewn economïau lleol. Mae gennym hefyd y cyntaf mewn cyfres newydd o erthyglau gan weithwyr tai proffesiynol o Gymru yr aeth eu gyrfa â nhw y tu allan i Gymru.

Golyga hyn oll, ynghyd â'n holl nodweddion rheolaidd, bod rhifyn y chwarter hwn o WHQ hyd yn oed yn fwy prysur nag arfer.

**JULES BIRCH** *Golygydd, WHQ*


BYDD BRON I
3,400 O BLANT*
YNG NGHYMRU YN DEFFRO YN
DDIGARTREF Y NADOLIG HWN

Cartref yw popeth. Helpwch ni i'w amddiffyn.
Cyfrannwch y Nadolig hwn.

sheltercymru.org.uk/cy/cyfrannwch

ALMOST 3,400 CHILDREN*
IN WALES WILL WAKE UP
HOMELESS THIS CHRISTMAS

Home is everything. Please help us protect it.
Donate this Christmas.

sheltercymru.org.uk/donate

*Yn seiliedig ar ffigurau Llywodraeth Cymru | Based on Welsh Government figures
Rhif Elusen Gofrestredig | Registered Charity Number: 515902





# Edrych tuag at newid deddfwriaethol

Katie Dalton yn amlinellu argymhellion ar ddigartrefedd ar gyfer Llywodraeth Cymru ar sail ymgysylltu â 300 o 'arbenigwyr trwy brofiad'

**Ers blwyddyn bûm yn aelod o'r Panel Adolygu Arbenigol ar ddiwygio deddfwriaethol, a gadeiriwyd gan yr Athro Suzanne Fitzpatrick ac a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o elusennau digartrefedd, llywodraeth leol, cymdeithasau tai a'r byd academaidd. Fe'i sefydlwyd gan y gweinidog dros newid yn yr hinsawdd, a ofynnodd i ni wneud argymhellion ar gyfer diwygio'r gyfraith i wella'r ffordd rydym yn atal ac yn ymateb i ddigartrefedd yng Nghymru.**

Cafodd Deddf Tai (Cymru) 2014 sylw rhyngwladol oherwydd ei ffocws ar atal digartrefedd, gyda Lloegr a'r Alban wedi hynny yn mabwysiadu neu'n ystyried dyletswyddau tebyg. Er i'r Ddeddf lwyddo i arbed llawer o bobl rhag digartrefedd, daeth yn amlwg bod angen newid pellach er mwyn i ni allu rhoi terfyn ar ddigartrefedd.

Ar cael ein gwahodd i ymuno â'r panel, fe gytunon ni'n frwdfrydig i arwain rhaglen ymgysylltu â phobl a fu'n ddigartref neu a fu mewn perygl o fod yn ddigartref. Dros y flwyddyn ddiwethaf ymgysylltwyd â mwy na 300 o 'arbenigwyr trwy brofiad', trwy ddigwyddiadau ymgysylltu agored, sgyrsiau ar y strydoedd, cyfarfodydd ar-lein, ac ymweliadau â llety dros-dro, prosiectau cymorth tai, gwasanaethau prawf a charchardai.

Rydym yn hynod ddiolchgar i bawb a ymgysylltodd â ni a rhannu eu barn a'u profiadau o lywio'u ffordd drwy'r system ddigartrefedd yng Nghymru. Rhannodd pobl rai profiadau dirdynnol gyda ni a siarad ag angerdd am eu hawydd i wella'r system ar gyfer pobl eraill. Cofnodwyd eu barn yn ofalus, ac adlewyrchwyd hynny mewn cyfres o bapurau a gyflwynwyd i'r panel.

Gwyddem o'r cychwyn cyntaf y byddai cytuno ar argymhellion yn her, o ystyried y safbwyntiau amrywiol o amgylch y bwrdd. Fodd bynnag, gweithiodd pawb gyda'i gilydd i ddod o hyd i dir canol lle'r oedd amrywiaeth barn.Tystiolaeth arbenigwyr trwy brofiad oedd wrth graidd ein trafodaethau a dwi wrth fy modd bod adroddiad y panel i'r gweinidog yn cynnwys dyfyniadau uniongyrchol gan lawer ohonynt.

Dyma rai o'r themâu allweddol a ddeilliodd o brofiad pobl o fyw gyda'r broblem, ac a ddylanwadodd ar yr argymhellion:

**Atal yn gynharach:** Rydym oll yn gytûn ei bod yn well atal digartrefedd lle bynnag y bo modd, a dymunai pobl â phrofiad o fyw drwy hyn weld ymyriad ac ataliad cynt a mwy effeithiol gan ystod o wasanaethau cyhoeddus. O ganlyniad, argymhellodd y panel ymestyn y ddyletswydd atal o 56 diwrnod i chwe mis, gan gryfhau'r camau a gymerir gan awdurdodau lleol i atal digartrefedd; cyflwyno dyletswydd i ddarparu cymorth; parhau â gwaith i atal troi allan; a mynnu bod gwasanaethau cyhoeddus yn chwarae eu rhan mewn atal digartrefedd.

**Seiliedig ar drawma a pherson-ganolog:** Roedd llawer o'r dystiolaeth a gawsom gan arbenigwyr drwy brofiad yn pwysleisio'r angen i ddeddfwriaeth a systemau fod yn fwy gwybodus am drawma ac yn canolbwyntio ar y person. Yng ngoleuni hyn, argymhellodd y panel: terfyn ar farnu fod pobl yn 'fwriadol' ddigartref; dull o lunio barn ar gysylltiad lleol a methiant i gydweithredu sy'n ystyried trawma; cryfhau cynlluniau tai personol; sicrhau bod llety dro-dro yn ateb anghenion pobl yn well; a gwella cyfathrebu â phobl sy'n dioddef digartrefedd.

**Dull amlasiantaeth o fynd ati:** Gwnaeth y gweinidog hi'n glir na ellir datrys problem digartrefedd trwy dai yn unig a bod angen i wasanaethau cyhoeddus eraill weithredu. Ategwyd hyn gan dystiolaeth yr arbenigwyr drwy brofiad. O ganlyniad, mae argymhellion y panel yn cynnwys dyletswyddau cyfreithiol newydd ar ystod o wasanaethau cyhoeddus i ganfod a yw rhywun mewn perygl o ddigartrefedd, gweithredu i atal hynny, atgyfeirio at wasanaethau digartrefedd lle bo'n briodol, a chydweithio â'r awdurdod lleol. Argymhellodd y panel hefyd sefydlu cyd-fwrdd digartrefedd, cydgysylltu achosion aml-asiantaeth rhai sydd â sawl angen am gymorth, a chamau i atal rhyddhau pobl o'r ysbyty a'r carchar i mewn i ddigartrefedd.

**Hwyluswyr allweddol: adnoddau a data**

Gwnaeth y panel hi'n glir iawn bod angen i newid deddfwriaethol gyd-redeg â dwy elfen allweddol: mwy o adnoddau a gwell data. Gwyddom fod awdurdodau lleol a gwasanaethau digartrefedd o dan bwysau aruthrol ac nad oes ganddynt y gallu na'r adnoddau i ddiwallu anghenion pawb. Os yw Llywodraeth Cymru am fwrw ymlaen i newid y gyfraith, bydd angen i weinidogion fuddsoddi mwy yn y cyflenwad tai cymdeithasol, gwasanaethau cymorth tai a galluoedd llywodraeth leol. Bydd angen atgyfnerthu data ar dai a digartrefedd yng Nghymru hefyd er mwyn hwyluso penderfynu ar sail tystiolaeth a sicrhau y caiff y ddeddfwriaeth newydd yr effaith arfaethedig.

Ers derbyn adroddiad y Panel Adolygu Arbenigol, bu'r gweinidog a'i swyddogion yn ystyried ei gynnwys yn ofalus. Ar Ddiwrnod Digartrefedd y Byd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei phapur gwyn, ac roeddem yn falch iawn i weld bod mwyafrif yr argymhellion wedi'u mabwysiadu. Er y gall rhai rhanddeiliaid ddadlau yr angen am ddeddfu ar elfennau penodol, credwn ei bod yn bwysig gweithredu'r pecyn llawn o ddiwygiadau i wella pob rhan o'r system. Mae'n siŵr gennyf y bydd digon o ddadlau a thrafod wrth i'r daith ddeddfwriaethol ddechrau – ond gadewch i ni gofio neges yr arbenigwyr trwy brofiad: mae angen i bethau newid.

**Katie Dalton yw cyfarwyddydd Cymorth Cymru**



# Papur gwyn â ffocws ar ataliaeth ac ymyriad cynnar

WHQ yn edrych ar y cynigion allweddol yn y papur gwyn digartrefedd a'r ymateb iddo

**Dewisodd y gweinidog newid hinsawdd, Julie James Ddiwrnod Digartrefedd y Byd i gyflwyno papur gwyn sy'n nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru.** Mae cynigion y papur gwyn yn canolbwyntio ar well ataliaeth ac ymyriad cynnar, drwy gyflwyno pecyn o ddiwygiadau i newid system ddigartrefedd a thai bresennol Cymru yn sylweddol. Drwy ddiwygio'r gyfraith, dywed Llywodraeth Cymru:

- Y caiff y perygl o fynd yn ddigartref ei atal cyn gynted â phosibl a bydd y cyfrifoldeb am ei ganfod a'i atal yn cael ei rannu gan wasanaethau cyhoeddus Cymru
- Bydd awdurdodau tai lleol yn cynnig gwasanaeth person-ganolog â dealltwriaeth o drawma, a dywysir gan anghenion y rhai sy'n wynebu digartrefedd
- Cynorthwyir y rhai sy'n fwyaf tebygol o ddioddef oherwydd digartrefedd â mesurau pwrpasol i liniaru'r risg.

Mae'r papur gwyn wedi'i seilio'n helaeth ar ganfyddiadau Panel Adolygu Arbenigol Annibynnol y gofynnwyd iddo adolygu'r ddeddfwriaeth bresennol a gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru.

Dywedodd Julie James: *'Dylai pawb yng Nghymru fod â rhywle i'w alw'n gartref a heddiw rydym yn agor pennod newydd i helpu pobl i aros yn eu cartrefi ac atal unrhyw un yng Nghymru rhag profi digartrefedd.Hoffwn ddiolch i'r Panel Adolygu Arbenigol yr helpodd ei adroddiad ni i lunio ein papur gwyn. Bydd eu hargymhellion yn helpu i roi terfyn ar ddigartrefedd yma yng Nghymru. Dwi hefyd am ddiolch i'r 350 a mwy o bobl a rannodd eu profiadau eu hunain i helpu i lunio ein diwygiadau a sicrhau eu bod wedi'u seilio ar realiti digartrefedd.'*

Meddai'r Aelod Dynodedig, Siân Gwenllian: *'Mae'r papur gwyn hwn yn cyflwyno cynigion newydd i roi terfyn ar ddigartrefedd fel bod gan bawb rywle y gallant ei alw'n gartref, heb berygl byth o fod yn ddigartref. Rydym wedi ymrwymo i ddiwygiadau cyfreithiol a ffyrdd o weithio a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl a gwella'n ffordd o gefnogi rhai o'r mwyaf diymgeledd yn ein cymdeithas.'*

## NEWIDIADAU BEIDDGAR A BLAENGAR

Croesawodd yr elusen ddigartrefedd Crisis a'r academydd blaenllaw, yr Athro Suzanne Fitzpatrick o Brifysgol Heriot-Watt y papur gwyn fel un sy'n argymell nifer o newidiadau beiddgar a blaengar i'r gyfraith i helpu i roi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru.

Y llynedd, gwahoddwyd Crisis gan y gweinidog i gydlynu'r panel arbenigol, a gadeiriwyd gan yr Athro Fitzpatrick, i ystyried sut y gallai newid deddfwriaethol helpu i ddileu digartrefedd yng Nghymru.

Llywiwyd gwaith y panel gan farn mwy na 300 o bobl â phrofiad personol o fod yn ddigartrefedd ac ymgysylltwyd yn eang â gweithwyr proffesiynol ar draws y sector a thu hwnt.

Dywedodd Crisis fod y papur gwyn yn derbyn nifer o awgrymiadau a wnaed gan y panel, yn cynnwys argymell:

- Darparu cymorth i atal digartrefedd yn llawer cynt, fel y gellir cynorthwyo pobl os ydynt dan fygythiad o fod yn ddigartref o fewn chwe mis yn hytrach na'r 56 diwrnod presennol.
- Sicrhau bod y sector cyhoeddus ehangach, yn cynnwys iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, yn chwarae rhan mewn canfod a helpu'r rhai sydd ag angen cymorth tai.
- Gwella mynediad i gartrefi cymdeithasol i deuluoedd digartref drwy edrych ar weithrediad systemau dyrannu.
- Diddymu deddf hynafol sy'n cyfyngu ar gymorth i bobl sengl.
- Cynnig cymorth i bobl i gynnal tenantiaeth.

Dywedodd Crisis fod y newidiadau yn dysgu gan ffyrdd gwledydd eraill o fynd ati a'u bod yn adlewyrchu uchelgais anferth am ddileu digartrefedd ar adeg dyngedfennol wrth i gyfraddau digartrefedd gynyddu. Cefnogwyd mwy na 12,500 o bobl gan gynghorau lleol ledled Cymru yn y flwyddyn ddiwethaf, cynnydd o 7 y cant ers y llynedd.

Gobaith aelodau'r panel, wrth i Lywodraeth Cymru ymgynghori a rhoi ffurf i'r newidiadau arfaethedig, yw y pery argymhellion ehangach a manylion eu hadroddiad i chwarae rhan ganolog yn nhrafodaethau Llywodraeth Cymru, wrth gefnogi taith Cymru tuag at ddileu digartrefedd.

Meddai Matt Downie, prif weithredydd Crisis ac aelod o'r panel: *'Er bod taith hir o'n blaenau i fanylu ar y cynigion a gweld y newidiadau hyn ar y llyfr deddfwriaeth ac ar waith, mae'r uchelgais a ddangosir heddiw yn arwain y byd. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i barhau i ystyried y pecyn cynhwysfawr o ddiwygiadau a luniwyd gan y panel ac i wrando ar y rheini â phrofiad personol o ddigartrefedd wrth symud ymlaen i amlinellu manylion y newidiadau hyn. Gyda'n gilydd gallwn roi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru.'*

Dywedodd yr Athro Suzanne Fitzpatrick, cadeirydd y panel: *'Mae'n gwbl amlwg bod hwn yn gyfnod heriol i dai yng Nghymru. Dros y flwyddyn ddiwethaf, clywodd y panel alwadau pwerus am newid gan bobl sydd â phrofiad personol o ddigartrefedd yn ogystal â'r rhai sy'n gweithio ar y rheng flaen. Ein gobaith yw y bydd adroddiad y panel, sy'n cynnwys argymhellion manwl ar newidiadau i'r gyfraith, yn parhau i fod yn rhan allweddol o ystyriaeth Llywodraeth Cymru wrth iddi symud ymlaen i gytuno ar y manylion y tu ôl i'r uchelgais a ddisgrifiwyd heddiw.'*

# DIWEDDARIAD POLISI

## DATBLYGIADAU POLISI MEWN RHANNAU ERAILL O'R DU

### *CYMRU A LLOEGR*

#### Gollwng cynllun effeithlonrwydd ynni preifat

Dileodd y Prif Weinidog Rishi Sunak gynlluniau i dynhau Safonau Effeithlonrwydd Ynni Isafswm (MEES) yn y sector rhentu preifat fel rhan o wrthgiliad o fesurau sy'n cyflawni ymrwymiad cyfreithiol y llywodraeth i gyrraedd sero net erbyn 2050.

Ymgynghorwyd ar gynlluniau dair blynedd yn ôl i orfodi landlordiaid preifat yng Nghymru a Lloegr i wella'i heiddo i o leiaf lefel C y Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) erbyn 2025 i denantiaethau newydd a 2028 i rai presennol. Mae'n rhaid iddynt gyrraedd safon EPC E eisoes.

Roedd llawer yn disgwyl oedi ond yn lle hynny dileodd Sunak y mesur yn gyfan gwbl ar y sail 'y byddai rhai perchnogion eiddo wedi cael eu gorfodi i wneud gwaith uwchraddio drud ymhen dim ond dwy flynedd'.

Roedd hyn yn rhan o naratif ehangach am San Steffan yn arosod 'costau sylweddol ar weithwyr, yn enwedig rhai sydd eisoes yn ei chael i'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd', a felly oedi cynlluniau i wahardd ceir tanwydd ffosil a bwyleri.

Fodd bynnag, mae dileu MEES yn golygu y bydd tenantiaid yn parhau i dalu biliau ynni uwch ar gyfer y mwy na dwy filiwn o gartrefi rhent preifat sydd â graddfa is nag EPC C.

### *LLOEGR*

#### Cynigion y pleidiau ar dai

Gwelodd tymor cynadleddau'r pleidiau arweinydd y Toriaid, Rishi Sunak, yn dweud nemor ddim am dai, arweinydd Llafur, Keir Starmer yn cyhoeddi mai 'ni yw'r adeiladwyr', ac aelodau'r Democratiaid Rhyddfrydol yn trechu ymgais yr arweinyddiaeth i ostwng eu targed ar gyfer cartrefi newydd.

Yr unig gartrefi yn araith y prif weinidog oedd miloedd o fflatiau moethus a gaiff eu hadeiladu o amgylch gorsaf Euston i helpu i gyllido estyniad HS2 i ganol Llundain.

Cynigiodd Keir Starmer darged newydd o 1.5 miliwn o gartrefi newydd yn Lloegr o fewn pum mlynedd, 500,000 yn fwy nag y mae llywodraeth Sunak yn debygol o'i gyflawni a nifer hynod debyg i darged maniffesto 2019 y Ceidwadwyr o 300,000 y flwyddyn erbyn canol y 2020au.

Cyhoeddodd hefyd nifer o ddiwygiadau i'r system gynllunio a'r llain werdd yn ogystal â chenhedlaeth newydd o drefi newydd i gefnogi targed a fyddai, meddai, yn helpu i adfer 'y freuddwyd o berchentyaeth'.

Addawodd y dirprwy arweinydd, Angela Rayner 'yr hwb mwyaf i dai fforddiadwy a chymdeithasol mewn cenhedlaeth', ond mae hyn yn dibynnu ar wneud y Rhaglen Tai Fforddiadwy yn fwy hyblyg ac atal datblygwyr rhag 'gwingo'n rhydd' o'u hymrwymiadau i godi tai fforddiadwy yn hytrach na buddsoddi newydd.

#### Cais i ddad-flocio cartrefi yn methu

Methodd llywodraeth San Steffan â chais munud-olaf i newid rheolau ar niwtraleiddio maetholion mewn afonydd er mwyn dadflocio'r gwaith o adeiladu miloedd o gartrefi newydd.

Methodd gwelliant i'r Bil Lefelu i Fyny ac Adfywio yn ystod ei gamau olaf yn Nhŷ'r Arglwyddi pan ymunodd Llafur â'r gwrthbleidiau a Cheidwadwyr gwrthryfelgar i bleidleisio yn ei erbyn.

Cyhuddwyd y llywodraeth o anwybyddu ei chorff gwarchod amgylcheddol ei hun ac o geisio cael awdurdodau cynllunio i anwybyddu tystiolaeth o lygredd mewn afonydd. Galwodd cyn-ysgrifennydd amgylchedd Toriaidd, yr Arglwydd Deben, hwn yn 'un o'r darnau gwaethaf o ddeddfwriaeth a welais erioed'.

Fodd bynnag, cyhuddodd y Toriaid yr arweinydd Llafur Keir Starmer o 'fflip-fflopio o fod yn adeiladwr i fod yn flociwr'.

### *YR ALBAN*

#### Bydd y Bil Tai yn nodi rheolaethau rhent

Addawodd Llywodraeth yr Alban i greu pwerau ar gyfer rheolaethau rhent tymor-hwy yn y sector breifat fel rhan o'i Fargen Newydd i Denantiaid.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu newydd a gyhoeddwyd ym mis Medi yn cynnwys Bil Tai arfaethedig a fydd yn rhoi rhagor o fanylion am y pwerau, creu hawliau tenantiaid newydd a dyletswyddau newydd â'r nod o atal digartrefedd.

Cyflwynodd Holyrood gap ar renti dros-dro ac amddiffyniad pellach yn erbyn troi allan yn y rhan fwyaf o'r sector rhentu yn ystod y pandemig, sy'n para tan fis Mawrth 2024.

Cyflwynir Bil Adfer Cladin hefyd 'i helpu i ddiogelu perchnogion tai a phreswylwyr drwy greu pŵer newydd i gymryd camau brys i adfer cladin anniogel sy'n achosi perygl i fywyd'.

### *GOGLEDD IWERDDON*

#### Cronfa adfer cladin yn agor

Lansiodd yr Adran Cymunedau gronfa gwerth £33 miliwn ar gyfer adfer cladin anniogel ar adeiladau preswyl.

Mae'r gronfa ar gyfer blociau preswyl sy'n fwy nag 11 metr o uchder lle nad oes modd canfod, olrhain na dal datblygwr yn gyfrifol. Fe'i defnyddir i adfer neu liniaru risgiau tân yn gysylltiedig â chladin allanol.

Agorwyd y gronfa i geisiadau fis Awst a chânt eu prosesu a'u talu drwy Gynllun Diogelwch Cladin llywodraeth San Steffan.

## LLYWODRAETH CYMRU

### Torri cyllidebau i lenwi bylchau yn y GIG a rheilffyrdd

Cyhoeddodd y gweinidog cyllid, Rebecca Evans, **becyn o fesurau ariannol** i liniaru 'pwysau eithriadol' ar gyllideb Llywodraeth Cymru.

Bu'n rhaid iddi ddod o hyd i £425 miliwn ychwanegol i lenwi'r bwlch yng nghyllideb GIG Cymru, a £125 miliwn i Drafnidiaeth Cymru i ddiogelu gwasanaethau rheilffordd.

Mewn datganiad i'r Senedd wrth i WHQ fynd i'r wasg ym mis Hydref dywedodd *'y gofynnwyd i bob portffolio gweinidogol wneud cyfraniad at gwrdd â'r pwysau sy'n ein hwynebu ar draws y Llywodraeth'*. Diogelir y Grant Cynnal Refeniw i lywodraeth leol i helpu i dalu am wasanaethau hanfodol.

Bydd tua £100 miliwn o'r diffyg yn dod o gronfeydd wrth gefn ond telir am y gweddill o'r toriadau i gyllidebau adrannol, ailflaenoriaethu gwariant a chais i Lywodraeth y DU newid cyfran o gyllid cyfalaf i gyllid refeniw yn y flwyddyn ariannol hon.

Cynyddir y gyllideb refeniw newid hinsawdd o £82.6 miliwn ond mae hynny o fewn cyd-destun y cynnydd mewn cyllid i'r rheilffyrdd a thorrir £37.7 miliwn o gyllid cyfalaf.

Mae **crynodeb o'r prif newidiadau** yn cynnwys rhyddhau £19 miliwn o gyfalaf o'r cynllun Cartrefi Gwag trwy gyfrwng diweddaru rhagolygon a gohirio gweithgarwch a chyllid, a chaiff £14.5 miliwn ei ryddhau o gyllidebau adfywio, sy'n cynnwys £13 miliwn o incwm.

### Cyhoeddi SATC newydd

Cyhoeddwyd y fersiwn newydd o Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) ddiwedd mis Hydref.

Yn dilyn ymgynghoriad hir, mae SATC yn egluro'r safon y bydd disgwyl i landlordiaid cymdeithasol Cymru ei chyrraedd ar gyfer eu holl gartrefi.

Datgarboneiddio a chynhesrwydd fforddiadwy yw'r ffocws allweddol; caiff landlordiaid fwy o hyblygrwydd yn yr amserlen o dargedau ar gyfer gwella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi.

***Gweler ein nodwedd arbennig ar SATC 2023 yn dechrau ar t21***

### Cynlluniau i roi terfyn ar ddigartrefedd

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur gwyn ar Ddiwrnod Digartrefedd y Byd ym mis Hydref yn egluro sut y bwriedir rhoi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru.

Drwy ddiwygio'r ddeddfwriaeth, dywed Llywodraeth Cymru y bydd y perygl o ddigartrefedd yn cael ei atal cyn gynted â phosibl ac y rhennir y cyfrifoldeb am ei ganfod a'i atal ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

Seilir y cynigion i raddau helaeth ar ganfyddiadau Panel Adolygu Arbenigol Annibynnol y gofynnwyd iddo adolygu'r ddeddfwriaeth bresennol a gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru.

***Am ragor o fanylion, gweler tt8-9***

### Gweinidog yn nodi blwyddyn gyntaf TACP

Ymwelodd y Gweinidog Newid Hinsawdd, Julie James â hen safle Gwaith Nwy Caerdydd i nodi pen-blwydd cyntaf Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol (TACP) Llywodraeth Cymru.

Dim ond un safle yw Gwaith Nwy Caerdydd o nifer a elwodd ar TACP, a ddisgrifiwyd gan y gweinidog fel rhaglen i helpu 'i sicrhau bod gan bawb le i'w alw'n gartref'.

Sefydlwyd TACP yn wreiddiol yn Haf 2022 i ddod â mwy o lety tymor-hwy o ansawdd da ymlaen ar garlam i ymateb i'r pwysau cynyddol ar lety dros-dro, gan gynnwys yr hyn a grëwyd gan argyfwng Wcráen. Yn ei flwyddyn gyntaf, darparodd £76.4 miliwn i awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i gynhyrchu 936 o gartrefi.

Nod y prosiect ar safle'r gwaith nwy ar Ferry Road, Caerdydd yw codi cartrefi modiwlaidd o ansawdd uchel at 'ddefnydd yn y cyfamser' ar gyfer mwy na 150 o deuluoedd, â £16.4 miliwn o gyllid grant.

### Ofnau am drefn diogelwch adeiladau newydd

Cododd Archwiliad Cymru bryderon ynghylch gweithredu newidiadau i reolaeth adeiladu a diogelwch adeiladau a gyflwynwyd yn dilyn tân Tŵr Grenfell.

Croesawai'r adroddiad y newidiadau ond dywedodd nad yw'r rhai sy'n gyfrifol am eu gweithredu mewn sefyllfa dda i'w cyflawni ac na allant gyflawni eu swyddogaeth estynedig yn effeithiol i sicrhau diogelwch adeiladau yng Nghymru.

Mae ansicrwydd yn parhau ynglŷn â sut y gweithredir rhai agweddau ar y drefn Diogelwch Adeiladau newydd, meddai, gyda rhai pethau allweddol heb eu penderfynu.

Codai'r adroddiad bryderon hefyd am heriau gyda staffio a hyfforddiant yn y proffesiwn rheoli adeiladu a diogelwch adeiladau ac am reolaeth ariannol rheoli adeiladu o fewn rhai awdurdodau lleol.

Dywedodd llefarydd ar ran Llywodraeth Cymru: *'Mae diwygio'r system bresennol o reoli adeiladu yn flaenoriaeth i ni a chroesawn adroddiad Archwilio Cymru. Rhydd yr adroddiad drosolwg o gyflwr gwasanaethau rheoli adeiladu awdurdodau lleol, ac nid adolygiad o raglen diogelwch adeiladau Llywodraeth Cymru mohono. Rydym wedi datblygu amserlen fesul cam ar gyfer gweithredu darpariaethau'r Ddeddf Diogelwch Adeiladu sy'n berthnasol i Gymru. Cafodd hyn ei gyfleu'n eang i'r diwydiant a rhanddeiliaid eraill a bydd y gwaith yn dechrau yn gynnar yn 2024.'*

### Adran newydd yn golygu datblygiadau ar reoleiddio

Dros yr haf, cymerodd Matthew Hall swydd newydd fel dirprwy gyfarwyddwr dros-dro, Strategaeth a Rheoleiddio Tai yn Llywodraeth Cymru.

Bydd yr is-adran newydd yn datblygu'r gallu i ymdrin â data ac ymchwil ar draws y gyfarwyddiaeth yn ogystal â chefnogi datblygu strategaeth a deddfwriaeth ar draws yr holl swyddogaethau tai ac adfywio. Dylid nodi bod yr is-adran newydd hefyd yn sicrhau bod y swyddogaeth reoleiddio wedi ei gwahanu'n glir oddi wrth benderfyniadau dyfarnu grantiau a chyllido.

Ceir proffil o'r is-adran newydd yn rhifyn nesaf WHQ gan gynnwys rhai datblygiadau pwysig o gwmpas rheoleiddio yn ogystal â rhagolwg ar dirwedd strategaeth a deddfwriaeth y misoedd nesaf.

### Ymgynghoriadau

Ymgynghoriadau agored o ddiddordeb i ddarllenwyr WHQ:

- **Strategaeth wres i Gymru** – ymatebion erbyn 8 Tachwedd
- **Papur gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru** – ymatebion erbyn 16 Ionawr 2024

## CYMRU

### Caerffili yn cymeradwyo cynllun tai fforddiadwy

Cymeradwyodd cabinet Caerffili gynlluniau uchelgeisiol i godi 1,000 o gartrefi fforddiadwy carbon-isel newydd yn y deng mlynedd nesaf i ateb anghenion lleol cynyddol.

Mae'r cynlluniau'n rhan o'r strategaeth datblygu a llywodraethiant ***'Adeiladu Gyda'n Gilydd'*** a fydd hefyd yn sefydlu bwrdd prosiect i oruchwylio datblygiad y rhaglen ddatblygu.

Cymeradwywyd cynlluniau hefyd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili lofnodi a chytuno i ufuddhau i'r egwyddorion allweddol a amlinellir yn Siarter Creu Lleoedd Comisiwn Dylunio Cymru.

Meddai'r Cyng Shayne Cook, aelod cabinet dros dai: *'Yn gyfredol mae mwy na 6,300 o deuluoedd sydd ag angen tŷ ar Gofrestr Tai Gyffredin Caerffili, yn cynnwys 320 mewn llety dros-dro. Mae mwyfwy o angen am dai yn genedlaethol ac mae hyn yn debygol o gynyddu, wrth i'r argyfwng costau byw effeithio ar fwy o aelwydydd.'*
***Gweler cyfweliad Shayne Cook, t18-20.***

### Datgelu cynlluniau ar gyfer pentref eco

Mae Cartrefi Conwy wedi rhoi cipolwg i'r gymuned ar ei bentref eco arfaethedig o 130 o gartrefi carbon-isel ar safle ger Ffordd Tywyn ym Mhensarn, ger Abergele.

Mae caniatâd cynllunio ar gyfer tai gan hen safle Inter Leisure eisoes, wedi ei sicrhau gan y perchnogion blaenorol.

Cynhaliodd Cartrefi ymgynghoriad cyhoeddus dros yr haf ac mae'n rhagweld gwneud cais am ganiatâd i ddiwygio'r caniatâd presennol yn yr hydref.

Os caiff ei gymeradwyo gan gynllunwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, hwn fydd cynllun tai mwyaf erioed Cartrefi Conwy, yn costio cyfanswm o fwy na £30 miliwn.

Bydd yr eiddo'n cael ei adeiladu i ddyluniad modiwlaidd gyda'r fframiau pren a'r distiau post – gwe fetel wedi'i osod rhwng dwy fflans bren y gellir bwydo ceblau a phibellau drwyddi – a gynhyrchir gan is-gwmni Cartrefi, Creu Menter, yn ei ffatri yn y Rhyl.

Mae'r cynllun yn cynnwys cymysgedd o gartrefi fforddiadwy un-, dwy-, tair- a phedair-llofft a bydd yn helpu i leihau'r prinder tai difrifol yn yr ardal.

Adeiledir pob un o'r 128 eiddo i safonau Passivhaus, gyda dyluniad ynni effeithlon fel eu bod yn cynnal tymheredd cyson bron am gost isel iawn.

Bydd gan bob cartref baneli solar ar y to a bydd gan yr eiddo bwyntiau gwefru ceir trydan y tu allan fel rhan o ymgyrch Cartrefi tuag at sero net.

Yn ystod y gwaith adeiladu, bydd profiad gwaith, hyfforddiant a chyfleoedd gwaith ar gael i denantiaid Cartrefi a phobl leol sy'n ddi-waith ar hyn o bryd.

Yn ôl Katie Clubb, rheolydd-gyfarwyddydd Cartrefi Conwy, tanlinellir yr angen am y datblygiad gan y ffaith bod 1,942 ar y rhestr aros am dai cymdeithasol yng Nghonwy.

Meddai: *'Bydd hwn yn gynllun tirnod i Cartrefi Conwy, ein datblygiad tai mwyaf erioed gyda 100 y cant yn gartrefi fforddiadwy, sy'n anhygoel o gyffrous.*

*'Fe'i gwnaed yn bosibl diolch i'r cymorth ariannol a gawsom gan Lywodraeth Cymru i gaffael y tir.'*



### Cadeirydd newydd Cynefin

Cadarnhaodd Grŵp Cynefin mai Tim Jones fydd cadeirydd newydd ei fwrdd rheoli.

Dilynodd Carys Edwards, a gwblhaodd ei thymor tair-blynedd fel cadeirydd ym mis Medi.



Yn Gymro Cymraeg, sy'n byw yn Llanbedr DC, Rhuthun, mae ar hyn o bryd yn gwasanaethu fel cadeirydd bwrdd rheoli is-gwmni Grŵp Cynefin, Canllaw.

### Penodi cadeirydd a bwrdd newydd ClwydAlyn

Mae ClwydAlyn wedi cadarnhau penodiad Cris McGuinness fel cadeirydd newydd y Bwrdd ac wedi croesawu pedwar aelod newydd arall.



Roedd Cris McGuiness yn brif swyddog ariannol cymdeithas tai flaenllaw Riverside yn Lloegr a daw â blynyddoedd lawer o brofiad tai lefel-uwch gyda hi. Yn Gyfrifydd Siartredig a hyfforddwyd gan KPMG, bu'n gweithio i'r Guinness Partnership, North Herefordshire Homes ac Adactus Housing Group yn flaenorol.

Ymgymerodd â'r swydd ym mis Medi, gan gymryd yr awenau oddi wrth Stephen Porter a fu yn y swydd am saith mlynedd ac ar y bwrdd am wyth.

Croesawodd ClwydAlyn Sally Thomas, Bethan Smith, Tania Silva a Brian Streford i'r Bwrdd hefyd. Bydd pob un yn ymuno â phwyllgorau arbenigol ar bobl, sicrwydd ac eiddo.

### Pen-blwydd gwasanaeth Tai yn Gyntaf cyntaf Cymru

Mae'n gwasanaeth Tai yn Gyntaf cyntaf newydd ddathlu ei ddengmlwyddiant ar Ynys Môn.

Lansiodd y Wallich wasanaeth Tai yn Gyntaf Ynys Môn ym mis Ebrill 2013 fel cynllun peilot 12-mis yn unig ond mae bellach wedi gweithio gyda 330 o bobl ar

yr ynys dros y degawd.

Fis Gorffennaf, gwahoddwyd defnyddwyr y gwasanaeth, partneriaid a staff – ddoe a heddiw – i ddathliad anffurfiol.

Yn Park Mount yn Llangefni, dros bryd da o fwyd, gofod awyr-agored heulog a chrefftau dan-do, daeth pawb ynghyd i gydnabod y berthynas a ffurfiwyd, y cartrefi a grëwyd a'r bywydau a wellwyd gan Tai yn Gyntaf Ynys Môn.

Meddai Jo Parry, rheolwr gwasanaeth Tai yn Gyntaf yn y Wallich: 'Bu'n bleser croesawu wynebau cyfarwydd o drod y blynyddoedd heddiw. Cerddodd un o'n cleientiaid cyntaf oll, Alan, drwy'r drws a fedrwn i'm coelio'r peth. Mae'n dal yn y llety yr helpon ni o i symud iddo ac yn gneud yn dda iawn."

Dywedodd Dan Roebuck, ar ran tîm tai Cyngor Sir Ynys Môn: 'Llongyfarchiadau ar 10 mlynedd ac ar weithio trwy gyfnod anodd a darparu gwasanaeth gwych, gan edrych ymlaen at flynyddoedd lawer mwy o ganlyniadau cadarnhaol.'

Dros y blynyddoedd, cafodd Tai yn Gyntaf Ynys Môn ei ganmol gan weinidogion Llywodraeth Cymru ac aelodau o'r Senedd, ei gefnogi gan y gymuned leol, a chefnogwyr corfforaethol fel Dunelm ac ASDA, ac ymddangosodd mewn cyfryngau fel y North Wales Chronicle a BBC Radio 4.

## Cymoedd i'r Arfordir yn dathlu 20fed pen-blwydd â'r buddsoddiad mwyaf

Cyhoeddodd Cymoedd i'r Arfordir fuddsoddiad o £31.5 miliwn yn ei 6,000 o gartrefi ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Wrth ddathlu ei 20fed pen-blwydd, bydd y gymdeithas dai yn gwneud ei buddsoddiad unigol mwyaf erioed yn ei chartrefi gyda'r nod o wella a gloywi ei stoc tai ar gyfer ei chwsmeriaid.

Bydd y buddsoddiad yn darparu cyllid ar gyfer datblygu ac adeiladu cartrefi newydd i gynyddu argaeledd tai fforddiadwy a chynaliadwy ym Mhen-y-bont.

Bydd hefyd yn talu am uwchraddio sylweddol a gwelliannau i eiddo presennol, i sicrhau ei fod yn cyrraedd safonau effeithlonrwydd ynni.

Ochr yn ochr â hyn bydd rhaglen ôl-ffitio gynhwysfawr hefyd, i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi presennol, a chaiff addasiadau pwrpasol eu gwneud i sicrhau bod tai yn hygyrch ac yn gyfforddus i bawb. Caiff unedau eiddo gwag hefyd eu hailwampio a'u hadfywio.

Cymoedd i'r Arfordir oedd y trosglwyddiad gwirfoddol mawr cyntaf o dai o ofal awdurdod lleol yng Nghymru yn 2003.

Dywedodd Joanne Oak, prif weithredwr y grŵp: *'Rydym wrth ein bodd i ddathlu ein 20fed drwy fuddsoddi mewn gwella ein cartrefi i'r bobl sy'n byw ynddyn nhw.'*

## Dechrau uwchraddio system wresogi ardal

Mae Cartrefi Dinas Casnewydd wedi penodi'r cwmni arobryn, Vital Energi, yn brif gontractwr i redeg y rhaglen adnewyddu i uwchraddio'r pibellau sy'n cysylltu system wresogi ardal â mwy na 1,000 o gartrefi yn y Dyffryn.

Profodd y system gyfres o ollyngiadau yn gynnar yn 2023, gan darfu'n sylweddol ar wresogi a chyflenwadau dŵr poeth. Mae'r gymdeithas bellach wedi cyhoeddi rhaglen sylweddol o waith gosod pibellau newydd i wella perfformiad ar gyfer y gymuned leol.

# 10 CYHOEDDIAD SY'N DAL Y SYLW

1 **Yr Hawl i Gael Tai Digonol**
**Senedd Cymru Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Gorffennaf 2023**
*senedd.wales/media/mfmlwuqb/cr-ld15943-e.pdf*

2 **'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru**
**Archwilio Cymru, Awst 2023**
*audit.wales/publication/cracks-foundations-building-safety-wales*

3 **Tlodi yn Arfon yn yr 21ain ganrif: Datrysiadau cyfoes ar gyfer hen her**
**Sefydliad Bevan, Awst 2023**
*https://www.bevanfoundation.org/resources/tlodi-yn-arfon/*

4 **Why have the volume housebuilders been so profitable?**
**UK Collaborative Centre for Housing Evidence, Medi 2023**
*housingevidence.ac.uk/publications/why-have-the-volume-housebuilders-been-so-profitable/*

5 **Make history: ending homelessness with homes – unlocking the potential of England's empty buildings**
**Crisis, Medi 2023**
*www.crisis.org.uk/media/02en2gwp/crisis-make-history-ending-homelessness-with-homes.pdf*

6 **Addasu i newid hinsawdd: Cynnydd yng Nghymru**
**Pwyllgor Newid Hinsawdd, Medi 2023**
*www.theccc.org.uk/publication/adapting-to-climate-change-progress-in-wales/*

7 **The missing piece: the case for a public sector master developer**
**Sefydliad Joseph Rowntree, Medi 2023**
*www.jrf.org.uk/report/missing-piece-case-public-sector-master-developer*

8 **More than money: moving towards a relational approach to retrofitting**
**Institute for Public Policy Research, Medi 2023**
*www.ippr.org/research/publications/more-than-money*

9 **The community right to buy - how housing acquisitions can regenerate left behind communities, improve standards, and decarbonise homes**
**New Economics Foundation, Medi 2023**
*neweconomics.org/2023/09/the-community-right-to-buy*

10 **Enabling locally led retrofit – reforms to scale up effective delivery**
**E3G, Gorffennaf 2023**
*www.e3g.org/publications/enabling-locally-led-retrofit/*




# ADEILADU SEILIAU TEG


Mae'r heriau cynyddol yn gwneud rhan sefydliadau tai mewn economïau lleol yn bwysicach nag erioed, meddai'r Athro Karel Williams a Keith Edwards

**Mae aelwydydd a chymunedau unigol yn dal i ysgwyddo baich yr argyfwng costau byw. Mae cyflogau'n cynyddu'n llawer arafach na phrisiau hanfodion fel bwyd, cyfleustodau a thrafnidiaeth, a rhenti'n cynyddu i denantiaid preifat. Mae hyn yn gwasgu incwm gweddilliol pob aelwyd ar gyflog isel mewn llefydd sy'n dioddef canlyniadau hirdymor llymder ar wasanaethau a seilwaith cymdeithasol.**

Bu cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol yn gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru ac eraill ers tro i fynd i'r afael â llu o heriau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Ond yn yr argyfwng presennol, mae rhai cymdeithasau tai blaengar yn arwain y ffordd o ran arloesi cymdeithasol:

- Cenhadaeth graidd ClwydAlyn yw 'gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael ag achosion ac effeithiau tlodi' trwy raglenni fel Well-Fed.
- Mae Cartrefi Cymoedd Merthyr yn cynnig 'rhodd o amser' i'w staff ar ffurf oriau byrrach ond iddynt gynnal ansawdd y gwasanaeth.
- Mae CT y Rhondda yn arwain menter fawr, hirdymor yng nghanol Tonypandy i adfywio gweithgareddau, swyddi a chartrefi.

Dengys hyn yr hyn a elwir yn ddull sylfaenol ymaddasol o fynd ati, sef 'dechrau gyda'r cerrig wrth eich traed'. Mae hyn yn adeiladu ar wersi a thactegau'r dull Medraf (Can Do), a ddatblygwyd i helpu i gyflawni rhaglen £5 biliwn Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC) yn wreiddiol. Fe'i mabwysiadwyd yn eang ledled y sector tai, ac mae'n parhau i esblygu wrth i broblemau ddwysáu.




Fel yr eglura llyfr newydd, *When nothing works*, mae dadansoddiad sylfaenol yn ychwanegu ffocws cyfannol ar ailadeiladu tri philer dadfeiliedig bywiadwyaeth sylfaenol, oherwydd dyma rag-amodau angenrheidiol llesiant yr aelwydydd aml-berson lle triga'r rhan fwyaf ohonom:

- Incwm gweddilliol digonol (ar ôl hanfodion) sy'n golygu ar lefel leol gwneud i incwm fynd ymhellach drwy bopeth o gartrefi cynhesach, ynni-isel i gyngor ar hawlio budd-daliadau.
- Mynediad at wasanaethau hanfodol o safon sy'n golygu diwygio gofal oedolion yn lleol ac, yn y man, mwy o bwyslais ar atal salwch.
- Cynnal isadeiledd cymdeithasol caled a meddal sef, yn lleol, gweithgareddau mewn parciau, llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol, gan ein bod ni oll yn greaduriaid cymdeithasol.

Rhwydwaith traws-sector chwim ei dwf yw'r Gynghrair Sylfaenol, a'r nod o helpu i ledaenu arfer arloesol, yn enwedig ym meysydd tai, iechyd a gofal, tra'n annog 'cynghreiriau ar gyfer newid' lleol a rhanbarthol fel Mudiad 2025 yng ngogledd Cymru sy'n dod â sefydliadau ynghyd i fynd i'r afael â phroblemau cyffredin.

Daeth ein Cynhadledd Gweithredu ar Dai ag arweinwyr ac ymarferwyr o'r sector tai a thu hwnt at ei gilydd i symud pethau ymlaen drwy nodi meysydd gweithredu. Canolbwyntiwyd ar bedair blaenoriaeth sectoraidd:

### 1. GWELLA CYDWEITHIO YM MAES CAFFAEL A CHADWYNI CYFLENWI LLEOL

Mae gan y gynghrair ymrwymiad ers amser maith i helpu i hybu economïau lleol. Mae hyn yn cydweddu â rôl y sector tai o ran ôl-ffitio cartrefi presennol ac adeiladu rhai newydd sero-net. Ceir nifer o fentrau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn y maes hwn:

**Unnos:** Roedd y cynnig i sefydlu menter adeiladu genedlaethol newydd, Unnos, yng Nghytundeb Cydweithredu Llafur/Plaid Cymru. Y nod yw cefnogi cynghorau a landlordiaid cymdeithasol i wella'r cyflenwad o dai fforddiadwy. Her allweddol fydd ysgogi'r sector a chyflenwyr i gyflawni hyn.

**Prosiect Cyflawni Sero Net Llywodraeth Cymru:** Y nod yw cyflymu cydweithredu, cydgrynhoi galw a datblygu cadwyn gyflenwi gan ganolbwyntio ar ddulliau adeiladu modern sy'n defnyddio pren o Gymru. Yr aelodau presennol yw:

- Awdurdodau lleol a gadwodd eu stoc (11 i gyd): Caerffili, Caerdydd, Sir Gaerfyrddin, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Ynys Môn, Sir Benfro, Powys, Abertawe, Bro Morgannwg a Wrecsam.
- Cymdeithasau tai (saith, ac ar gynnydd): Caredig, Cartrefi Conwy, ClwydAlyn, Coastal, Cartrefi Sir Fynwy, Tai Tarian ac United Welsh.

Mae Cwmpas newydd dderbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i roi adnoddau uniongyrchol a hyblyg ar waith gyda Cyflawni Sero Net a phartneriaid yn y 'bwlch gweithredu' i ddileu rhwystrau i gydweithredu a sefydlu dulliau ymarferol a chynaliadwy o weithredu ar sail dull Medraf o fynd ati.

**Partneriaethau lleol a mentrau ar y cyd:** Mae nifer o gymdeithasau fel Coastal, Cartrefi Conwy, ClwydAlyn a Tai Tarian yn cynyddu eu gallu i greu cadwyni cyflenwi sero-net newydd, yn cynnwys gwneuthurwyr fframiau pren.

### 2. DATBLYGU CYNLLUN SGILIAU SERO NET

Bydd cyrraedd sero net – drwy fuddsoddi mewn cartrefi presennol ac adeiladu rhai newydd – yn gofyn datrys problemau â thechnoleg newydd ond hefyd ailfeddwl yn llwyr pa sgiliau fydd eu hangen i wneud hynny.

Mae llawer o waith ar hyn yn parhau




*Mae prosiect Well-Fed ClwydAlyn yn un enghraifft o gymdeithasau tai blaengar yn arwain y ffordd*

i gael ei wneud ar draws y DU a thu hwnt ond nid ydym eto wedi gallu llunio cynllun cydlynol a phosib eu gyflawni y gall y sector tai, darparwyr hyfforddiant a chontractwyr ei gefnogi.

Mae'r gynghrair yn helpu i ddatblygu prosiect a fydd yn:

- Adeiladu ar wersi SATC wrth fynd i'r afael â bylchau sgiliau a darparu cyfleoedd i bobl leol.
- Paru cyfleoedd â galw am sgiliau penodol.
- Cefnogi arloesedd fel cyd-brentisiaethau a hyfforddiant aml-sgiliau lefel mynediad/canolradd
- Ffitio i mewn i fentrau sylfaenol ehangach fel adeiladu a datblygu cadwyni cyflenwi lleol.
- Ymgysylltu â phartneriaid megis Hwb Ôl-ffitio'r DU, yr HWB Carbon, Colegau Cymru a darparwyr hyfforddiant a chefnogaeth leol.

### 3. SICRHAU LLAIS A GRYM GWEITHREDU TENANTIAID

Er ei bod yn gwbl briodol cynnwys 'clywed llais y tenant' (neu amrywiadau ) yng ngwerthoedd a chenhadaeth y rhan fwyaf o sefydliadau tai, gall gwireddu hynny yn ymarferol mewn ffyrdd ystyrlon fod yn anodd iawn. Ar yr un pryd, mae llawer o'n partneriaid yn y sector tai yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu â thenantiaid er mwyn gallu darparu tri philer bywiadwyaeth sylfaenol.

Er bod llawer o resymau positif dros gefnogi llais a grym gweithredu tenantiaid, mae peryglon amlwg hefyd mewn polisi oddi uchod, rhywbeth a wneir i denantiaid neu ar eu cyfer:

- Roedd gwrthod gwrando ar tenantiaid/ eu cymryd o ddifrif yn ffactor mawr mewn trasiedïau fel Tŵr Grenfell, esgeulustod fel Rochdale Borough Homes, a strategaethau ariannol difrifol o wallus fel L&Q a landlordiaid mawr eraill.
- Mae diffyg ymddiriedaeth mewn sefydliadau ac awdurdod yn erydu ein gwleidyddiaeth. Nid yw ymgynghori hen-ffasiwn yn ddigonol i ddatrys hyn – mae angen dechrau sgwrs sy'n rhoi grym gweithredu ystyrlon i bobl a chymunedau lleol.

Ein huchelgais yma yw arbrofi gyda sefydliadau tai a thenantiaid a datblygu prosiectau a fydd yn sicrhau y caiff llais tenantiaid ei glywed a bod ganddynt y gallu i bennu agendâu lleol yn hytrach na bod rhaglenni llawn bwriadau da yn cael eu gwthio arnynt.

### 4. ADEILADU'R GYNGHRAIR SYLFAENOL

Mae'r Gynghrair yn glir nad ydym am gystadlu ag eraill yn y maes hwn. Er enghraifft, rydym wrthi'n meithrin perthynas gref â Chartrefi Cymunedol Cymru. Mae cydweddiad da iawn rhwng yr economi sylfaenol a themâu cynhadledd flynyddol CCC ym mis Tachwedd 2023. Rydym yn rhannu pryder CCC am y 'blaenwyntoedd gwleidyddol ac economaidd sy'n wynebu Cymru; yr amgylchedd gweithredu ledled y DU; dileu tlodi ac anghydraddoldeb; cryfhau partneriaethau; darparu ar gyfer tenantiaid.

Rydym am ychwanegu at yr adnoddau a'r gweithgareddau gan ganolbwyntio ar:

- Hwyluso a chynnull (ar ôl gwrando ar y sector ) fel bod y Gynghrair yn rhoi cymorth gweithredol i'r sector tai i fod nid yn unig yn angor ond hefyd yn sbardun i sicrhau gwell incwm gweddilliol, gwasanaethau a seilwaith.
- Hyrwyddo a chefnogi arloesi ac arbrofi cymdeithasol lle bo'r sector tai (ar y cyd â chyrff eraill) yn defnyddio'i adnoddau ariannol a rheoli i wneud pethau mewn modd gwahanol.
- Casglu gwersi a'u rhannu trwy astudiaethau achos trylwyr o arloesedd fel y gellir addasu arfer da i amgylchiadau lleol amrywiol, a bod Cymru bellach heb ei diffinio gan y bwlch rhwng gormodedd o amcanion teilwng a phwyllgorau strategaethu, a gwneud y newidiadau sydd arnom eu hangen.

Bydd ein cynhadledd nesaf ar lais a grym gweithredu ym meysydd tai a gofal yng Nghaerdydd ar 31 Ionawr 2024 gyda Hilary Cottam yn brif siaradwraig. Byddwn hefyd yn croesawu cynhadledd ryngwladol Ewrop ar yr economi sylfaenol i Gaerdydd ym mis Medi 2024.

Yn y cyfamser, byddwn yn bwrw ymlaen â gwaith ar bob un o'r pedair blaenoriaeth tai ac yn croesawu gwirfoddolwyr a recriwtiaid sydd â diddordeb. Byddwn yn parhau hefyd â'n gweithgareddau rhwydweithio traws-sector gydag iechyd, gofal ac eraill. Y nod hirdymor yw cynghrair o blaid newid gyda sefydliadau tai ar flaen y gad o ran gwella bywiadwyaeth.

**Keith Edwards sy'n arwain ar dai gyda Chynghrair Sylfaenol Cymru. Yr Athro Karel Williams yw'r cadeirydd ac mae'n gyd-awdur cyfrol glawr-papur newydd, *When nothing works*, sy'n esbonio syniadau sylfaenol. Am fwy o wybodaeth am ein gwaith a'n haelodaeth, cysyllter â Jo Quinney yn *joq@foundationaleconomy.wales***

llythyr o RYWLE ARALL

# AWYRENNAU, CYCHOD FFERI A CHEIR




Yn y gyntaf mewn cyfres WHQ newydd ar weithwyr tai proffesiynol sydd wedi symud i swyddi y tu allan i Gymru, mae Brett Sadler yn myfyrio ar ei flwyddyn gyntaf yn Argyll a Bute

**Fis Mehefin 2022, symudais fy nheulu o ogledd Cymru i'r Alban, er mwyn ymgymryd â'm swydd gyntaf fel prif weithredydd, fel Prif Swyddog Gweithredol y West Highland Housing Association (WHHA) yn Oban. Mae WHHA yn rhan o'r Link Group, grŵp ail fwyaf yr Alban o gymdeithasau tai.**

Roeddwn i am fod mewn swydd lle teimlwn y gallwn wneud gwahaniaeth gwirioneddol nid yn unig i'r sefydliad ond i'r gymuned ehangach ac roeddwn i eisiau her newydd y tu allan i Gymru. Ers bod yn y swydd, dwi'n sicr wedi dod o hyd i lawer o heriau, ond hefyd llawn cymaint o gyfleoedd ac atebion posibl. Er bod llawer o'r heriau'n debyg i'r rhai a wynebir yng ngogledd Cymru, eu natur gwbl wledig sydd wedi bod yn wahanol.


Mae WHHA yn gweithredu yn Argyll a Bute sydd ar arfordir gorllewinol yr Alban, yn cynnwys Oban ac ynysoedd Mull ac Islay. Fel ardal cyngor, mae Argyll a Bute yn cwmpasu 9 y cant o gyfanswm arwynebedd tir yr Alban, gyda dim ond 1.5 y cant o gyfanswm poblogaeth yr Alban. Mae'n cynnwys 23 o ynysoedd cyfannedd. Mae'r ardal gyfan bron yn dioddef o ddiboblogi, ac mae hyn yn arbennig o ddifrifol mewn ardaloedd cefn gwlad a'r ynysoedd. Does ond rhaid i mi wrando ar y radio lleol neu edrych ar bapur lleol i gael fy atgoffa mai'r prinder tai lleol yw'r brif broblem i bobl ar yr ynysoedd ac yng nghefn gwlad. Mae'n daith o ychydig dros ddwy awr i yrru i Glasgow o Oban – ac yn hirach ar y trên. Does yna'r un draffordd yn holl ardal Argyll a Bute.

## PUMP AWR AR Y CWCH

Yn WHHA mae gennym fwy na 1,300 o unedau o eiddo dan ein rheolaeth, gyda 30 y cant o'n stoc WHHA o 800 a mwy wedi'u lleoli ar wyth o'r ynysoedd, sy'n golygu mai dim ond ar gwch neu awyren y gellir eu cyrraedd. Gall gymryd hyd at bum awr ar y fferi i gyrraedd stoc yr ynysoedd mwyaf anghysbell. Ni all staff alw draw yn rhwydd pan fo angen archwiliad atgyweiriadau. Yn wir, mae'n bosib na all staff alw draw i weld eiddo am sawl diwrnod gan fod angen bwcio taith ar fferi neu awyren. Weithiau dydy'r fferi ddim yn rhedeg oherwydd tywydd gwael neu am ei bod wedi torri i lawr. Os caiff y fferi a fwciwyd ei chanslo, efallai y bydd yn rhaid disgwyl am wythnos



*Datblygiad o 10 o dai WHAA ar Jura – y tai fforddiadwy cyntaf i gael eu hadeiladu ar yr ynys ers sawl blwyddyn*



*Ymweld ag ynys Mull i weld safleoedd datblygu posib – mae yna lefydd gwaeth i weithio!*

neu fwy nes bod slot arall yn rhydd. Pan gyrhaeddant yno, gallant fynd yn sownd ar yr ynys a methu dod nôl i'r tir mawr am ddyddiau. O ran darparu gwasanaethau gweithredol, gall fod yn her wirioneddol.

Mae datblygu tai newydd ar yr ynysoedd yn her hefyd. Mae'r gost fesul uned yn uchel iawn, yn rhannol o leiaf oherwydd costau gweithredu uchel cludo deunyddiau adeiladu i'r ynysoedd. Wnaiff contractwyr rhanbarth canolog yr Alban ddim gweithio yn Argyll a Bute am ei fod yn rhy wledig. Yn aml, all gweithwyr ddim dod o hyd i lety dros-dro yn ystod y gwaith adeiladu, felly maen nhw'n troi at deithio ar y fferi o'r tir mawr bob dydd. Sôn am gymudo! Cyfunwch hyn â pherchnogaeth tir tra chymhleth ar rai o'r ynysoedd a gall gymryd blynyddoedd yn llythrennol i brosiect gyrraedd y cam cyn-cynllunio yn unig.

## LLAWER O HERIAU

Ers i mi ddechrau fel prif weithredwr mae ein costau atgyweirio wedi cynyddu hefyd – o ryw 30 y cant yn y flwyddyn ddiwethaf yn unig – ac fe'i cawsom hi'n anodd recriwtio i swyddi staff allweddol yn aml. O ie, a bu'n rhaid i ni ymdopi â'r posibilrwydd o rewi rhenti yn yr Alban, ynghyd â chwyddiant rhemp, yn fy mlwyddyn gyntaf fel prif weithredydd. Fel y dywedais yn gynharach, llawer o heriau!

Ond dyna ddigon am yr heriau, meddech chi, beth am yr atebion?

Wel un o'r atebion yma yw gweithio mewn partneriaethau go iawn. Mae pedwar LCC Argyll yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd, gan gyfarfod yn rheolaidd i rannu'r hyn rydym yn ei wneud a rhannu a gweithio drwy heriau ar y cyd. Mae'r cadeiryddion a'r is-gadeiryddion hefyd yn cwrdd yn rheolaidd. Mae'r berthynas gyda'r cyngor yn un iach, gyda'r cyngor yn ddiweddar yn datgan argyfwng tai ar gyfer yr ardal gyfan, felly rydym yn y lle iawn i ganfod atebion arloesol.

Yn ddiweddar tendrodd WHHA yn llwyddiannus am i'r rhan fwyaf o'n gwasanaeth atgyweirio ac eiddo gwag gael ddarparu gan un o'n cyd-LCCiaid yn Argyll, drwy ei is-gwmni cynnal a chadw. Roedd hwn yn newid mawr i WHHA, ond â chanlyniadau positif eisoes, gyda mwy o foddhad tenantiaid ac adborth gan staff.

> **Mae hefyd yn galonogol gweld gweithredu cymunedol lleol go iawn**

Mae hefyd yn galonogol gweld gweithredu cymunedol lleol go iawn. Yn WHHA, diweddarwyd ein datganiad cenhadaeth yn ddiweddar i'w gwneud yn glir y byddwn yn cefnogi cymunedau gwledig ac ynysig i ffynnu. Dyma'r unig ffordd i gadw'r cymunedau hyn rhag diflannu, drwy gefnogi buddsoddi a thai newydd. Dydy hyn ddim yn hawdd, ond dyma'r peth iawn i'w wneud. Mae gan ein bwrdd ymrwymiad i'r gymuned leol ac mae'n cefnogi WHHA i wneud gwahaniaeth positif yn y gymuned. Mae gan WHHA enw da iawn yn y gymuned a gallaf ddweud yn onest mai'r gymuned sydd ar flaen ac yng nghanol pob sgwrs ar lefel Bwrdd.

Mae WHHA wedi bod yn rhan o Link Group ers 2015. Yn ddiweddar, cwblhaodd Link Group drydydd cam datblygiad tai newydd yn Dunbeg, ychydig y tu allan i Oban. Mae gan y trydydd cam yn unig 300 o dai newydd, a 260 ohonynt yn dai cymdeithasol. Mewn ardal wledig fel Argyll a Bute, mae hwn wedi bod yn ddatblygiad enfawr. Yn wir, mae'n ddatblygiad mawr i'r Alban! Mae WHHA yn rheoli'r eiddo hyn ar ran Link Group ac yn gweithredu fel darparwr lleol. Mae Link Group wrthi'n datblygu cynlluniau ar gyfer cam 4, sef datblygiad o 300 o dai pellach yn Dunbeg, felly mae hyd yn oed mwy i ddod.

Ochr yn ochr â hyn, mae gennym ein rhaglen ddatblygu ein hunain a dwi wedi mwynhau ymdaflu i hon yn fawr iawn. Ni fu pethau'n syml o gwbl, ond rydym bellach yn agos at fod â rhaglen ddatblygu bum-mlynedd ar y gweill sy'n gam mawr ymlaen at gyflawni ein cenhadaeth o 'gefnogi cymunedau lleol i ffynnu'.

O ran cymhariaeth lefel-uchel rhwng gorllewin yr Alban a gogledd Cymru, byddwn yn ei chrynhoi fel:

- Agwedd gadarnhaol ar y cyfan gan Lywodraeth yr Alban tuag at bolisi a deddfwriaeth tai (fel Llywodraeth Cymru)
- Dwi'n cael gweithio mewn lle hardd (fel yng ngogledd Cymru)
- Dwi'n gweithio gyda grŵp cyfeillgar o gymdeithasau tai (fel yng ngogledd Cymru)
- Rydym yn wynebu llawer o'r un heriau (ag yng ngogledd Cymru).

Ond rydym yn fwy anghysbell yma, gyda phrinder tai cymdeithasol lleol mwy difrifol, gellid dadlau, ynghlwm wrth ddiboblogi yn y rhan fwyaf o ardaloedd a diffyg argaeledd tai ar gyfer gweithwyr.

A wnes i'r peth iawn wrth ddod i fyny i orllewin yr Alban? Gellwch fentro!

**Brett Sadler oedd cyfarwyddwr gweithrediadau Tai Gogledd Cymru cyn mynd yn brif weithredydd Cymdeithas Tai West Highland ym mis Gorffennaf 2022**

# DDIM YN HAWDD– OND RHAID EI WNEUD

Y Cyng Shayne Cook, yr aelod cabinet dros dai yng Nghaerffili, yn sôn wrth Jules Birch am yr heriau ynghlwm wrth ddyrchafu cartrefi'r cyngor i'r SATC newydd a'i uchelgais ar gyfer cartrefi newydd



**Safonau yw thema'r rhifyn hwn o WHQ gyda'r SATC newydd yn amlwg mewn golwg. Beth yw nodweddion pwysicaf y SATC newydd i chi fel landlord a hefyd i'ch tenantiaid?**

Datgarboneiddio a chynhesrwydd fforddiadwy. Gyda'r argyfwng costau byw, a phrisiau ynni yn codi, mae'n anodd iawn gwresogi ein cartrefi nawr. Mae gennym ni dîm cymorth tai sy'n ceisio helpu pobl sy'n rhentu'n gymdeithasol ac yn breifat i aros yn eu heiddo ac atal digartrefedd. Yn ystod y pum mis diwethaf, cawsant 2,700 o atgyfeiriadau sy'n gynnydd o ryw 30 y cant dros yr un cyfnod y llynedd. Roedd cyfran fawr o'r atgyfeiriadau hyn gan deuluoedd sydd mewn trafferthion ac mae'n mynd i waethygu. Llwyddodd y tîm cymorth tai i gynhyrchu tua £5.8 miliwn o incwm ychwanegol ar gyfer preswylwyr Caerffili a helpodd i ddosbarthu dros 900 o dalebau tanwydd gwerth tua £44,000 dros fisoedd y gaeaf.

Yn 2019, ni oedd yr ail gyngor yng Nghymru i ddatgan argyfwng hinsawdd. Felly mae datgarboneiddio'r stoc tra'n mynd i'r afael â thlodi tanwydd yn uchelgais bendant. Mae gennym ddau gynllun peilot [ar gyfer cartrefi newydd] yn Nhrecenydd a Thretomos a adeiladwyd i safonau Passivhaus ac ar sail canlyniadau cynnar yn unig, dywedwyd wrthyf fod gwresogi un eiddo am flwyddyn yn rhyw £278. Dyna pam ein bod yn gwthio'r safonau uchel hyn oherwydd os oes gennych chi denantiaid yn talu £278 i wresogi eu heiddo, mae'n mynd i'w helpu gyda chostau byw.

**Rwy'n dyfalu mai safon gyfwerth ag EPC A neu'n uwch ar gyfer cartrefi newydd sy'n cynhyrchu hynny, tra bod SATC wrth gwrs yn anelu am isafswm o EPC C i ddechrau. Faint o ymdrech fydd hynny gyda'ch stoc bresennol?**

Mae gennyf bryderon oherwydd y gost. Wyddom ni mo'r raddfa, nac a gawn ni unrhyw gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru. Ni all y Cyfrif Refeniw Tai ysgwyddo'r pwysau hwnnw ar ei ben ei hun. Mae gennym ni 6,000 o drigolion ar ein rhestr aros a 360 yn aros mewn llety dros-dro ac rydym am adeiladu mwy o gartrefi carbon-niwtral. Ond efallai bydd rhaid cwtogi ar hynny os bydd gofyn i ni gydbwyso'r ddau beth ar yr un pryd. Mae'r gofynion i gwblhau'r arolwg cyflwr stoc llawn a chynhyrchu llwybr ynni targed yn mynd i fod yn reit anodd hefyd.

Rhan arall sy'n destun cryn bryder yw'r adnoddau sgiliau. Darllenais mewn adroddiad CITB yn ddiweddar y bydd rhaid dod o hyd i 12,000 o weithwyr llawn-amser i wneud y gwaith datgarboneiddio. Felly byddwn yn cystadlu â'n holl gymheiriaid eraill, cynghorau, cymdeithasau tai, gyda'n cyllid dan bwysau. Mae'n mynd i fod yn risg ac yn her fawr ond rydym yn cychwyn ar y daith. Ni oedd un o'r cynghorau olaf i gwblhau'r SATC cyntaf nôl ym mis Rhagfyr 2021. Ond mae angen i ni wneud mwy o waith o hyd o ran edrych ar ein stoc lawn, gan nad oes gennym ddarlun cwbl gywir o'r hyn sydd angen ei wneud i godi i EPC gradd A. Mae'n mynd i gymryd amser.

**Ar y pwynt hwnnw ynglŷn â'r SATC gwreiddiol, a oes yna bethau a ddysgoch chi o'r profiad hwnnw a fydd o gymorth i chi gyflawni'r SATC newydd?**

Yn bendant. Dwi ddim am wneud esgusodion ond deuthum yn aelod cabinet dros dai ddiwedd Hydref/dechrau Tachwedd 2021 a chwblhawyd y SATC ym



*Shayne Cook (de, blaen) yn dathlu cwblhau tai cyngor newydd yn Nhretomos gydag arweinydd y cyngor, Sean Morgan (chwith, blaen)*






*Yn ein datblygiad bywyd diweddarach cyntaf yn Rhisga cyn dymchwel yr hen eiddo*

mis Rhagfyr 2021. Felly dwi'm yn hawlio unrhyw glod, fy rhagflaenydd oedd yn gyfrifol. Ond rydych chi'n iawn, cefais rai cyfarfodydd wedyn gyda thenantiaid a'r hyn a ddysgais ganddyn nhw ac o edrych ar adroddiadau yw bod ein tenantiaid am i'r cyngor wneud y gwaith yma. Credent bod y cyngor yn darparu gwell ansawdd. Roedden nhw'n hapus gyda'r gwasanaeth, roedd y staff yn fwy cyfeillgar, pe bai unrhyw broblemau gallent gysylltu â'r cyngor a chael trefn ar bethau'n eithaf cyflym. Ond bu'n rhaid i ni anfon rhywfaint o'r gwaith allan, roedd gan rai o'r contractwyr anawsterau ariannol ac felly bu'n rhaid iddo ddod yn ôl yn fewnol ac fe achosodd hynny oedi.

Felly, un peth yr edrychir arno yw sut rydym yn darparu'r gweithiau a phwy sy'n gwneud y gwaith. Hoffem ddarparu mwy o waith yn fewnol ond gallai hyn achosi oedi, fydd e ddim yn ddigon cyflym, yn enwedig gyda phopeth arall rydyn ni'n ei wneud, atgyweirio a chynnal a chadw ein stoc a'n tai gwag. Recriwtiwyd pennaeth newydd ar gyfer cynnal a chadw asedau, sy'n edrych ar ein holl strwythurau mewnol, gyda ffocws ar wersi blaenorol o SATC, ac mae'n edrych yn awr at yr hyn y gellir ei wneud. Felly mae'n llawer mwy na dim ond cyllid, er y bydd cyllid yn broblem fawr; mae a wnelo â rheoli asedau, rheoli contractau a'r gweddill i gyd. A phrinder sgiliau, dyna un peth dwi wir yn poeni yn ei gylch. Cyflogir mwy o brentisiaid nawr ond mae'n anodd recriwtio hyd yn oed nawr cyn i SATC 23 ddechrau. Mae'n anodd iawn i ni gystadlu â chymdeithasau tai am yr un gweithwyr sydd eu hangen ar gyfer datgarboneiddio.

**O ran datgarboneiddio, dwi'n credu i chi grybwyll problemau'n ymwneud ag arolygon cyflwr stoc a gwybod yn union pa waith sydd ei angen ar fathau neilltuol o gartrefi. Dwi'n tybio bod gennych rai stadau a rhai mathau o dai a fydd yn llawer mwy anodd nag eraill i'w gwella i safon EPC C, heb sôn am EPC A yn y tymor hwy.**

Dwi wedi bod yn meddwl cryn dipyn ynglŷn â hyn oherwydd o wario yn y tymor byr i gyrraedd EPC C, ond gyda'r nod o gyrraedd EPC A yn y tymor hwy, oni fyddai'n well edrych ar A yn syth, yn enwedig yn achos rhai o'r stadau hynny lle y byddai'n anodd iawn cyrraedd C? Rydyn ni newydd edrych ar ein llety gwarchod, ac ar un adeilad penodol nad oedd modd ei wella i safon SATC, felly rydyn ni'n mynd i'w fwrw i lawr ac adeiladu un newydd sbon. Dim ond y llety gwarchod yw hyn, ond gallai ddigwydd yn y pen draw gyda'n tai – efallai na fydd modd cyrraedd EPC A, efallai bydd rhaid i ni fwrw'r tŷ i lawr i godi un newydd. Ond gyda'r pwysau ar dai, dydw i ddim eisiau bod yn bwrw tai i lawr.

**Dyna ddigwyddodd gyda rhai rhaglenni gwella blaenorol, sef bod y stoc waethaf yn cael ei bwrw i lawr. Ond fel y dywedwch, mae hynny ond yn gwaethygu'r broblem angen tai.**

Mae gennym 360 mewn llety dros-dro, mae gennym 24 o deuluoedd mewn llety dros-dro. Mae'n gydbwysedd anodd, on'd ydy, i geisio adeiladu tai newydd a gwella ein stoc bresennol i gyrraedd graddau EPC C ac A i gyd ar yr un pryd. A dydy'r pwysau ddim yn mynd i ddiflannu, mae'n mynd i waethygu. Mae'n her enfawr.

**O ran y cyllid, o'r hyn y dywedwch, fydd y cyllid gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd ddim yn ddigon, o bell ffordd, i sicrhau EPC C erbyn 2029. A dwi'n tybio bod yna heriau ariannol ar ben hynny hefyd. Beth yw'ch barn chi am faint yn ychwanegol sydd ei angen arnoch a beth allai Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu?**

Dwi wedi gweld rhai ffigurau'n bownsio o gwmpas am yr hyn y gallai ei gostio i gael eiddo i radd EPC A – o £60,000 i £80,000, ond mae'n newid beunydd, wrth reswm, gyda chostau'n cynyddu, costau caffael, deunyddiau adeiladu. Mae gennym ni 10,600 o unedau eiddo. All y CRT ddim ymdopi â hynny. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, dwi wedi cymeradwyo benthyca ychwanegol, dwi'n credu ein bod ni ar £100 miliwn, ond mae llawer o hynny wedi'i glustnodi i roi hwb i'n rhaglen adeiladu tai newydd a chynnal ein stoc i safon SATC. Felly allai'r CRT ddim fforddio hyn, ac ni fyddai'n hachos busnes yn gwneud synnwyr.

**Sy'n dod â mi at y cynlluniau rydych newydd eu cyhoeddi ar gyfer 1,000 o gartrefi fforddiadwy dros y 10 mlynedd nesaf. A gyhoeddwyd y rhaglen yng ngoleuni'r wybodaeth bod yn rhaid i chi hefyd gyrraedd y SATC newydd ar eich stoc bresennol? Yn amlwg, fe hoffech wneud mwy, ond allwch chi ddim am nad oes arian yno?**

Yn union. Gofynnwyd i mi 'pam nad ydych chi'n adeiladu mwy na 1,000 o gartrefi?' ond dwi'n bod, nid yn ofalus, ond yn gyfrifol gyda'r CRT. Rhaid i ni fod yn gyfrifol gyda'n tenantiaid presennol hefyd, a gwneud yn siŵr nad ydyn ni'n addo a methu cyflawni. Pe baem yn sôn am adeiladu 2,000, 3,000, gyda SATC 2023 mae'n bosib na allem wneud hynny i gyd. Felly rhaid gan bwyll i weld beth y gallwn ei wneud. Gallai pethau newid,

gallai'r economi o bosib edrych yn well yn y blynyddoedd nesaf a ninnau'n bwrw ati i godi mwy o gartrefi. Ond ar hyn o bryd, pwyll piau hi.

**Yn amlwg, yn yr anadl nesaf, gallwch sôn am 6,000 o deuluoedd ar eich Cofrestr Tai a dwi'n credu bod y nifer mewn llety dros-dro wedi cynyddu hyd yn oed ers i chi wneud y cyhoeddiad hwnnw. Felly mae 1,000 yn dal yn fach o'i gymharu â'r angen.**

Cywir. Ydy. Ond dwi hefyd yn gobeithio pan fydd datblygwyr preifat yn dechrau adeiladu hefyd, gyda thai fforddiadwy ar bob safle, a gyda chymdeithasau tai hefyd yn adeiladu, y bydd yna fwy o gartrefi fforddiadwy. Ond i mi, nid mater o adeiladu tai yn unig yw hyn ond ailddechrau defnyddio eiddo gwag hefyd. Llwyddais i gael gafael ar arian i greu tîm eiddo gwag yn unswydd i adfer unedau eiddo gwag yn ardal Caerffili i gyflwr lle gellir eu defnyddio. Y llynedd, fe adferwyd 100, y gorau rydyn ni wedi'i wneud erioed. Po fwyaf o dai a gawn i nôl i mewn i'r farchnad, gorau oll fydd hi o ran dod â rhenti i lawr a helpu gyda'r broblem digartrefedd a thynnu'r pwysau oddi ar y gofrestr tai hefyd.

**Ai cyfyngiadau ariannol yn unig sydd ar yr hyn y gallwch ei wneud ar gartrefi newydd? Ac a oes rhywbeth mwy y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu?**

Mi faswn i'n dweud ariannol. Ond wedyn, y cynllunio ac anhawster dod o hyd i dir priodol. Chawson ni ddim ein bendithio â phortffolio mawr o dir cyngor fel awdurdodau eraill, ac mae angen adfer y tir sydd ar ôl gennym, sy'n costio llawer o arian ac yn lleihau hyfywedd y safleoedd. Dwi'n gredwr mawr mewn safleoedd deiliadaeth gymysg ond mae hynny'n mynd yn anodd iawn, a nid dim ond i'r cyngor. Byddwn wrth fy modd pe gallem fynd allan i gystadlu a phrynu tir. Ond rydym ymhell oddi wrthi ar hyn o bryd.

Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr ein bod yn gwneud yr hyn allwn ni gyda'r adnoddau sydd gennym. Agorais ein cartrefi newydd yn Nhretomos yn swyddogol gyda'r arweinydd ar ddiwrnod poetha'r flwyddyn y llynedd. Roeddem ni mewn un tŷ ac roedd hi'n hollol anhygoel. Fyddech chi byth wedi gwybod pa mor gynnes oedd hi y tu allan. Ac fe gymerodd hynny fy ngwynt i ffwrdd. Mi fyddwn ni'n anghofio weithiau nad dim ond gwresogi'r eiddo sy'n bwysig ond hefyd ei gadw'n oer. Fe welwch chi hynny fwyfwy nawr gydag argyfwng yr hinsawdd a'i hafau poethach, tonnau o wres, sy'n rhoi pwysau ar y GIG pan fo pobl yn cael trawiadau neu'n mynd yn sâl. Ond mae'r eiddo newydd yma yn 'cŵl' iawn.

**Pwynt sydd hefyd yn berthnasol i'ch cartrefi presennol. Dwi am ddod nôl at SATC am ennyd. Ar wahân i ddatgarboneiddio a gwresogi fforddiadwy, a oes meysydd eraill a) sy'n flaenoriaeth yn eich barn chi neu b) sy'n destun pryder o ran gallu eu bodloni? Pethau fel lloriau ar gyfer tenantiaid newydd, er enghraifft.**

A dweud y gwir, rydym eisoes wedi dechrau edrych ar ddarparu lloriau ac addurno ein heiddo cyngor. Ond ochr arall y geiniog gyda hyn yw ei bod yn cymryd mwy o amser i baratoi eiddo gwag ar gyfer tenant. Rydyn ni'n gweld ein niferoedd o wagleoedd yn cynyddu ac mae'n cymryd yn hwy i gael y gwagle'n barod i'w ddefnyddio eto oherwydd ein bod am sicrhau bod y tŷ o safon dda iawn, iawn gyda lloriau ac addurno. Ond byddai'n well gen i weld hynny pan fyddwn yn trosglwyddo'r eiddo i denant, bod y tŷ o safon wych.

**Yn amlwg, dyna un o'r cyfaddawdau. Yn ôl at y cydbwysedd rhwng faint o allu ariannol sydd gennych i gyrraedd SATC a gwella'r stoc bresennol a faint sydd gennych i adeiladu cartrefi newydd: bydd rhywfaint o gyfaddawdu bob amser am wn i, waeth beth fo'r amgylchiadau, ond a ydych chi'n meddwl y sylweddolir yn ddigonol beth yw'r effaith bosibl y frwydr rhwng gwahanol feysydd lle mae angen gwario a buddsoddi ar y stoc bresennol, yn erbyn cartrefi newydd?**

Cwestiwn da. Allwn ni ond darparu'r wybodaeth sydd gennym ar hyn o bryd i Lywodraeth Cymru, ond dwi'n credu eu bod nhw'n deall beth rydyn ni'n ei wneud ac nad yw hi'n hawdd. Ond rhaid i ni ufuddhau i'w cyfarwyddyd nhw. Mae'n rhaid gwella'n stoc i safon dda. Mae'n rhaid gwneud ein stoc yn ynni-effeithlon oherwydd dydy pris ynni ddim yn mynd i ostwng ac mae'n rhaid i ni wneud ein gorau dros ein tenantiaid. Dydy hi ddim yn hawdd, ond mae'n rhaid ei wneud. Ond dwi yn credu efallai y bydd angen llacio fymryn ar yr amserlen i helpu gyda'n holl broblemau eraill, a'r angen am adeiladu tai.

**Shayne Cook yw aelod cabinet tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a chynghorydd Llafur ward Morgan Jones**




*Ymweld â thenantiaid mewn cynllun tai gwarchod a ailwampiwyd yn ddiweddar*



# Codi'r bar

Ar ôl ymgynghoriad maith, mae'r Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) newydd yma o'r diwedd ac dyna destun y rhan fwyaf o'r adran nodwedd WHQ arbennig hon. Clywn yn gyntaf gan y gweinidog newid hinsawdd Julie James am amcanion allweddol SATC 2023 ac yna gan landlordiaid cymdeithasol ledled Cymru am yr hyn y maent yn ei wneud i baratoi ar ei gyfer a'r gwersi a ddysgwyd ganddynt o'r SATC gwreiddiol ac o'u gwaith datgarboneiddio hyd yn hyn. Edrychwn hefyd ar ochr arall y geiniog: effeithiau anfwriadol safonau weithiau ar ddyluniad tai.






# CYFLWYNO'R SATC NEWYDD

Y gweinidog newid hinsawdd Julie James yn amlinellu'r cynllun i godi safonau tai cymdeithasol yng Nghymru

**Ar droad y ganrif, cyflwynwyd Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru, ynghyd â landlordiaid cymdeithasol, ein partneriaid cyflawni, wedi buddsoddi biliynau o bunnau ar wella a chynnal ansawdd cartrefi cymdeithasol ledled Cymru yn sylweddol.**

Ni wyrodd ein hymrwymiad i wella ansawdd y stoc tai cymdeithasol ac rwy'n ymfalchïo yn y ffaith bod holl dai cymdeithasol Cymru bellach yn cyrraedd y safon a bod landlordiaid cymdeithasol yn parhau i gynnal y safon honno heddiw.

Mae SATC, sy'n rychwantu chwe gweinyddiaeth, yn dangos sut y gall llywodraethau edrych ymhell i'r dyfodol: buddsoddi mewn polisïau a rhaglenni hirdymor, gyda modelau cyllido hirdymor, gan alluogi landlordiaid cymdeithasol i fuddsoddi'n hyderus yn y tymor hir mewn asedau a chymunedau.

Canlyniad hynny fu gyrru safon tai cymdeithasol yng Nghymru i fyny.

Daeth y pandemig â newid cyflym ac annisgwyl, gan newid yn sylfaenol sut mae pobl yn byw, a'r hyn y maent yn ei deimlo am gartref ac yn ei ddisgwyl ganddo.

Daeth cwestiynau o gyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb fel mynediad i fand eang, diogelwch adeiladau a gallu byw'n ddiogel a sefydlog mewn cartrefi i'r amlwg; mae ddigon posib bod ein gwerthfawrogiad o'n cartrefi yn uwch nag y bu ers amser maith iawn.

## ARGYFWNG HINSAWDD

Yn ystod y cyfnod hwn, mae Cymru hefyd wedi arwain y ffordd gan ddatgan argyfwng hinsawdd, a chyda hynny ffocws o'r newydd ar ddatgarboneiddio tai – uwchraddio tai cymdeithasol yn effeithiol ac yn effeithlon i ostwng allyriadau carbon, a biliau ynni i denantiaid.

Mae'r her ôl-ffitio'r stoc tai presennol yn enfawr. Mae gan bob tŷ hanes gwahanol; felly, ein cenhadaeth yw lleihau allyriadau carbon, gartref fesul cartref, a stryd fesul stryd.

Bydd yr hyn a ddysgwn wrth uwchraddio'r 230,000 o gartrefi cymdeithasol hefyd yn llywio'r ffordd yr awn ati fel cenedl i wneud yr 1.2 miliwn o gartrefi mewn perchenogaeth breifat yn ddi-garbon.

Yn 2021, lansiais safon fwriadol feiddgar ar gyfer cartrefi rhent cymdeithasol newydd, sy'n llwyr ddileu'r defnydd o danwydd ffosil i gynhyrchu gwres a dŵr poeth.

Mae'n dilyn dull 'Ffabrig yn Gyntaf' o fynd ati, gan bennu safon leiafswm ar gyfer perfformiad thermol, ynghyd ag asesiad o berygl gordwymo – a fydd, wrth i'r blaned gynhesu, a'r tywydd yn mynd yn fwy eithafol, yn hanfodol.

Mae'n bwysig sicrhau bod ein cartrefi cymdeithasol cyfredol, lle bo modd,â'r un ansawdd, effaith amgylcheddol a chynhesrwydd fforddiadwy â thai newydd.

Mae ein safon newydd ar gyfer tai cymdeithasol cyfredol yn gofyn am Dystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) A – Gweithdrefn Ynni Safonol (SAP) 92 neu fwy yn y dyfodol. I wireddu'r uchelgais

hon, rhaid mynd ati fesul cam.

Cam cyntaf y daith yn y safon newydd yw i landlordiaid cymdeithasol gynnal Asesiadau Stoc Cyfan i gael dealltwriaeth o lefel y gwaith ag angen ei gwblhau.

Y cam nesaf fydd cynhyrchu cynllun i bob cartref gyrraedd EPC A, a elwir yn Llwybr Ynni wedi'i Dargedu. Mae hyn yn unol â'r Rhaglen Ôl-ffitio Wedi'i Optimeiddio.

Mae hon yn safon hirdymor ac y mae ond yn iawn pennu pwyntiau gwirio ar hyd y ffordd. Mae'n ofynnol o dan y safon newydd i bob landlord cymdeithasol gyrraedd EPC C – SAP 75 erbyn 2029.

O dan y safon newydd hon, bydd EPC C – SAP 75 yn sicrhau y caiff pob tenant cymdeithasol gynhesrwydd fforddiadwy, nid dim ond deiliaid cartref cymdeithasol newydd-ei-adeiladu.

## ELFEN LLORIAU

Mae'n bleser gennyf hefyd gynnwys elfen lloriau newydd yn y safon, a fydd yn gwella profiad y tenant wrth newid tenantiaeth.

O dan y safon newydd, pan fydd tenantiaeth yn newid, dylai pob stafell gyfanheddol, grisiau a landin yn y cartref fod â gorchuddion llawr addas.

Mantais ychwanegol hyn yw lleihau gwastraff diangen cael gwared o loriau cwbl addas pan ddaw tenantiaeth i ben, sef yr arfer cyfredol fel rheol.

Gyda phroblem lleithder a llwydni, mae'r safon yn darparu eglurder ychwanegol ar sail ar yr hyn a ddysgwyd o achos trasig Awaab Ishak yn Rochdale.

Mae'r safon yn ei gwneud hi'n glir i landlordiaid cymdeithasol ei bod hi'n ofynnol i gartrefi fod yn rhydd o leithder, yn cynnwys anwedd cyson.

Mae 13 o elfennau o fewn y safon newydd hon sydd naill ai'n newydd neu'n ddiwygiedig a bydd angen i landlordiaid ddechrau'r broses o gydymffurfio â'r elfennau hyn o 1 Ebrill 2024.



*'Un peth allweddol fydd dod o hyd i atebion cyllido hirdymor addas mewn partneriaeth â landlordiaid cymdeithasol.'*

## AGWEDD BRAGMATIG

Mae gennym agwedd bragmatig gyda'r newidiadau hyn, gyda nifer o elfennau yn cael eu gwireddu wrth newid tenantiaeth.

Bydd hyn yn sicrhau proses o gyflwyno elfennau fesul cam dros gyfnod maith, i helpu landlordiaid cymdeithasol gyda chost y rhaglen.

Datblygwyd y safon newydd hon mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid ac ar draws adrannau.

Mae'n cynnwys elfennau sy'n gyson â'n hegwyddor o economi gylchol, teithio llesol, bio-amrywiaeth a defnydd effeithlon o ddŵr i gyfrannu at y targedau newid hinsawdd yn ein cynlluniau Sero Net Cymru.

Dwi'n hyderus mai dyma'r safon iawn a'r amser iawn i gyflwyno'r safon hon, ond ni fydd heb ei heriau.

Dwi hefyd yn cydnabod y bydd yr uchelgeisiau yn y safon newydd yn mynnu swm sylweddol o arian i'w gyflawni.

Bydd yr hinsawdd ariannol bresennol yn gwneud cyrraedd y targedau yn y safon yn ymrwymiad hirdymor.

Fel llywodraeth byddwn yn parhau i gydweithio â'r sector, yn yr un ffordd ag yr aethom ati i ddatblygu'r safon. Un peth allweddol fydd dod o hyd i atebion cyllido hirdymor addas mewn partneriaeth â landlordiaid cymdeithasol.

Byddai'n hawdd cael eich llethu gan gymaint o her yw uwchraddio tai cymdeithasol.

Rydym wedi gwneud hyn o'r blaen, a gyda'n gilydd gallwn wneud hynny eto.

Mae angen i ni fod yn bragmatig ac ymateb i'r her – mae tenantiaid Cymru yn dibynnu arnom.

**Julie James yw'r gweinidog dros newid hinsawdd**



*'Ein cenhadaeth yw lleihau allyriadau carbon gartref fesul cartref, a stryd fesul stryd.'*




*'Cam cyntaf y daith yn y safon newydd yw i landlordiaid cymdeithasol gynnal Asesiadau Stoc Cyfan.'*



# LLWYBRAU A HERIAU

Bydd data'n allweddol gyda'r SATC newydd. Fiona Westwood sy'n ystyried yr heriau

**Gyda chyhoeddi SATC 2023, caiff y sector ei hun yn tybio pa effaith a gaiff hyn ar gasglu data, rheolaeth, a beth a ddisgwylir o ran adrodd.**

Mae un peth yn glir; cyn gynted ag yr â'n fyw, rhaid i ni allu dechrau casglu data. Mae'r rhan fwyaf o'r drafodaeth wedi canolbwyntio ar ran 3 o'r safon, ac ychydig sydd wedi bwydo yn ôl am unrhyw newidiadau arfaethedig i weddill y safon.

Bydd gan y sector dair blynedd i gasglu data ar ei stoc, i gydosod asesiad stoc cyflawn ac i ddarparu gwybodaeth ar lwybrau ynni targed rhan 3. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y gellir defnyddio meddalwedd Intelligent Energy Sava i gynhyrchu'r data ar gyfer y llwybrau ynni targed. Ond nid pob system reoli asedau sy'n defnyddio hwn, sy'n golygu na fydd hi o bosib mor hawdd i bawb gydosod y data.

## YR HERIAU'N CYCHWYN

Man cychwyn yr heriau fydd bodloni gofynion yr asesiad stoc cyflawn, er y dylid canmol y ffaith bod LlC yn disgwyl i'r sector gynnal adolygiad. Bydd yr adolygiad yn cynnwys cyflwr y stoc, data am effeithlonrwydd ynni, meddalwedd a sgiliau dadansoddi data. Diben hyn fydd darparu dealltwriaeth ddigonol o'u stoc tai presennol. A yw Llywodraeth Cymru wedi cymryd i ystyriaeth yr adnoddau angenrheidiol a chostau cyflawni'r dasg hon o fewn y tair blynedd, ochr yn ochr â'r llwybr ynni targed? A oes digon o adnoddau i weithredu a datblygu cynllun gwella ansawdd?

Ac eithrio rhan 3 o'r safon, ystyrir mai parhad o'r fersiwn presennol yw llawer o SATC 2023. Bydd terminoleg newydd yn diffinio'r hyn a elwir yn 'fethiannau derbyniol' a'r elfennau hynny sy'n dod o dan bob categori. Bydd gan Ran 3 hefyd ei therminoleg a'i rhestr o 'fethiannau derbyniol' ei hun. Ochr yn ochr â hyn, bydd naw elfen lle bydd angen defnyddio dull sgorio'r System Raddio Iechyd a Diogelwch Tai (HHSRS). Bydd hyn yn dileu'r dull ymarferol o fynd ati a ddefnyddir gan lawer yn y sector ar hyn o bryd i adrodd ar y meysydd data hyn.

Bydd adroddiadau ar gyfer SATC 2023 mewn fformat newydd. Roedd canllawiau gydag esboniadau manwl i fod i gael eu rhyddhau ar yr un pryd ag y cyhoeddwyd y lansiad safonol. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl data llinell fesul llinell ar bob ased, gan gynnwys data rheolaeth tai am bob aelwyd. Disgwylir i bob cwestiwn o fewn y safon, ar elfennau cynradd ac eilradd, fod ag ateb iddo, ynghyd â manylion y graddfeydd HHSRS ar gyfer naw o'r elfennau, strwythur yr asedau, nifer y llofftydd, ac ati. Bydd y gofynion ychwanegol yn syndod i lawer gan na chawsant eu codi mewn trafodaethau ar y safon newydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gofyn am ddata crai gan y sector. Efallai y gwna hyn hi'n haws casglu'r data, ond gallai hyd a lled yr hyn sy'n ofynnol, o wahanol systemau, fod yn broblem ac yn faich trwm ar adnoddau. Bydd y swm anferth o ddata a fynnir yn galluogi dadansoddwyr data i gynhyrchu canlyniadau ar gyfer pawb yn y sector. Bydd hyn yn sicrhau bod pawb yn adrodd i'r un safon yn gyson, gan sicrhau bod y data'n gyflawn, a dileu amwysedd ac amrywiaeth yn y modd yr adroddir.



## GWELLA ANSAWDD Y DATA

Bydd llawer o gyfleoedd i wella ansawdd, cywirdeb, perthnasedd a chyflawnder y data. Fodd bynnag, bydd llawer o heriau gyda rheoli data hefyd. Bydd yn rhaid i ddarparwyr meddalwedd wneud newidiadau mawr i systemau rheoli data, ac efallai y bydd yn rhaid i'r sector droi at ddefnyddio taenlenni yn y cyfamser. Mae'n bosib na fydd gan lawer yn y sector y wybodaeth sydd ei hangen. Gallai hyn arwain at ofyniad am ail arolwg stoc dros y cyfnod tair-blynedd i gyd-fynd â'r cynllun asesu'r holl eiddo. Y bwriad yw i hyn arwain at ddatblygu a gweithredu cynllun gwella ansawdd data.

Mae trafodaethau ynghylch cyflwyniad cyntaf y safon newydd yn dal i fynd rhagddynt. Gall fod y bydd gofyn i ni, ar 31 Mawrth 2024, gynhyrchu'r data sydd ar gael ar y pryd, neu ar 31 Mawrth 2025 efallai y bydd cais am gyflwyniad llawn. Gŵyr Llywodraeth Cymru beth fydd effaith y newidiadau hyn ac mae wedi cytuno i weithio gyda'r sector. O achos maint y dasg, mae'n argymell penodi rhywun â sgiliau dadansoddi cryf ynghyd â phrofiad o reoli asedau, a gwybodaeth am dai.

A oes gan y sector y gallu neu'r adnoddau digonol i ateb y gofynion hyn? Dim ond amser a ddengys.

**Fiona Westwood yw prif ddadansoddydd asedau Cartrefi Melin**



# DATGARBONEIDDIO YN YMARFEROL

Debbie Green yn ystyried y gwersi mae Tai Coastal yn eu dysgu wrth weithio ar systemau gwresogi ac inswleiddio



**Y llynedd sgrifennais am yr heriau a'r cyfleoedd a gyflwynir gan y Safon Ansawdd Tai Cymru newydd. Mae'r erthygl hon yn rhoi enghreifftiau o'r gwaith ymarferol rydym yn ei wneud i ddatgarboneiddio ein stoc.**

## PYMPIAU GWRES HYBRID

Yn Dartford Drive, Bonymaen, cam cyntaf y gwaith uwchraddio i osod systemau pwmp gwres hybrid E-TEC Alpha Boilers oedd ymgysylltu â'r trigolion. Daeth cynhyrchwyr i gyfarfod galw-heibio i egluro'r math o systemau a fyddai'n cael eu mewnosod a sut y maen nhw'n gweithio. Er gwneud ein gorau glas, doedd ymgysylltu ddim mor hawdd â hynny, a thri phreswylydd a ddaeth i'n digwyddiad. Fodd bynnag, roedd y rheini yn bositif iawn am yr hyn roedd Coastal yn ceisio'i gyflawni. A hefyd, am fod gennym ein tîm ein hunain o beirianwyr gwresogi a thrydanwyr, gallasom fewnosod y systemau ein hunain. Golyga hyn y bydd ein timau ar gael i gefnogi preswylwyr gyda'u defnydd yn barhaol.

Y systemau hybrid newydd a osodwyd oedd pympiau gwres, bwyleri nwy, a rheolyddion wedi'u rhaglennu â thariff nwy a thrydan y preswylwyr. Mae'r system hon yn dod o hyd i'r ffordd rataf o wresogi eiddo yn otomatig, boed gan bwmp gwres, bwyler, neu gyfuniad o'r ddau, ond mae'n dal i hwyluso gostyngiad mewn allbwn carbon o hyd at 60 y cant o'i gymharu â bwyleri nwy traddodiadol. Bydd y bwyler yn cychwyn ar dymheredd is ac uwchlaw 4-5 gradd canradd mae'r pwmp gwres yn cymryd drosodd. Mae defnyddio system hybrid fel hon yn arbed costau mewnosod sylweddol gan nad oes angen silindrau dŵr poeth a rheiddiaduron newydd. Mae hefyd yn gwneud y trawsnewid yn haws i drigolion o'i gymharu â symud drosodd i bympiau gwres yn unig mewn un cam.

Gosodwyd y systemau hyn i mewn dros yr haf, felly mae'n rhy fuan i gaffael llawer o ddata ar eu defnydd. Fodd bynnag, cyfunwyd y dechnoleg pwmp gwres â phaneli ffotofoltäig a batris newydd, a ddylai arwain at ostyngiadau pellach mewn costau ynni i breswylwyr, yn ychwanegol at arbedion trwy'r system hybrid ei hun. Talwyd am y gwaith yn rhannol gan rhaglen Ôl-ffitio Optimeiddiedig Llywodraeth Cymru (ORP).

Cyn gynted ag yr oedd y gwaith mewnosod ar y gweill, dechreuodd preswylwyr eraill gysylltu â'n tîm mewnosod i ofyn a ellid gwneud eu system nhw nesaf. Ac ar y cyfryngau cymdeithasol, ysgogodd negeseuon Coastal am y gwaith mewnosod gyswllt sylweddol gan denantiaid Coastal, yn ogystal â landlordiaid cymdeithasol eraill, i holi a, neu pryd, fyddai'r dechnoleg a ddangoswyd yn cael ei gosod yn eu heiddo nhw. Mae'n galonogol iawn gweld y fath ymateb positif, ond mae angen i ni reoli disgwyliadau hefyd. Mae'r ffordd orau bosib o ddatgarboneiddio yn seiliedig ar nodweddion unigol pob cartref, ac rydym yn dal i arbrofi i ddarganfod pa ateb sy'n gweithio orau ymhle.

## MAE INSWLEIDDIO'N GWEITHIO


Mae datgarboneiddio golygu gwella ffabrig adeilad hefyd, gyda 'ffabrig yn gyntaf' yn fantra gyson. Cafodd llawer o'n heiddo hawdd ei uwchraddio ei inswleiddio eisoes o dan gynlluniau gwella blaenorol. Yr hyn sy'n weddill yw tai unigol mwy anodd eu gwella. Mae'r i'r rhain eu heriau ymarferol, megis gorfod tresmasu ar eiddo cymdogion, ffenestri'n glòs at estyniadau a strwythurau cyfagos, neu bresenoldeb dihangfeydd tân a all atal neu oedi pethau. Mae hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol ymgysylltu â phreswylwyr cyn gynted â phosib i sicrhau y datgelir unrhyw broblemau a'u datrys , a chytuno ar gwmpas y gwaith gyda thrigolion a chymdogion yr effeithir arnynt cyn cychwyn.

Rydym wedi dysgu mai ymgymryd â gweithiau adnewyddu a gwella gyda'i gilydd yw'r ffordd orau o fynd ati. Dewiswyd tai oedd ag angen ffenestri a thoeau newydd fel rhan o'n rhaglen waith gylchol, fel y gallem glymu'r holl waith gyda'i gilydd. Roedd hyn yn golygu y gallem leihau'r perygl o bontiau thermol lle collir gwres o gwmpas ffenestri a drysau. Mae'n ddyddiau cynnar o ran casglu data ond mae adborth anffurfiol gan breswylwyr yn dweud nid yn unig bod eu cartrefi'n teimlo'n gynhesach, ond eu bod hefyd yn dawelach ers cwblhau'r gwaith. Helpodd arian ORP yma hefyd gan ei fod yn cyfrannu at y gwaith inswleiddio, gyda'r gwaith arall wedi ei gyllido gan Coastal.

## I GRYNHOI

Gwyddom fod datgarboneiddio yn ymarferol yn golygu bod angen ymgysylltu'n fuan â phreswylwyr, dealltwriaeth fanwl o'r eiddo dan sylw, a defnydd hyblyg o unrhyw nifer o dechnolegau ac atebion posibl. Rydym yn dysgu, ond mae ffordd bell o'n blaenau o hyd. Bydd rhannu'r gwersi hyn a'r data rydym yn dechrau ei gasglu ar draws y sector yn hanfodol i sicrhau'r canlyniadau gorau.

**Debbie Green yw prif weithredydd Grŵp Tai Coastal**



# MYND I'R AFAEL Â'R HERIAU SGILIAU

Bydd bod â'r sgiliau angenrheidiol yn allweddol i weithrediad SATC 2023, meddai Tim Balcon

**Bydd Safon Ansawdd Tai Cymru 2023 (SATC 2023) yn gam arall ymlaen tuag at sicrhau bod cartrefi cymdeithasol yn gynnes, yn ddiogel ac yn addas ar gyfer eu preswylwyr. Fel Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) rydym yn cefnogi'r diwydiant adeiladu i fod â gweithlu medrus, cymwys a chynhwysol, yn awr ac yn y dyfodol, ac mae'r safon newydd yn gyfle i ddenu ac uwchsgilio gweithwyr newydd a rhai presennol drwy'r rhaglen wella y bydd yn rhaid i landlordiaid cymdeithasol ei chwblhau.**

Bydd y gweithwyr hynny'n allweddol fel sail i'r gwaith o gyrraedd y safon newydd a fu'n ganolog i sbarduno gwaith, gweithgarwch economaidd a ffyniant ar draws cymunedau Cymru yn y gorffennol.

## HERIAU'R SYSTEM SGILIAU

Mae'n bwysig deall rhai o heriau'r system sgiliau yng nghyd-destun cyflawni'r safon newydd ac, yn wir, agenda economaidd ehangach Llywodraeth Cymru. Mae ein gwaith modelu'n awgrymu y bydd angen 12,000 o weithwyr (cyfwerth ag) amser-llawn ychwanegol yng Nghymru erbyn 2028[1], yn bennaf i wneud gwelliannau i adeiladau presennol er mwyn lleihau'r galw am ynni. Mae hynny'n gynnydd o ryw 11 y cant ar faint cyfredol gweithlu Cymru, sy'n weithlu tra chyfnewidiol eisoes, wedi'i wasgaru ar draws gweithgarwch mewn amrywiaeth o sectorau yng Nghymru.

Er y bydd arbenigedd a dealltwriaeth technegol yn parhau i fod yn bwysig, ni ddylid diystyru gwerth a swyddogaeth sgiliau meddalach yn ymwneud ag arweinyddiaeth a gwaith tîm. Rhaid i grefftwyr ddatblygu eu sgiliau yn y meysydd hyn er mwyn gallu gweithio ochr yn ochr yn fwy cydweithredol[2].

Canfu arolwg CITB o'r diwydiant fel rhan o'n hadroddiad, ***Building Skills for Net Zero***, fod tri chwarter yr ymatebwyr o bob rhan o'r DU yn dweud bod datgarboneiddio naill ai'n bwysig neu'n bwysig iawn iddyn nhw neu eu cwmni. At hynny, dywedodd 70 y cant fod ganddynt ddealltwriaeth dda neu dda iawn o sut y bydd gofyn iddynt newid eu busnes er mwyn ei ddatgarboneiddio, gyda chyfran uchel, 88 y cant, yn dweud y byddent yn fodlon arallgyfeirio, a byddai 90 y cant yn ailhyfforddi pe bai angen.

## CYFLAWNI'R UCHELGAIS

Er bod hyn yn dangos parodrwydd gan ddiwydiant i gyflawni uchelgais SATC 2023, mae'r angen am ddechrau'r broses addasu honno yn awr yn glir. Mae mwy na thri chwarter (78 y cant) yn credu y bydd prinder sgiliau yn eu galwedigaeth benodol pan ddaw'n fater o waith datgarboneiddio.

Gyda hyn mewn golwg, mae'n debygol y caiff landlordiaid cymdeithasol anhawster cael gafael ar y gweithwyr medrus y bydd eu hangen i wasanaethu eu rhaglenni gwella, a chofio natur eang y gwaith a wneir gan y diwydiant adeiladu yng Nghymru. Oherwydd y galw ar ddiwydiant, dylai landlordiaid cymdeithasol ystyried gwneud llwybrau/cyllid ar gyfer gwaith mor glir â phosib ochr yn ochr â disgwyliadau am ganlyniadau o werth cymdeithasol fel y teimla cwmnïau adeiladu y gallant dderbyn y gwaith a bod â digon o amser i recriwtio gweithwyr newydd ac uwchsgilio'u gweithlu presennol.

I gefnogi cyflogwyr adeiladu i ateb gofynion SATC 2023, a'r sbectrwm ehangach hwnnw o waith, mae'r cymorth mae CITB yn ei gynnig yn eang ac amrywiol. Mae rhai o'n pecynnau cymorth newydd ochr yn ochr â'r pethau rydym wedi'u gwneud yn draddodiadol (fel cyllido prentisiaethau a hyfforddi ad-hoc) i helpu cyflogwyr i fodloni gofynion rhaglenni fel SATC23, yn cynnwys:

- Creu ein Tîm Cefnogi Cyflogwyr Newydd sy'n darparu cyngor a chymorth pwrpasol i alluogi cyflogwyr i ddenu, hyfforddi a chadw prentisiaid.
- Lansio ein Cronfa Effaith ar y Diwydiant sy'n cefnogi syniadau darlun-mawr sy'n hwyluso rhannu gwybodaeth ac adnoddau ar draws y diwydiant ac sy'n gynaliadwy wedi i'r cyfnod ariannu ddod i ben.
- Ymbweru cyflogwyr trwy Rwydweithiau Cyflogwyr fel y gall cyflogwyr benderfynu ar y ffordd orau o wario cyllid sgiliau yn lleol.

Yn ehangach, mae'r dirwedd addysg wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf gyda sefydlu TGAU a Safon Uwch mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig ac adnoddau a chynlluniau gwersi a ddatblygwyd gan y CITB a chyflogwyr i gefnogi athrawon i gyflwyno disgyblion i fyd cyffrous adeiladu. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r diwydiant ar adegau allweddol o'r flwyddyn i gynyddu ymwybyddiaeth o'r gyrfaoedd a gynigir gan y diwydiant trwy gyfrwng Wythnos Brentisiaethau Genedlaethol, Gweld Eich Gwefan, Drysau Agored a Menywod i mewn i Adeiladu.

Bydd mynd â'r maen i'r wal gyda SATC 2023 yn gofyn am ffordd gydweithredol o fynd ati ar ran Llywodraeth Cymru, darparwyr tai cymdeithasol, sefydliadau addysg bellach ac uwch, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a'r amryw gwmnïau adeiladu sy'n cael eu contractio, ac sy'n is-gontractio o fewn eu cadwyni cyflenwi. Er bod gwelliannau i fywydau a llesiant pobl ar gael i'w hennill drwy gyrraedd y safon newydd, gall ei gweithredu dros y blynyddoedd nesaf fod yn gam mawr ymlaen trwy gynyddu'r llif o weithwyr newydd, cymhwysedd a safon y gwaith a gyflawnir gan y gweithlu presennol, ac amrywiaeth y gweithwyr a ddenir i weithio yn y maes adeiladu.

**Tim Balcon yw prif weithredydd Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB)**

*1. The Skills Construction Needs – CITB | 2. Building Skills for Net Zero – CITB*



# MAE'N BRYD DYSGU GWERSI ÔL-FFITIO

Duncan Forbes yn bwrw golwg ar y SATC newydd ac yn ystyried y profiad ôl-osod hyd yn hyn




*Cyn ac ar ôl ôl-ffitio tai ym Mhentre'r Eglwys: 'Dwi'n arbed £60 y mis ar filiau ynni,' meddai un tenant*

**Roedd fy erthygl yn WHQ fis Ebrill 2022 yn crynhoi'r hyn roeddwn i wedi'i ddysgu wrth sgyrsio gyda landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru a Lloegr am eu cynlluniau peilot ôl-osod cymharol fach, ac yn fy swydd yn arwain sefydliad i gwblhau'r rhaglen waith enfawr oedd ei hangen i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru rhwng 2008 a 2013.**

Yn y 18 mis diwethaf, mae'r sector wedi symud ymlaen a minnau bellach wrth y llyw fel prif weithredydd Trivallis. Felly mae gen i rywfaint o brofiad personol o gwblhau gwaith (yn ogystal â dyletswydd i 'wneud nid dweud!')

Yn yr erthygl hon dwi'n cynnig sylwadau ar y polisi sy'n datblygu yng Nghymru ac yna'n rhannu peth o'n profiad yn Trivallis.

## DATBLYGU POLISI I GYMRU: SATC NEWYDD

Roedd y ddogfen bolisi hirddisgwyliedig hon ar fin ei chyhoeddi wrth i'r erthygl hon fynd i'r wasg. Ym mis Gorffennaf, cafodd landlordiaid cymdeithasol lythyr gan Lywodraeth Cymru yn dweud wrthym beth oedd esgyrn noeth yr hyn a ddisgwylir gennym ni fel sector.

Yn gryno, y gofynion yw:

- Pob landlord i fod â 'Cynllun Cynhesrwydd Fforddiadwy a Datgarboneiddio' o fewn tair blynedd i lansio'r safon newydd sy'n nodi pryd y byddwn yn cyrraedd Sgôr Effeithlonrwydd Amgylcheddol o 92 (EPC A) a Graddfa Effaith Amgylcheddol o 92 ar gyfer ein stoc tai.
- Pob eiddo i fod â Llwybr Ynni Targed yn amlinellu'r hyn sydd raid ei wneud i gyrraedd y targedau gofynnol, gan gynnwys amseru'r gwelliannau.
- Landlordiaid i sicrhau bod pob cartref yn cyrraedd EPC C 'seiliedig-ar-ffabrig' erbyn 2029.

## BLE MAE HYNNY'N EIN GADAEL NI?

Bydd yr heriau mwyaf yn bendant yn y manylion. Dwi'n cefnogi'r dyhead yn llwyr, ond mae cyfres o gwestiynau mawr heb eu hateb ac mae 'na rhai gofynion hynod amheus. Mae'n braf meddwl efallai yr atebir y rhain gyda chyhoeddi'r safon lawn ond cawn weld:

- Beth am 'fethiannau derbyniol' lle mae cost cydymffurfio ar gyfer eiddo penodol yn afresymol (a allai fod yn wir am am nifer enfawr o dai) neu lle y gwrthoda tenantiaid y gwaith fel y mae ganddyn nhw hawl i'w wneud o dan eu cytundebau tenantiaeth?
- Beth yw gwir ystyr EPC C 'seiliedi-ar-ffabrig' ac ai dyma'r ffordd iawn o fynd ati?
- A yw hi'n gall neu hyd yn oed yn bosib mapio amserau gwaith ar bob eiddo yn 2026, ar gyfer rhaglen £100 miliwn+ a gymer ddegawdau?
- A fydd unrhyw wrthbwyso carbon yn bosibl fel yr awgrymai'r ymgynghoriad gwreiddiol?

## A FYDD 'METHIANNAU DERBYNIOL' O HYD?

Mae'r Safon Ansawdd Tai Cymru bresennol (2002) yn caniatáu i landlordiaid adael i eiddo ddisgyn yn is na'r safon os yw cost yr unioni yn ei gwneud hi'n afresymol gwneud y gwelliannau. Dyna un o gategorïau'r hyn a elwir yn 'fethiant derbyniol' er y byddai'r term 'pasio amodol' yn well ac yn ymadrodd mwy cywir.

Gall landlordiaid gymhwyso'u diffiniadau eu hunain i fethiant derbyniol ar sail cost, gwendid sylweddol sydd wedi arwain at wahaniaethau rhwng landlordiaid. Heb os, trechir bwriad polisi Llywodraeth Cymru os gall landlordiaid osgoi cydymffurfio â'r safon newydd oherwydd cost uchel gwaith ôl-ffitio.

Ar y llaw arall, amcangyfrifir gan rai y gallai peth eiddo gostio £90,000 i'w ôl-ffitio i safon EPC C, sydd prin yn werth yr arian. Er mwyn osgoi gorfod talu am gyrraedd EPC C, heb sôn am safon EPC uwch, mae sôn bod rhai landlordiaid




*Mae swyddogion cyswllt tenantiaid wedi mwy na thalu am eu hunain yn Trivallis*




*Mae defnyddio contractwyr lleol yn creu swyddi lleol*

yn cael gwared ar eiddo sy'n cael ei ystyried yn rhy gostus i'w wella i'r safonau newydd. Yn wir, gallai'r safon newydd ysgogi'r ymddygiad yma.

Gall gwaredu eiddo wneud i ddata landlord edrych yn dda ond heb wneud dim lles o gwbl i ôl-troed carbon y wlad, dim ond gadael eiddo heb ei wella, trosglwyddo'r broblem i berchennog preifat (a fydd yn gweld ôl-ffitio yr un mor anfforddiadwy) a lleihau'r stoc o dai cymdeithasol ar rent sy'n annigonol eisoes. Bydd yn ddiddorol gweld sut mae'r ddogfen bolisi yn ymdrin â'r broblem hon ac a fydd Llywodraeth Cymru yn ceisio mwy o gysondeb gweithredu rhwng landlordiaid.

## AI 'FFABRIG YN GYNTAF' YW'R DULL IAWN O FYND ATI?

Mae'r ymadrodd 'ffabrig yn gyntaf' yn llifo'n hawdd o'r genau ac ymddengys iddo gydio yn y sector heb lawer o gwestiynu sylfaenol pa ai dyma'r llwybr iawn. Fe'i defnyddir yn gyson gan Lywodraeth Cymru. Dyna pam, gellid tybio, roedd y llythyr at landlordiaid ym mis Gorffennaf yn cyfeirio at gyflawni EPC C 'seiliedig-ar-ffabrig' erbyn 2029.

Gofynnais i'r Athro John Edwards am ei sylwadau ar y dull 'ffabrig yn gyntaf' oherwydd, o'r hyn a wn i am leithder a llwydni, mae gennyf bryderon ynghylch y cynnydd mewn anwedd a llwydni y gallem eu gweld o ffordd ffabrig yn gyntaf o fynd ati ar yr union adeg y cawn ein hannog i ymdrin â'r broblem honno'n fwy effeithiol. Mae gan yr Athro Edwards ddegawdau o brofiad yn y maes ac mae'n darparu sesiynau hyfforddi arbenigol ac anarbenigol rhagorol ar ôl-ffitio i weithwyr tai proffesiynol.

Ei ymateb oedd hyn: *'Rydym mewn mwy o berygl o greu problemau lleithder heddiw nag ar unrhyw adeg arall, gyda chymaint o bwyslais ar yr angen am ôl-ffitio adeiladau. Mae'r mantra "ffabrig yn gyntaf" yn gyffredin ond mewn gwirionedd, i fod mor garbon-effeithlon ag y gallwn fod erbyn 2050, dull seiliedig ar risg sydd ei angen,nid dull ffabrig yn gyntaf, oni olygir sicrhau bod ffabrig yr adeilad mewn cyflwr da cyn gwneud unrhyw beth arall. Nid dweud na ddylem fod yn inswleiddio mo hynny, ond mae angen gwybod beth rydyn ni'n ei wneud. Diddorol nodi bod PAS 2035 yn sôn am ddefnyddio dull seiliedig ar risg gydag adeiladau traddodiadol. Mewn dogfennau BSI eraill, fel PAS 2038 ar gyfer adeiladau annomestig, does dim sôn am ffabrig yn gyntaf.'*

## BYS YN YR AWYR AR AMSERU

Mae'n gwbl chwerthinllyd awgrymu y gallwn lunio cynllun defnyddiol sy'n dangos amseru'r gwaith dros y degawdau nesaf ar gyfer pob eiddo unigol. Bydd cymaint o newidynnau yn codi fel y bydd angen i'n rhaglen amrywio o gynllun heddiw. Rydym mewn perygl o gael ein rhoi mewn sefyllfa i fethu ac i siomi tenantiaid unigol a fydd, yn ddealladwy, yn credu y cawsant addewid o waith ôl-ffitio o fath penodol ar adeg benodol. Mae newidynnau'n cynnwys pa gyllid fydd ar gael i ni, argaeledd contractwyr neu weithwyr â'r sgiliau iawn i gyflawni ein rhaglen, y dechnoleg newydd a gwell a fydd ar gael, a gwaith arall y bydd ei angen ar eiddo penodol, er enghraifft, to newydd.

Bob blwyddyn, rydym yn rhagamcanu ein cyllid ar gyfer y 30 mlynedd nesaf a hynny ar sail rhagdybiaethau am hinsawdd ariannol y 30 mlynedd nesaf. Bob blwyddyn, mae'r rhagdybiaethau'n newid ac mae'r cynnwrf economaidd diweddar wedi golygu newid mwy dramatig. Rydym yn dra dibynnol ar gyllid Llywodraeth Cymru i gyflawni'r rhaglen waith hon ar y raddfa ofynnol. Ar y naill law, all Llywodraeth Cymru ddim addo unrhyw gymorth ariannol ar gyfer ôl-ffitio y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol hon; ar y llall, mae'n disgwyl i ni ddarparu amserlen ar gyfer gwaith sy'n dibynnu'n ar yr union arian hwnnw dros y degawdau nesaf. Dyw'r peth ddim yn gall!

Mae gennym raglen gynlluniedig o waith ar gartrefi bob blwyddyn a rhaglen arfaethedig ddwy flynedd o flaen llaw. Ond bob blwyddyn, wrth adolygu'n rhaglen, cawn yn aml bod nifer o ffactorau newydd wedi codi sy'n golygu bod rhaid i'r rhaglen arfaethedig newid. Ac mae hynny mewn meysydd gwaith heb y datblygiadau technolegol carlamus sy'n digwydd yn y maes ôl-ffitio. Os na allwn hyd yn oed addo i denantiaid yn ddibynadwy y gwneir gwaith penodol i'w heiddo y flwyddyn nesaf, sut yn y byd y gellir disgwyl inni addo amserau penodol

dros y ddau ddegawd nesaf?

Gall Llywodraeth Cymru ddadlau mai dim ond amcangyfrifon a fynnir, ond dyw pobl byth yn sylwi ar y gair 'amcangyfrif' neu 'falle'. Pan fo cyn lleied o ymddiriedaeth mewn gwasanaethau cyhoeddus, mae'n adeg ofnadwy i ofyn i ni addo, i bob pwrpas, i denantiaid pryd y gwneir gwaith ar eu cartrefi.

## RHAI O BROFIADAU TRIVALLIS

### *Dull cartref cyfan*

Gellir dewis taenu'r cariad yn denau neu gwmpasu'r cartref cyfan a, gyda chymorth ein cyfran gyntaf o gyllid y Rhaglen Ôl-ffitio Optimeiddiedig (ORP) eleni trwy gyfrwng ORP 3, dewiswyd y dull cartref-cyfan o fynd ati i raddau helaeth, gan dargedu'n gwelliannau at ardaloedd â'r lefel uchaf o amddifadedd er mwyn ymdrin â thlodi tanwydd.

Rydym wedi dewis cyfeirio swm sylweddol o'n cyllid ein hunain i ôl-ffitio yn y tymor byr ac wedi'i gyfuno â'n cyfran ein hunain, byddwn yn gallu gwella bron i 1,000 o gartrefi bob blwyddyn tra bydd cyllid ORP yn parhau. Roedd yr EPC cyn y gwaith yn hofran rhwng D ac E ar gyfartaledd ond ar ôl gwneud y gwaith mae'n gyfradd B ar gyfartaledd gyda rhai yn cyrraedd EPC A. Gyda'r dull cartref-cyfan, clywn gan denantiaid eu bod yn ymfalchïo yn fwy eu cartrefi gyda gwell insiwleiddio sŵn, mwy o gysur a chartrefi mwy deniadol. Mae allbwn carbon deuocsid y cartrefi wedi mwy na haneru, ond nid yw hyn yn cael ei grybwyll fel un o'r buddianna gan denantiaid; mae eu ffocws nhw ar y profiad o fyw yno. Dengys hyn bwysigrwydd galw'r rhaglen yn rhaglen cynhesrwydd fforddiadwy.

Gan gymryd un teras o dai fel enghraifft, lle y cafodd batris eu mewnosod, ni ddefnyddiwyd trydan o gwbl am saith mis o'r flwyddyn ond mae'r tâl sefydlog uchel yn parhau, problem y mae angen ei datrys. Mae cartrefi canol-teras yn gweld arbedion tanwydd o 60 y cant.

Meddai un o denantiaid Pentre'r Eglwys: *'Mae 'nghartre yn lle cynhesach a mwy cyfforddus i fyw ynddo, gan ei fod yn dawelach a heb ddim drafftiau. Rwy'n arbed rhyw £60 y mis ar filiau ynni, gyda'r batri PV, sy'n fy ngalluogi i gyllidebu'n well a bod mewn rheolaeth. Diolch Trivallis.'*

### *Dull traws-sefydliadol*

Gwyddem bwysigrwydd aruthrol gwrando ar denantiaid ac ymgysylltu â nhw drwy gydol y rhaglen a dyma ni'n penodi tîm o swyddogion cyswllt tenantiaid o'r math a gyflogwyd yn ystod y gwaith i gyflawni'r SATC gwreiddiol. Mae'r rhain wedi mwy na thalu amdanynt eu hunain, trwy sicrhau bod tenantiaid yn cael eu hysbysu'n drylwyr, a datrys unrhyw broblemau gyda'r gwaith neu gontractwyr. Maen nhw'n effro i unrhyw fân broblemau gyda darparu'r rhaglen, a defnyddir hyn i ddysgu gwersi ac addasu wrth i ni fynd rhagom.

Cawsom sgil-fuddiannau hefyd gan i'r swyddogion hyn ddefnyddio eu sgiliau dwyn perswâd i gael mynediad i ni i gartrefi i wneud profion diogelwch trydan a nwy, a llwyddo i gyrraedd 100 y cant ar gyfer y ddau.

### *Swyddi lleol*

Mae ein prif gontractwr ar gyfer contract tair-blynedd yn cyflogi dros 100 o drigolion Rhondda Cynon Taf felly mae ein rhaglen yn cael effaith economaidd fawr fel y disgwylid. Mae ein holl gontractwyr eraill ar y rhaglen yn ne Cymru a daw ein paneli PV o ffatri yn ne Cymru hefyd. Felly, fel y byddem yn ei ddisgwyl, mae ein rhaglen fuddsoddi yn gwneud argraff bositif a sylweddol ar yr economi leol.

### *Cyllido'r gwaith*

Yn y tymor byr rydym wedi targedu mwy o arian tuag at leihau tlodi tanwydd ac eiddo y gwyddom y gallwn ei wella o fewn amlen ariannol resymol, ond gwyddom oll ein bod yn wynebu her amhosib o ran dod o hyd i'r arian heb gymorth sylweddol gan y Llywodraeth.

Archwilir ffyrdd o godi cyllid all-fantolen lle bydd tenantiaid a buddsoddwr preifat yn rhannu budd ariannol arbedion ôl-ffitio. Ond os yw hynny'n gweithio, yna efallai y byddai'r un model yn gweithio gyda rhenti uwch yn lle hynny? Os gallwn ddatblygu model newydd o fforddiadwyedd sy'n cynnwys costau ynni, nid dim ond rhenti a thaliadau gwasanaeth, a ellid dangos, hyd yn oed â rhenti uwch, bod cost rhedeg cartref at ei gilydd yn fwy fforddiadwy ar ôl arbed ar danwydd? Gellid defnyddio'r incwm rhent uwch hwnnw wedyn i ran-gyllido'r buddsoddiad cyfalaf angenrheidiol.

### *Rhannu'r addysg*

Fy mhwynt olaf yw hwn. Rydym yn dysgu o fewn Trivallis ac wedi recriwtio pobl sydd wedi dysgu gan raglenni mewn mannau eraill. Ond does nemor ddim addysg yn dod o'r sefydliadau hynny a elwodd ar gyllid ORP 1 ac ORP 2 er bod rhannu'r hyn a ddysgwyd yn un o amodau'r grant! A does dim llawer yn cael ei gyhoeddi gan ein prifysgolion er iddynt dderbyn cyllid ar gyfer gwerthuso. Mae gwir angen i Lywodraeth Cymru wneud yn well a chyflawni'r disgwyliadau addysgiadol a oedd i fod wedi eu hymgorffori yn y rhaglenni peilot. Maen nhw wedi gosod amserlen i ni; mae angen iddyn nhw osod un iddyn nhw'u hunain ar y pwynt yma.

**Duncan Forbes yw prif weithredydd Trivallis**



*Y swyddog cyswllt tenantiaid Rhian Cook yn ymgysylltu â thenantiaid ar Berthcelyn*



# CARTREFI'R DYFODOL

Mae Cartrefi Conwy yn mynd i'r afael â phroblemau'r presennol ac mae mewn sefyllfa dda i ymateb i her SATC unwaith eto, medd Adrian Johnson

*Rhodfa Phil Evans, y stad a ailddatblygwyd yn Llanrwst*



**Roedd marwolaeth Awaab Ishak ddyflwydd oed o anhwylder anadlu a achoswyd gan lwydni yn y fflat yn Rochdale lle'r oedd yn byw gyda'i rieni yn sgandal cenedlaethol.**

Roedd yr hyn a ddigwyddodd ym mis Rhagfyr 2020 yn arswydus ac mae meddyliau pawb yng Nghartrefi Conwy a gweddill y sector gyda'i deulu yn eu loes a'u torcalon.

Roedd yn rhybudd anferth i bob un ohonom sy'n gweithio ym maes tai cymdeithasol bod angen gweithredu; fel tad i fachgen bach yr un oed, mae wedi effeithio'n ddwfn arna'i.

Rhaid i ni sicrhau fel sector na chaiff hyn byth ddigwydd eto. Mae'n gwbl annerbyniol yn yr 21ain ganrif. Mae mor syml â hynny.

Bydd gennym broblemau bob amser gyda stoc sy'n heneiddio ond yn yr oes hon, dylai ein cartrefi fod yn rhydd o leithder a llwydni.

## MATER BRYS

Ein cyfrifoldeb ni fel sector yw cyflogi'r bobl iawn, darparu'r hyfforddiant iawn a defnyddio'r adnoddau iawn i ddatrys unrhyw broblemau o'r fath fel mater brys.

Yn Cartrefi Conwy, rydym wedi sefydlu ein tîm arbenigol ein hunain i fynd i'r afael ag unrhyw leithder a llwydni yn ein cartrefi yn ogystal â gwaith trwsio cyffredinol, fel na chaiff dim ei adael heb ei wneud, o'r dechrau i'r diwedd.

Fel busnes, rydym wedi canolbwyntio erioed ar gynnal a chadw ein heiddo yn dda ac i fod yn deg, mae gennym enw rhagorol yn hyn o beth.

Yn naturiol, gwnaeth Covid hi'n anodd ac yn fwy cymhleth i gael mynediad i eiddo ac yn anorfod, golygodd hynny ein bod ychydig ar ei hôl hi o ran cynnal a chadw.

Sefydlwyd y tîm o chwech i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r problemau hyn yn syth yn hytrach na dibynnu ar ymdrin â nhw fel rhan o'r rhaglen gynnal a chadw arferol.

Rhan o'n strategaeth yw sicrhau bod unrhyw waith trwsio angenrheidiol sy'n gysylltiedig â lleithder neu lwydni yn denu'r adnoddau iawn o'r cychwyn cyntaf nes i'r broblem gael ei datrys, cyn i'r gwaith gael ei gymeradwyo gan ein swyddogion cyswllt tenantiaid.

Gallai'r gwaith fod mor syml â sychu waliau â chadach cyn defnyddio cynnyrch sy'n dileu llwydni neu anwedd. Mewn achosion eraill gallai olygu gwell awyru, ail-inswleiddio cartrefi, ail-rendro talcennau tai os yw dŵr yn treiddio trwy waliau neu fewnosod cwrs gwrthleithder newydd. Fe wnawn beth bynnag sydd ei angen.



Ar hyd y ffordd, rydym yn cyfathrebu'n helaeth gyda'n tenantiaid drwy roi gwybodaeth ar y wefan yn ogystal â rhyngweithio'n bersonol â nhw, boed hynny mewn sioeau teithiol, ar gyfryngau cymdeithasol neu wyneb-yn-wyneb gyda'n swyddogion cyswllt tenantiaid hyfforddedig.

Mae 'na bethau syml y gall tenantiaid eu gwneud ond mae'n ffocws pennaf ar sicrhau bod ein heiddo'n gweithio yn y ffordd iawn iddyn nhw, gyda gwres digonol ac awyru mecanyddol. Ein cyfrifoldeb ni yw cyfathrebu â'r tenantiaid.

## CYFATHREBU Â'R TENANTIAID

Yn y bôn, mae'n golygu canfod unrhyw broblemau a'u datrys, gan gyfathrebu â'r tenant bob cam o'r ffordd, i sicrhau bod pob eiddo yn cydymffurfio. Wrth wneud hyn rydym yn deall bod ffabrig yr adeiladau yn newid dros amser, tra bod teuluoedd yn tyfu fel bod mwy o bobl yn y cartref.

Mae gwaith y tasglu yn mynd y tu hwnt i'n cynllun gwelliannau arfaethedig a allai gynnwys gwahanol fathau o inswleiddio, a ffenestri, drysau a systemau gwresogi newydd. Rydym yn buddsoddi tua £1miliwn y flwyddyn yn benodol ar waith y tasglu ac mae hynny'n ychwanegol at ein cyllideb cynnal a chadw ac atgyweirio arferol.

Wedi dweud hyn oll, mae'n bwysig nodi nad oes gennym ni broblem fawr gyda lleithder a llwydni. Dydy hynny erioed wedi codi. Ond wedi'r drasiedi ofnadwy yn Rochdale, roeddem am sicrhau ein bod ar y blaen a bod gennym dîm arbenigol i wneud y gwaith hwn.

Caiff ein stoc tai ei archwilio'n rheolaidd gan asiantaethau allanol fel Savills a buddsoddwyd yn helaeth mewn trefniant mewnol, felly mae gennym swyddogion tai sydd hefyd yn cynnal arolygon.

Yn y cyfamser, mae ein staff atgyweirio hefyd wedi'u hyfforddi i ganfod unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â lleithder a llwydni. Efallai eu bod yno i atgyweirio drws ffrynt neu fwyler ond byddant hefyd yn edrych ar unrhyw beth arall y mae angen ei wneud yn yr eiddo hwnnw.

Bydd y tasglu'n parhau i weithredu yn y dyfodol. Mae'n gweithio'n dda iawn. Er mai lleithder a llwydni yw ei brif ffocws, gall yr ystod o sgiliau a disgyblaethau esblygu wrth i flaenoriaethau newid.

Mae'r gwaith o gynnal a chadw ein heiddo yn y cyflwr gorau posibl ychydig yn debyg i'r cytundeb i beintio Pont afon Forth – mae'n ddiddiwedd. Rydym yn gwneud rhyw 12,000 o atgyweiriadau y flwyddyn ac yn adnewyddu eiddo gwag yn barod i'r tenantiaid nesaf symud i mewn.

Ond fel rhywun a fagwyd mewn tŷ cyngor, mae'n rhywbeth dwi'n anhygoel o angerddol yn ei gylch.

Dwi wedi bod yn gweithio yn y sector tai ers 21 mlynedd, ar ôl cael fy recriwtio'n wreiddiol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel rheolwr tai dan hyfforddiant cyn mynd yn rhan o dîm Cartrefi Conwy pan ddaeth i fodolaeth yn 2008 wedi pleidlais ysgubol gan y tenantiaid o blaid trosglwyddo'r stoc.

Sbardunodd hynny raglen fuddsoddi enfawr o £58 miliwn i ddod â phob un o'r 3,800 eiddo i fyny i'r Safon Ansawdd Tai Cymru wreiddiol.

Bûm yn arwain rheolaeth y cynllun moderneiddio enfawr pan adnewyddwyd yr holl gartrefi, gyda cheginau newydd, stafelloedd ymolchi newydd, gwifrau, ffenestri, drysau, toeau a rendro newydd.

Y nod oedd rhoi i denantiaid yr hyn roedden nhw'n ei haeddu – cartrefi cysurus, cynnes ac ynni-effeithlon.

## BALCHDER ARUTHROL

Roedd y ffaith bod Cartrefi Conwy ymhlith y landlordiaid tai cymdeithasol cyntaf i gwblhau'r dasg anferthol hon erbyn terfyn amser Llywodraeth Cymru yn 2012 yn destun balchder aruthrol i'r tîm cyfan.

Rydym hefyd wedi cyflawni gwelliannau amgylcheddol mawr fel rhan o'n hymgyrch i greu cymunedau i ymfalchïo ynddynt.

Yn 2016 fe benderfynon ni ein bod ni am wario ein punt yn fwy lleol felly dyma sefydlu is-gwmni, Creu Menter, fel cwmni buddiant cymunedol.

Yn ogystal â chynnal a chadw ein heiddo, mae Creu Menter yn helpu pobl leol, yn cynnwys tenantiaid, i ddod o hyd i gyfleoedd i weithio, hyfforddi a gwirfoddoli.

Caiff ei elw masnachol ei ail-fuddsoddi yn ei academi hynod lwyddiannus, Creu Dyfodol.

Lansiodd Creu Menter fenter lwyddiannus arall, sef adeiladu cartrefi modiwlaidd carbon-isel, gan fuddsoddi £1 miliwn i agor ffatri newydd yn y Rhyl lle gwneir y fframiau pren ynghyd â distiau post a ffensys pren. Byddwn yn dechrau gwneud cytiau gardd yn fuan hefyd.

Defnyddiwyd y fframiau pren fel rhan o ailddatblygiad gwerth £4.3 miliwn ar stad o dai yn Llanrwst a gwblhawyd yn ddiweddar, lle cafodd bloc o 30 o fflatiau deulawr ac unllawr eu dymchwel fel rhan o weddnewidiad enfawr ystâd o'r 1970au o'r enw Glanrafon, gan godi 14 o gartrefi modiwlaidd carbon-isel tair- a phedair-llofft yn eu lle.

Cafodd chwe bloc cyfagos o 36 o fflatiau eu gwella'n sylweddol hefyd i roi gwedd fodern newydd sbon iddynt.

Y prosiect mawr nesaf sydd ar y gweill fydd ein cynllun tai mwyaf hyd yma – pentref eco gwerth £32 miliwn o bron 130 o gartrefi carbon-isel ym Mhensarn, ger Abergele – gyda Creu Menter yn chwarae rhan allweddol unwaith eto trwy gyflenwi'r deunyddiau pren.

Dyma'r economi gylchol ar ei ffurf buraf a chaiff yr elw ei ailgylchu er budd y tenantiaid.

Wrth i ni edrych ymlaen at fersiwn nesaf Safon Ansawdd Tai Cymru, credwn ein bod mewn sefyllfa dda i ymateb i'r her unwaith eto.

Dros y degawd nesaf a thu hwnt, bydd pwyslais ar sicrhau ein bod yn lleihau allyriadau carbon ein stoc tai a'n busnes yn gyffredinol.

Bydd datgarboneiddio yn golygu rhoi llawer mwy o dechnoleg i mewn gartrefi sydd wedi'u hinswleiddio'n dda fel na fyddant yn dioddef o broblemau lleithder neu anwedd, gyda'r ffurf fwyaf ynni-effeithlon o wresogi adnewyddadwy.

Bydd cartrefi'r dyfodol yn wahanol iawn i'r tai cyngor gwydriad-sengl, waliau-solet gyda thanau glo fel yr un fy magwyd i ynddo. Roedd eu hadeiladwaith yn dda iawn ond hoffwn i ddim meddwl faint fyddai cost gwresogi'r math hwnnw o dŷ heddiw.

Mae arloesi wedi bod yn ganolog i lwyddiant Cartrefi Conwy o'r cychwyn cyntaf a'n nod yw aros ymhell ar y blaen.

**Adrian Johnson yw dirprwy brif weithredydd Grŵp Cartrefi Conwy**




# DISGWYLIADAU'N CYNYDDU

Ross Thomas yn dadansoddi'r gofynion cydraddoldeb yn y SATC o ran lloriau, hygyrchedd a digonolrwydd diwylliannol

**Teg yw dweud mai hir a fu'r ymaros am hwn – ond mae fersiwn newydd Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC) gyda ni o'r diwedd.**

Ond yn gyntaf, er mwyn gallu edrych ymlaen â hyder, mae'n aml yn ddefnyddiol edrych nôl ar yr hyn a gyflawnwyd. Graddiwyd tua 99 y cant o dai cymdeithasol fel rhai sy'n cydymffurfio â SATC (gan gynnwys methiannau derbyniol) o dan y fersiwn wreiddiol, gyda thri chwarter yn cydymffurfio'n llawn, arwydd clir bod tai cymdeithasol yn gyffredinol mewn gwell cyflwr nag y byddai wedi bod heb ysgogiad y safonau cenedlaethol.

Ochr yn ochr ag amrywiaeth eang eang o randdeiliaid, bu Tai Pawb dros y 18 mis diwethaf yn chwarae ei ran wrth helpu i lunio fframwaith newydd sy'n adeiladu ar y cynnydd hwnnw – fframwaith sy'n addas i'r diben, yn feiddgar ac yn uchelgeisiol.

Nid yw'n dod heb ei heriau – ac nid yw'r heriau hynny'n diflannu nawr bod y fframwaith newydd yn fyw. Gŵyr unrhyw un sy'n gweithio yn y sector tai yng Nghymru ei fod yn lle prysur i fod ynddo gyda llawer o ofynion yn cystadlu â'i gilydd, a dweud y lleiaf.

Afraid yw dweud bod Tai Pawb yn croesawu'r ffocws craff a'r disgwyliadau ychwanegol ar gydraddoldeb yn y safonau newydd.

## TYNNU GORCHUDDION LLAWR

Gyda **lloriau**, amlinella'r fframwaith: *'wrth newid tenantiaeth, dylai pob stafell gyfanheddol... o fewn y cartref fod â gorchuddion llawr addas'.* O dan y fframwaith presennol – a fu mewn grym ers 2002 – ni fu unrhyw ddisgwyliad y byddai darparwyr tai cymdeithasol yn cyflenwi lloriau newydd ac eithrio mewn ceginau a stafelloedd ymolchi, sy'n golygu y caiff gorchuddion llawr llawer o gartrefi eu tynnu a byddant heb orchudd addas pan gânt eu gosod eto.

Yn 2020, cyhoeddwyd papur gennym ar y cyd â TPAS Cymru, yn tanlinellu effaith diffyg lloriau ar denantiaid. Mewn arolwg a gynhaliwyd ar y pryd, nododd tenantiaid cymdeithasol fod y gost o brynu lloriau eu hunain yn amhosibl a bod cartrefi'n ddiffygiol o ran cynhesrwydd a diogelwch. At hynny, codwyd problemau iechyd megis anawsterau anadlu ac iselder, tra bod tenantiaid â phlant yn crybwyll problemau diogelwch gyda lloriau concrit caled neu bren, yn cynnwys ysgyrion.

Gwnaeth yr adroddiad gyfres o argymhellion, yn galw ar ddarparwyr tai cymdeithasol i ystyried grantiau ar gyfer lloriau, rhoi'r dewis i denantiaid i gadw gorchuddion llawr a oedd yno, ac i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad o SATC i gynnwys darparu lloriau priodol.

Dair blynedd yn ddiweddarach, dyma lansio papur newydd i dynnu sylw at arfer ymhlith landlordiaid cymdeithasol o ran cadw lloriau presennol mewn eiddo yn ogystal â darparu lloriau newydd. Ffrwyth gwaith partneriaeth yw ***Floored: a practice compendium***, lle bu landlordiaid cymdeithasol ledled Cymru yn rhannu astudiaethau achos ar dreialu a mabwysiadu arfer newydd wrth ddarparu lloriau:



Llun ©TPAS Cymru



*Bu Jason yn byw yn ei gartref am ddwy flynedd heb garped a gyda dau blentyn ifanc*

- Mae cymdeithas tai ClwydAlyn wedi treialu gosod lloriau feinyl mewn eiddo gwag cyn ei ailosod, gan arwain at lai o eiddo gwag, llai o ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwelliant mewn llesiant.
- Dechreuoedd Cymdeithas Tai Sir Fynwy osod lloriau newydd mewn fflatiau newydd eu gosod; yn sgil adborth cadarnhaol, yn cynnwys mwy o foddhad ymhlith tenantiaid a staff, a'r effaith ar ôl-ddyledion rhent, ymddygiad gwrthgymdeithasol a chynaliadwyedd tenantiaeth, cafodd y cynllun ei weithredu gyda phob eiddo newydd a osodwyd ers 2018.
- Yn y cyfamser, cynyddodd Grŵp Pobl ei gynllun peilot yn raddol o 22 o gartrefi i 226 yn y tair blynedd diwethaf, hynny hefyd gydag adborth cadarnhaol gan denantiaid a chydweithwyr cymdogaeth; lle bo modd, cedwir lloriau presennol ar gyfer cwsmeriaid newydd.
- Cynhaliodd y landlord cymdeithasol o Abertawe, Caredig, gynllun peilot 'Cartrefi nid Tai' a gwerthuso boddhad tenantiaid mewn cartrefi heb loriau, â lloriau a gadwyd, ac â lloriau newydd, gyda'r olaf yn mynegi llawer mwy o foddhad. Gwelwyd gostyngiad mewn ôl-ddyledion rhent, ceisiadau atgweirio ac ymddygiad gwrthgymdeithasol hefyd mewn cartrefi sydd wedi elwa ar y cynllun.

Mae hwn yn achos clasurol o adborth tenantiaid yn dylanwadu'n uniongyrchol ar newid mewn polisi i sicrhau bod darparu lloriau yn safon ynddi'i hun.

O ran **hygyrchedd**, atgyfnerthwyd geiriad y fframwaith: *'Rhaid cynllunio ar gyfer gofynion tai pobl anabl a phobl hŷn a'u bodloni yn unol â'r dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol.'*

Nid dim ond argyfwng tai cyffredinol sydd gennym, ond argyfwng tai ar gyfer pobl anabl hefyd. Yn syml iawn, does dim byd tebyg i ddigon o gartrefi hygyrch ar gael – ac o ran y rhai sy'n bodoli, dydy hi ddim yn eglur pa nifer ohonyn nhw sydd.

Pan ystyriwch yr ystadegau, mae'n dangos y broblem yn glir. Mae gan Gymru gyfran uwch o bobl anabl nag unrhyw ran arall o'r DU  sef 26 y cant (39 y cant mewn tai cymdeithasol). Yn y cyfamser, mae rhagamcanion y llywodraeth yn awgrymu y bydd cynnydd sylweddol yn nifer y bobl dros 65 oed yng Nghymru â nam symudedd dros y degawd nesaf.

Amlinellai'r un adroddiad gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, tra'n edrych yn benodol ar y broblem yng Nghymru, effeithiau bod heb gartref hygyrch, yn cynnwys problemau symudedd, diffyg urddas o fethu byw'n annibynnol, iechyd meddwl gwael, y tebygolrwydd uwch o fod yn ddiwaith ac ymdeimlad o eithriad cymdeithasol a phryder.

Mae'r fframwaith yn mynnu bod landlordiaid cymdeithasol yn *'rhoi'r ystyriaeth briodol'* i Gartrefi Gydol Oes a gofynion hygyrchedd uwch, a gweithredu ar hynny *'os a lle bo modd'*. Ac am y tro cyntaf, mae'n ofynnol i gyrff tai gasglu data ar dai hygyrch i gadeiriau olwyn. Felly, o ystyried y cyd-destun, nid yw ond yn iawn bod gofyn i'r sector tai cymdeithasol weithredu.

Ychwanegiad newydd i'r fframwaith yw'r ffocws ar **ddigonolrwydd diwylliannol**, gan gydnabod y gall ac y dylai cartrefi addasu – a bod yn addasadwy – yn unol ag anghenion y rhai sy'n byw yno. Gofynnir i landlordiaid cymdeithasol *'ystyried anghenion diwylliannol penodol y tenantiaid'* gan roi sylw arbennig i *'ddyluniad ceginau … ac ystafelloedd ymolchi'.*

Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth y tebygolrwydd, er enghraifft, o le storio ychwanegol yn y gegin ar gyfer rhai aelwydydd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn ogystal ag ystyried gwahanol arferion ymolchi wrth ôl-ffitio stafelloedd ymolchi.

Mewn sesiwn ddiweddar ar y cyd rhwng Tai Pawb a TPAS Cymru ar gyfer landlordiaid cymdeithasol ar SATC yn benodol, amlinellodd Dr Satish Basavapatna Kumaraswamy o Brifysgol Caerdydd rywfaint o ymchwil cychwynnol yn amlygu effaith ymddygiad diwylliannol ar ansawdd aer yn y cartref, yn seiliedig ar ddulliau coginio nodweddiadol Wyn Prydeinig ac Asiaidd Prydeinig. Amlygodd yr ymchwil, yn yr achos hwn, o ganlyniad i goginio'n amlach ac am gyfnod hwy, fod tymheredd y cartref Asiaidd Prydeinig yn parhau'n uwch am lawer yn hwy ac, yn gyffredinol, roedd tymheredd 'amgylchynol' yr eiddo ryw ddwy radd yn uwch mewn cartref Asiaidd Prydeinig.



Marcus Aurelius via Pexels

*Mae'r fframwaith newydd yn cryfhau'r geiriad ar hygyrchedd*

Mae hwn yn faes y mae Tai Pawb, ochr yn ochr â'i waith ***Gweithredoedd Nid Geiriau*** a ***Chynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru*** Llywodraeth Cymru, wedi ymrwymo i'w archwilio ymhellach.

Yn y pen draw, mae pawb yn gweithio tuag at yr un nod syml ar draws y safonau newydd: darparu cartrefi o ansawdd da. Mae Tai Pawb yn barod i gefnogi landlordiaid cymdeithasol i ddeall y fframwaith newydd, yn enwedig yr elfennau newydd sy'n ymwneud â chydraddoldeb, a'u cefnogi i ddatblygu eu syniadau a gwneud newidiadau positif i denantiaid.

**Ross Thomas yw pennaeth polisi a materion cyhoeddus Tai Pawb**

1. *www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/housing-and-disabled-people-wales-hidden-crisis.pdf*
2. *orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/162301/*






# EIN GWELEDIGAETH O FYW YN GYNALIADWY

Dim ond trwy ymdrech ar y cyd y gellir adeiladu cartrefi a chymunedau cynaliadwy, meddai Tom Boome

**Ar adeg pan fo materion fel tlodi, anghydraddoldeb iechyd, llesiant, digartrefedd, a heriau newid hinsawdd yn brif bynciau trafod, mae'n hanfodol i sefydliadau gyfrannu'n sylweddol tuag at ddatrys y problemau hyn. Mae llywodraethau Cymru a San Steffan wedi gosod targed o sicrhau bod pob cartref yn ddi-garbon erbyn 2050, ond mae ein hymrwymiad i fwrw ymlaen ynghynt wedi'i ysbrydoli nid yn unig gan y buddiannau amgylcheddol, ond y budd i'r bobl sy'n byw yn ein cartrefi a'n cymunedau.**

Yng NghlwydAlyn, rydym wedi croesawu arloesi, ymgysylltu â'r gymuned a chydweithio i ganfod ffordd tuag at gymunedau glanach, gwyrddach a mwy cynaliadwy. Mae datgarboneiddio ein cartrefi presennol yn rhan hanfodol o'n cynllun, yn ogystal â'n dull o fynd ati i adeiladu cartrefi newydd arloesol, y cyfan wedi'i gynnal gan gadwyni cyflenwi cynaliadwy a moesegol.

Y peth pwysicaf yw bod ag agwedd gyfannol. Boed drwy gynghori ar ynni neu trwy ddangos i bobl sut i elwa i'r eithaf ar y dechnoleg rydym yn ei mewnosod, mae ein pwyslais ar ein preswylwyr yn ogystal â'n cartrefi. Drwy gadw'r ffocws ar breswylwyr, gallwn osgoi unrhyw ganlyniadau anfwriadol mabwysiadu technoleg newydd. Yn lle canolbwyntio ar wneud cartrefi'n fwy ynni-effeithlon yn unig, rydym hefyd yn cydweithio'n glòs gyda'n tîm tai a'n preswylwyr yn uniongyrchol, i'w cael i ymddiried yn yr hyn rydym yn ei wneud a sicrhau bod llinellau cyfathrebu yn agored.

## UN O DDATBLYGWYR BLAENLLAW'R DU

Testun balchder oedd cael ein cydnabod yn ddiweddar fel un o ddatblygwyr cartrefi cynaliadwy blaenllaw'r DU. Trwy ein holl broses ddylunio ac adeiladu, bu'r pwyslais ar egwyddorion carbon-isel a chynaliadwy, o'r dechrau i'r diwedd. Defnyddio cymaint o ddeunyddiau naturiol â phosibl. Prynu deunyddiau gan gynhyrchwyr a chyflenwyr lleol, gan gadw'r ôl-troed carbon cysylltiedig mor isel â phosib tra'n cefnogi busnesau lleol a chynnig cyfleoedd hyfforddi a swyddi lleol.

Rydym yn falch o'r gwaith y buom yn ei wneud gyda Woodknowledge Wales ac un o'n contractwyr, Williams Homes, lle defnyddir pren o Gymru a chadwyni cyflenwi lleol i gefnogi'r adferiad gwyrdd. Mae costau rhedeg y cartrefi carbon-isel iawn hyn yn rhad dros ben, sy'n caniatáu i breswylwyr arbed yn uniongyrchol ar eu biliau ynni, rhan allweddol o'n hymdrech i oresgyn tlodi tanwydd.

Yn amlwg, mae'n haws dylunio ac adeiladu cartrefi cynaliadwy o'r newydd, ond mae'n llawer mwy anodd ôl-ffitio ein cartrefi hŷn. Mae cymaint o ystyriaethau wrth ddylunio rhaglen ôl-ffitio sy'n cynnwys amryw fathau o stoc tai gwahanol ac sy'n gorfod rhychwantu gwahanol anghenion preswylwyr. Rhaid ystyried hefyd sut y bydd hyn yn tarfu ar fywydau'r bobl sy'n byw yn ein cartrefi, a all fod yn rhwystr i rai rhag cytuno i gael y gwaith wedi ei gwblhau. Bydd rhai mathau o dechnoleg yn gweithio'n well mewn rhai cartrefi nag eraill, felly ein nod yw bod â chyfres o opsiynau y gallwn eu cyfuno, sy'n ein galluogi i greu ffordd o fynd ati sy'n gweddu i bob

cartref a'r bobl sy'n byw yno. Y darn olaf o'r pos yw cyfuno hynny i gyd â'n rhaglen reoli asedau gan sicrhau y gallwn elwa i'r eithaf ar wariant ein rhaglen gweithiau cyfalaf.

Yn amlwg, gyda chostau byw, ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd blaenoriaethu effeithlonrwydd ynni er mwyn arbed arian. Fel y dywedodd ein prif weithredydd, Clare Budden: *'Dylai cartrefi cynaliadwy, ynni-effeithlon fod yn greiddiol i'r sector tai. Gyda mwy o breswylwyr yn dioddef yn ddifrifol oherwydd biliau gwresogi cynyddol, sy'n creu tlodi tanwydd, mae'n bwysig ein bod ni'n gweithredu i sicrhau bod pob cartref â'r sgôr effeithlonrwydd uchaf posibl i atal colli gwres a lleihau costau tanwydd.'*

Yn ddiweddar, cyhoeddwyd y bydd 31 o gartrefi yng Nghonwy yn elwa ar dreialu technolegau carbon-isel newydd sbon. Nid yw'r tai wedi'u cysylltu â phrif gyflenwad nwy ac ar hyn o bryd reiddiaduron trydan sy'n eu gwresogi. Aeth y rheini'n fwyfwy drud i'w rhedeg wrth i brisiau ynni godi i'r entrychion. Mae'r rhaglen adnewyddu arloesol yn dangos posibiliadau defnyddio technoleg werdd arloesol i wneud gwresogi'n fwy fforddiadwy a chynyddu graddfeydd effeithlonrwydd.

## TECHNOLEGAU ARLOESOL

Mae'r datblygiadau arloesol allweddol a dreialwyd yn cynnwys defnyddio'r dechnoleg wresogi papur wal is-goch ddiweddaraf, silindrau dŵr poeth clyfar a systemau rheoli a monitro clyfar. Mae'r technolegau arloesol hyn, sy'n rhedeg ar drydan ac sydd wedi'u cysylltu â phaneli solar a batri, yn creu cartrefi cynhesach am gost sylweddol is na ffynonellau traddodiadol ac yn gollwng tua 50 y cant yn llai o garbon deuocsid na systemau tanwydd-ffosil fel olew neu nwy potel.

Derbyniodd y prosiect £1.7 miliwn gan Lywodraeth Cymru ac mae'n targedu 120 o'n cartrefi eleni gyda'r posibilrwydd o gynnwys mwy o gartrefi drwy gyllido pellach yn y ddwy flynedd nesaf. Rydym mewn partneriaeth â Cyd Innovation, arbenigwr lleol annibynnol ar ôl-ffitio a gwerth cymdeithasol, i wneud y prosiect mor effeithiol â phosib drwy sicrhau bod y buddsoddiad hefyd yn creu swyddi a chyfleoedd hyfforddi lleol, gan weithio gyda'r contractwr lleol Wall Lag i gwblhau'r gwaith.

Nid yw datgarboneiddio yn fater o atebion arloesol a thechnolegol yn unig: mae a wnelo hefyd â meithrin ymdeimlad o gymuned a chyd-gyfrifoldeb. Byddwn yn trefnu gweithdai'n rheolaidd ac yn cwrdd â phreswylwyr yn eu cartrefi i sôn am fanteision byw'n gynaliadwy. Gobeithio y bydd hyn yn ysbrydoli pobl i wneud newidiadau effeithiol, fesul cam, yn eu bywydau bob dydd.

O'n rhan ni, parhawn i archwilio dulliau arloesol o leihau'n heffaith ar yr amgylchedd. Rydym yn gyffrous am y posibiliadau a gynigir gan dechnolegau newydd ac arferion cynaliadwy. Ein nod yw parhau i gymryd camau rhagweithiol i arwain y ffordd o ran gwella cynaliadwyedd yn y sector a bod yn esiampl dda ar y daith at ddatgarboneiddio.

Arweiniwyd y cais am gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ***Hwb Di-garbon Sero Net Cymru*** gennym. Bydd yr Hwb yn borth cydweithredol, agored i bob darparydd tai cymdeithasol, lle ceir data perfformiad adeiladau, gwybodaeth am gynnyrch, astudiaethau achos, adroddiadau a chanllawiau arfer da. Bydd yr Hwb hefyd yn datblygu a rhedeg rhaglen hyfforddi i helpu darparwyr tai cymdeithasol i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl gyda'u prosiectau adeiladu newydd ac ôl-ffitio.

Dim ond trwy ymdrech ar y cyd y gellir adeiladu cartrefi a chymunedau cynaliadwy. Mae'n daith barhaus gyda llawer o waith dysgu, ond â phenderfyniad ac ymrwymiad, rydym yn hyderus y gallwn adeiladu dyfodol disgleiriach, gwyrddach i'n preswylwyr a'n cymunedau yng ngogledd Cymru.

**Tom Boome yw pennaeth technegol, arloesi a hinsawdd ClwydAlyn**



*Mae technolegau'n cynnwys papur wal gwresogi is-goch (uchaf) a phympiau gwres (isod)*



# CANLYNIADAU ANFWRIADOL

Max Hampton o Gomisiwn Dylunio Cymru yn ystyried effaith safonau ar ddyluniad tai



**Diben safonau yw dod â threfn a diogelwch i'r broses ddatblygu, helpu i wella ansawdd tai, a chyfrannu at greu amgylchedd gwell i bobl fyw ynddo. Ond mae safonau hefyd yn effeithio'n fawr ar ddyluniad tai newydd a'r gymdogaeth ehangach. Felly, ai'r mathau o ddatblygiad a ddeilliodd o hynny yw'r hyn a ragwelwyd pan luniwyd y safonau gyntaf, ac a ydynt mewn gwirionedd yn creu lleoedd gwell?**

Yn hanesyddol, byddai lleoedd yn tyfu mewn modd mwy organig, wedi'u llywio gan normau a gwybodaeth leol, nes i reolau syml ddechrau ymddangos. Cymerwch y tŷ-teras Fictoraidd, gyda'i resi catrodol o dai deulawr. Deilliodd y ffurf drefol hon o safonau a gyflwynwyd i reoli ansawdd tai newydd yn ystod y Chwyldro Diwydiannol a arweiniodd at newidiadau i led strydoedd, uchder adeiladau, golau ddydd, ac awyru. Ymateb dylunio i'r gofyniad i bob stafell fod â ffenestr oedd patrwm 'dannedd llif' cefnau'r tai teras hyn. Nid oedd y safonau'n pennu sut y dylid dylunio'r tai, ond llwyddasant nid yn unig i wella'r amodau tai, ond hefyd i greu ffurf drefol gryno gydag adeiladau isel o ddwysedd uchel a rhwydwaith hydraidd o strydoedd.

## CARTREFI ADDAS I ARWYR

Yn yr un modd, wedi'r Rhyfel Byd Cyntaf, cyflwynwyd safonau tai newydd i ddarparu 'cartrefi addas i arwyr.' Arweiniodd y safonau at dŷ pâr bas, ehangach a oedd yn caniatáu mwy o heulwen ym mhob stafell, gyda gerddi blaen a chefn hael, ar hyd rhodfeydd a chlosydd mewn arddull debycach i'r 'ddinas erddi'. Roedd y safonau newydd yn gwneud synnwyr perffaith wrth greu cartrefi goleuach ac amgylchedd gwyrddach, ond y canlyniad anfwriadol oedd trawsnewid y ffurf drefol gryno a grëwyd gan oes Fictoria yn flerdwf maestrefol dwysedd-isel.

Gwelodd y 100 mlynedd dilynol lawer o safonau sydd wedi effeithio'n sylweddol ar ffurf drefol y lle rydym yn byw. Roedd y canllawiau dylunio priffyrdd, ***Design Bullietin 32*** (DB32) a'r safonau Awdurdod Priffyrdd lleol (a luniwyd i ymdrin â thwf perchnogaeth ceir) a ddeilliodd o hynny yn arbennig o ddylanwadol. Arweiniodd DB32 at ddatblygu ffyrdd pengaead oddi ar ffyrdd dosbarthu ysgubol, gan waethygu problemau blerdwf maestrefol, gyda phellteroedd hyd yn oed yn hwy i bobl eu cerdded i unman.

Os llamwn ymlaen at y presennol, mae



*Eithriadau yn hytrach na'r norm yw enghreifftiau o ddylunio da fel Marmalade Lane, Caergrawnt (y dudalen hon), The Mailings yn Newcastle (drosodd) a Goldsmith Street, Norwich (y dudalen olaf)*

gennym bellach nifer bythol-gynyddol o safonau. Mae safonau lleiafswm yn y Rheoliadau Adeiladu, safonau sy'n cefnogi polisi cynllunio, safonau priffyrdd sy'n rheoli cynllun strydoedd, safonau ar gyfer teithio llesol, safonau ar gyfer systemau draenio cynaliadwy (SDCau), safonau yn Secured by Design, safonau ar gyfer tai cymdeithasol newydd yn y Gofynion Ansawdd Datblygu (DQR), ac ati.

## GWNEUD SYNNWYR PERFFAITH

Mae'r holl safonau hyn yn gwneud synnwyr perffaith ynddyn nhw'u hunain. Pwy fyddai'n anghytuno â bod â'n tai yn ddigon pell oddi wrth ein cymdogion i gael preifatrwydd, pawb â gardd o faint da, pobl yn parcio'u ceir wrth eu tŷ, strydoedd digon llydan i gerbydau allu pasio'n hawdd heb fod angen stopio, casglwyr sbwriel yn gallu casglu'n sbwriel yn rhwydd, pobl â lle i wely ac ambell gelficyn yn eu llofft, tai â ffensys o amgylch eu gerddi i atal pobl rhag dringo drosodd, dŵr glaw yn draenio'n naturiol, a strydoedd â lonydd beicio fel y gall pobl seiclo'n ddiogel? Pethau da, bob un, yntê? Ac eto, wedi bodloni'r holl wahanol safonau, y canlyniad yw'r datblygiadau o ansawdd wael (yn bennaf) a welwn bellach yn cael eu hadeiladu yng Nghymru a gweddill y DU.

Peidiwch â 'nghamddeall i, mae enghreifftiau da o hyd o dai newydd a mathau eraill o ddatblygu, fel ***The Mailings*** yn Newcastle a ***Marmalade Lane*** yng Nghaergrawnt, ond eithriadau yw'r rhain, er gwaethaf, ac nid o ganlyniad i, safonau, fel arfer. Felly pam nad yw safonau y bwriedir iddynt wella ansawdd datblygiadau newydd yn gweithio?

Ar lefel polisi, dylem wybod y gall (ac fel arfer y gwna) safonau greu canlyniadau anfwriadol. Mae llawer o'r gofynion uchod yn cyfrannu at y prif fodel datblygu, sef tai maestrefol dwysedd-isel,nid o fwriad ond fel canlyniad anfwriadol i'r rhan fwyaf o safonau sy'n gofyn am fwyfwy o le. Mae datblygu dwysedd-isel yn ei gwneud hi'n anodd cynnal trafnidiaeth gyhoeddus a chyfleusterau lleol yn ymarferol gan nad oes digon o gwsmeriaid. O ganlyniad, mae datblygiadau newydd yn rhy aml yn ddibynnol ar geir ac yn brin o weithgaredd ac ymdeimlad o gymuned.

Rhan o'r her yw bod safonau'n cael eu datblygu ar wahân gan wahanol broffesiynau ac adrannau. Does dim digon o ystyried sut mae'r safonau

*The Mailings yn Newcastle*



amrywiol yn gweithio gyda'i gilydd (neu beidio) a beth fydd eu cyd-effaith ar y ffurf drefol a'r lle ehangach. Gall y safonau hefyd fod yn gul eu ffocws ac yn ceisio rheoli manylion. Mae safonau hefyd yn cael eu datblygu'n genedlaethol fel rheol, neu'n deillio o safonau cenedlaethol, heb adlewyrchu amodau safle-benodol a lleol yn llawn. Gall safonau anwybyddu natur lleoliad, ei safle a'i dopograffeg.

## MAN CYCHWYN DATBLYGU

Yn ymarferol, gellir dilyn safonau yn slafaidd ac ânt yn fan cychwyn ar gyfer datblygu. Defnyddir mathau o dai a chynlluniau strydoedd safonol heb ystyried y safle a'i gyd-destun, gan y gŵyr y datblygwyr eu bod yn bodloni safonau'r DQR a'r Awdurdod Priffyrdd. Ond mae hyn yn llesteirio'r broses ddylunio a gall arwain at ddatblygiadau di-enaid, â chysylltiadau gwael, a allai fod yn unrhyw le. Mae dylunio rhagorol, cydgysylltiedig yn hanfodol er osgoi'r canlyniadau hyn.

Gall dylunio da wedi'i gydlynu'n gelfydd gan dîm dylunio medrus weithio o fewn y system gyfredol a chreu lleoedd gwych sy'n ymateb i'w cyd-destun ac sydd ag ymdeimlad o le. Fodd bynnag, mae hyn yn mynnu ymateb gwahanol i safonau, ymateb creadigol sydd, lle bo angen, yn herio safonau.

Un enghraifft yw datblygiad tai cyngor ***Goldsmith Street*** yn Norwich. Enillodd y cynllun hwn Wobr Stirling RIBA er ymddangos fel datblygiad syml o dai teras, nid yn annhebyg i'r hyn a adeiladwyd gan y Fictoriaid. Eto, llwyddodd y dylunwyr i greu tai teras traddodiadol ar gyfer yr oes fodern, er gwaetha'r safonau sy'n atal hyn fel arfer, sy'n gwneud cynllun Goldsmith Street mor unigryw.

Mae tai teras yn ffordd wych o greu tai dwysedd-uchel ag adeiladau

isel. Mae gan dai teras hefyd ffurf ardderchog a helpodd i ennill ardystiad Passivhaus llawn yn fforddiadwy. Roedd angen dylunio da, gyda strydoedd dwyrain/gorllewin, toeau wedi'u modelu, a chynlluniau mewnol gwahanol er mwyn elwa ar wres yr haul. Roedd y pellter o 14m rhwng cefnau tai yn herio'r confensiwn cynllunio bod angen 21m fel arfer ar gyfer preifatrwydd. Yn yr un modd, roedd y strydoedd cymharol gul a cheir wedi eu parcio arnynt yn herio norm safonau'r Awdurdod Priffyrdd ond yn creu strydoedd deniadol, dymunol i gerddwyr. Cymerodd ragoriaeth mewn dylunio a chleient ymroddgar a gwybodus i gyflawni hyn.

## FFORDD AMGEN O FYND ATI

Mae Siarter Creu Lleoedd Cymru ffordd amgen o drafod safonau, gan ddefnyddio egwyddorion i ddatgelu'r cynhwysion sy'n helpu i greu lleoedd da. Mae'r siarter yn defnyddio dull lefel-uchel, egwyddorol ei sail o fynd ati, offeryn systemig sy'n hwyluso creu lleoedd gwell yn hytrach na gorfodi terfynau cul.

Ar lefel leol, mae codau dylunio – set o reolau sy'n tywys datblygiad safle neu le – yn fath o safonau a all, o'u hystyried yn ofalus, roi ffurf bositif i dwf a galluogi dylunio da. Does dim angen i godau dylunio ragnodi pensaernïaeth yr adeiladau, y deunyddiau, na'r driniaeth weddluniol. Yn hytrach, gallant sefydlu amlen y mae'n rhaid i adeiladau ffitio iddi o ran eu lleoliad, uchder a chyfeiriadedd. Gyda set syml o reolau, gall cod dylunio ddylanwadu ar y ffurf drefol, dwysedd y datblygiad, ac ansawdd mannau cyhoeddus ond gan roi rhyddid i ddatblygwyr a'u dylunwyr gyda dyluniad a manylion yr adeiladau, yn ogystal â helpu i dywys datblygiadau graddfa-fach a hunan-adeiladu.

Trwy ddefnyddio rheolau syml, gall codau dylunio helpu i greu lleoedd graenus, cyfoethog ac amrywiol ond rhaid sicrhau bod y bobl sy'n 'gorfodi' a chynnal y safonau yn wybodus ac â'r gallu i benderfynu a'u bodlonwyd neu a oes cyfiawnhad dros wyro oddi wrthynt.

Mae safonau'n chwarae rhan mewn llywio datblygiad. Fodd bynnag, byddwn yn estyn amdanynt fel ateb i bob problem, ac mae'n bosibl bod gennym bellach ormod o safonau a all, gyda'i gilydd, arwain at ganlyniadau annymunol. Ni fyddai rhai o'n lleoedd hanesyddol gorau yn cwrdd â'r rhan fwyaf o safonau modern, ac eto dyma rai o'r lleoedd mwyaf bywiog, deniadol a llwyddiannus i fyw ynddynt. Gellir dadlau y gallai set symlach, systemig o safonau, a ddatblygwyd ag arbenigedd dylunio strategol, wedi'u llywio gan gynsail cyfoes perthnasol helpu i hwyluso gwell dylunio a chreu lleoedd mwy diddorol ac amrywiol sy'n goroesi a gadael gwaddol gadarnhaol.

**Mae Max Hampton yn gynghorydd dylunio gyda Chomisiwn Dylunio Cymru. Yn gynllunydd tref siartredig, bu'n gweithio'n flaenorol i Lywodraeth Cymru ar ddatblygu polisi cynllunio cenedlaethol a chanllawiau ar ddylunio, adeiladau cynaliadwy, trafnidiaeth ac ynni adnewyddadwy. Chwaraeodd ran bwysig mewn rhoi creu lleoedd wrth galon Polisi Cynllunio Cymru a gweithiodd gyda'r Comisiwn Dylunio i ddatblygu'r Siarter Creu Lleoedd. Yn fwyaf diweddar, bu'n gweithio i Gyngor Caerdydd yn rheoli prosiectau dylunio a chynllunio datblygiadau tai.**



*Goldsmith Street yn Norwich*

*Llun © Tim Crocker/RIBA*

# CWESTIWN O SGILIAU

Cyn cyhoeddi'r Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) ddiweddaraf, gofynnodd Cartrefi Cymunedol Cymru Un Cwestiwn Mawr i arweinwyr y sector tai cymdeithasol: er mwyn cyrraedd y safonau uchelgeisiol yn SATC 2023, pa gamau hanfodol rhaid i landlordiaid cymdeithasol Cymru eu cymryd i recriwtio ac uwchsgilio digon o staff?



**Alan Brunt, prif weithredydd Tai Cymunedol Bron Afon, aelod o fwrdd Cartrefi Cymunedol Cymru a Chynghrair Sylfaenol Cymru:**

'Os mai SATC 2023 yw'r llwybr tuag at fynd yn "hynafiaid da"(chwedl Andrew Van Doorn o HACT), yna mae problem sgiliau yn rhwystr i'w oresgyn. Mae'n gwestiwn o bwys cynyddol i Fron Afon a'n cymheiriaid yn y sector, yn enwedig y sefydliadau hynny sydd â gweithlu uniongyrchol. Mae hefyd yn bwnc trafod cyson o fewn Cartrefi Cymunedol Cymru a Chynghrair Sylfaenol Cymru, ond dydy'r atebion ddim yn rhai syml.

'Credwn mai'r ffordd orau o ymdrin â newydd-ddyfodiaid i'r gweithlu yw cydweithio ochr yn ochr â Choleg Gwent ar gynnwys rhaglenni prentisiaeth yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n gallu i addasu cyrsiau wedi'i lesterio gan fecanwaith ariannu sy'n gweithredu ar lefel genedlaethol a'r pwyslais ar ateb y galw presennol heb fawr ddim hyblygrwydd i ragweld anghenion y dyfodol. Felly mae angen sgwrs ar lefel genedlaethol hefyd i gefnogi atebion lleol eu sail. Carwn weld mwy o ffocws ar gyd-brentisiaethau â'r gallu i ddewis a chymysgu unedau, sy'n caniatáu i unigolion arbenigo mewn meysydd penodol, ond â sylfaen graidd mewn crefft gydnabyddedig.

'I'm tyb i, mae SATC 2023 yn gyfle gwych i dreialu hyn yn y sector tai cymdeithasol, ond byddai gofyn i ni gychwyn arni nawr er mwyn gallu gweld y buddiannau tuag at ail hanner y rhaglen.'

**Darren Hatton, pennaeth grŵp safonau tai, newid hinsawdd a materion gwledig Llywodraeth Cymru:**

'Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Adran Economi a Sgiliau Llywodraeth Cymru ynghyd â chyrff y diwydiant fel Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu a Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr i asesu sgiliau ac anghenion cadwyn gyflenwi cynhyrchion a gwasanaethau.

'Arweniodd hyn at gyhoeddi *Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net Cymru* fis Chwefror eleni. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn edrych ar wyth sector allyriadau, yn cynnwys adeiladau preswyl.

'Cam nesaf y gwaith hwn fydd ymgynghoriad sgiliau ledled y sector, a fydd yn canfod gofynion sgiliau sector-benodol, a disgwylir i hyn gychwyn ym mis Medi 2023. Bydd yr ymgynghoriad yn disgrifio'r sefyllfa sgiliau bresennol ar gyfer pob sector, y sgiliau sydd eu hangen yn y tymor byr, canolig a hwy, a sut y byddwn yn cyflenwi'r rhain. Bydd hyn yn arwain at gynllun sgiliau sector a chyfnod gweithredu. Mae'n amlwg bod y safon newydd yn cynnig cyfleoedd sylweddol i gadwyni cyflenwi cynhyrchion a gwasanaethau Cymru ddatblygu cymuned sgiliau ag achrediad TrustMark a chymhwyster PAS 20235 yng Nghymru.'



**Elly Lock, pennaeth polisi a materion allanol Cartrefi Cymunedol Cymru:**

'Mae'r SATC arfaethedig yn safon uchelgeisiol, ond mae cymdeithasau tai yn gwbl ymroddedig i weithio tuag at gyflawni hyn.

'Er mwyn gwneud gallu cyrraedd y nodau hyn yn fwy realistig, mae ar y sector tai cymdeithasol angen buddsoddiad a chymorth brys gan y llywodraeth i greu'r gweithlu medrus iawn sydd ei angen. Mae cymdeithasau tai wedi ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth Cymru i helpu i greu strategaeth sgiliau a fydd yn sicrhau y caiff gweithwyr eu recriwtio a'u hyfforddi'n ddigonol i helpu i ddarparu cartrefi mwy cynaliadwy.

Llun: CITB



'Mae eu hymdrech i arwain o ran meithrin sgiliau gwyrdd yn golygu bod cymdeithasau tai yn buddsoddi mewn pobl a chymunedau lleol hefyd er mwyn creu Cymru'r dyfodol. Yng ngogledd Cymru, er enghraifft, mae cymdeithas tai Adra yn arwain *partneriaeth ddatgarboneiddio* sy'n dod â hyfforddiant, sgiliau a swyddi i'r gymuned leol wrth geisio ffyrdd o ddatgarboneiddio cartrefi. Y math yma o feddwl arloesol, ynghyd â chymorth hanfodol y llywodraeth a phartneriaethau gwaith, a fydd yn galluogi landlordiaid cymdeithasol i recriwtio a chadw'r gweithlu sydd arnynt ei angen.'

**Malcolm Davies, uwch-reolwr rhaglenni/datgarboneiddio tai, Llywodraeth Cymru:**

'Mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau darlun clir o'r gwir angen fel y gellir cyfeirio'r cyllid priodol ato, er bod a wnelo hyn nid yn unig â'r sefyllfa gyfredol, ond yr holl waith rheoli asedau, cynllunio a gweinyddu cysylltiedig.

'Mae yma gyfle pwysig i'r rhai sy'n chwilio am swydd newydd, neu am ymddeol, i aros yn y maes a mynd yn hyfforddwyr – y bydd mawr angen amdanynt ar fyrder. Mae cynllunio ar gyfer yr olyniaeth a chysylltu â phobl ifanc 10 i 21 oed a'u gwneud yn ymwybodol o'r amrywiaeth enfawr o yrfaoedd sydd ar gael ar draws yr holl gadwyn gyflenwi – adeiladu , dylunio, gwyddoniaeth, ymchwil cynnyrch, gweinyddu, digidol a'r sectorau cyfleustodau – yn hanfodol hefyd.'



# Mae'n bryd buddsoddi mewn datgarboneiddio

**Mae'r dirwedd ariannu ar gyfer SATC 2023 yn groes i amserlen ein huchelgais, medd Cerys Clark**

**Yn ôl adroddiadau diweddar yn y cyfryngau, gwelodd 2023 nifer digynsail o ddyddiau pan oedd tymheredd y byd o leiaf 1.5°C yn uwch ar gyfartaledd na lefelau cyn-ddiwydiannol. Ac eto mae aros o dan y trothwy hwn yn hanfodol er mwyn osgoi effeithiau niweidiol y newid yn yr hinsawdd.**

Datganodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd yn 2019 gan ymrwymo i gael tai cymdeithasol i lawr i sero net erbyn 2030. Costau ynni fu'r sbardun unigol mwyaf i'r argyfwng costau-byw, yn enwedig i denantiaid ar incwm isel sy'n byw mewn tai tanwydd-dlawd neu dai cymdeithasol. Y ffordd orau o'u hamddiffyn rhag costau ynni cynyddol yn y dyfodol yw insiwleiddio'u cartrefi a darparu ffynonellau ynni rhatach.

## SAFONAU TERFYNOL

Mae'r themâu deuol hyn yn rhan allweddol o safonau newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer SATC 2023 y mae rhan ohono'n canolbwyntio ar ddatgarboneiddio'r stoc tai presennol. Yn dilyn cyfnod ymgynghori maith gyda'r sector tai a rhanddeiliaid perthnasol, mae'r safonau terfynol bellach wedi'u cyhoeddi. Ynddynt mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pryderon a godwyd gan ddarparwyr tai cymdeithasol ynghylch yr amserlenni ar gyfer cyrraedd targedau datgarboneiddio a sero net. Canlyniad hyn yw set o safonau sy'n cynnig mwy o hyblygrwydd i landlordiaid wrth gyflawni targedau datgarboneiddio gan ddefnyddio dull cynlluniedig o fynd ati.

Gofynnodd darparwyr tai cymdeithasol hefyd am eglurhad ar lefel y cyllid a ddyrennir ar gyfer cyrraedd y safon newydd. Ar hyn o bryd does dim unrhyw arwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ychwanegol i dai cymdeithasol er mwyn cyrraedd y safonau newydd hyn. Yr unig gyllid a nodir yw cyllid presennol y Rhaglen Ôl-ffitio Optimeiddiedig o £70 miliwn yn 2023/24 a swm dangosol o £70

Chartered Institute of Housing Cymru

miliwn ar gyfer 2024/25. Ac eto, barnodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol fod cyfanswm y buddsoddiad sydd ei angen i ôl-ffitio ein stoc tai cymdeithasol erbyn 2030 yn £5.5 biliwn (y dylai £1.7 biliwn ohono ddod oddi wrth Lywodraeth Cymru). Mae hyn yn llawer uwch na lefel y cyllid dangosol oddi wrth Lywodraeth Cymru.

Rhaid i ddarparwyr tai cymdeithasol eisoes ymdopi â thoriadau termau-real i'w cyllidebau o achos pwysau chwyddiant parhaus. Er eu hymrwymiad i ddatgarboneiddio'u stoc a symud i sero net, bydd angen mwy o gyllid i gefnogi darparwyr tai cymdeithasol i gyrraedd y safonau'r SATC newydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan y bydd ei ffordd newydd gynlluniedig o weithredu'r safonau hyn yn helpu i liniaru rhai o'r problemau ariannu a bydd yn gweithio gyda landlordiaid i archwilio ffynonellau cyllido yn y blynyddoedd i ddod. Ac eto rhaid ystyried tegwch y ffordd newydd arfaethedig o fynd ati.

## BUDDSODDIAD SYLWEDDOL

Bydd angen dyrchafu pob eiddo i safon EPC C erbyn 2030, ac i EPC A rywbryd yn y dyfodol, i'w benderfynu gan ddarparwyr tai cymdeithasol unigol. Mae rhai landlordiaid eisoes yn cyrraedd y targedau ac yn debygol o gyrraedd EPC A yn y tymor byr i ganolig. Bydd angen buddsoddi sylweddol ar eraill i ddod â'u tai i fyny at EPC C yn y tymor hir – a buddsoddi ar lefel uwch nag yr ymrwymwyd iddo ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru. Gallai hyn adael rhai tenantiaid tai cymdeithasol mewn eiddo llai ynni-effeithlon nag eraill yn ardal eu hawdurdod lleol, gan arwain at system dai sy'n achosi parhad prif effaith cartrefi aneffeithlon sef tlodi tanwydd.

Er mwyn sicrhau bod cartref ynni effeithlon o fewn cyrraedd i bawb yng Nghymru ac i geisio dileu tlodi tanwydd, bydd arnom angen buddsoddiad mwy gan Lywodraeth Cymru. Fel yr amlinellwyd gan gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, bydd buddsoddi mewn datgarboneiddio ein tai yng Nghymru yn cynyddu ein CMC o £19.32 biliwn a chreu mwy o swyddi.

Felly, gyda'r lefelau cynhesu digynsail yn 2023 a darogan cynhesu pellach yn 2024, nawr yw'r amser i weithredu. Fel sector yng Nghymru, rydym yn rhannu uchelgais y gweinidog i ddod â thlodi tanwydd i ben ac i ddatgarboneiddio ein stoc tai, ac rydym yn fwy na pharod i weithio gyda'r llywodraeth ar hyblygrwydd cyllido ond ni ddylem anwybyddu'r realiti. Dim ond 2.2 y cant ar gyfartaledd fu'r dyraniad blynyddol ar gyfer tai gan Lywodraeth Cymru er 2006. A yw hynny'n wir adlewyrchiad o natur yr argyfwng tai sy'n ein hwynebu a lefel y buddsoddiad sydd ei angen i gyflawni ein cyd-uchelgais o dai mwy cynaliadwy a fforddiadwy ar gyfer pawb yng Nghymru?

Mae angen inni sicrhau bod lefel y buddsoddi mewn datgarboneiddio yng Nghymru yn gwireddu'n huchelgais o fod yn genedl sero-net erbyn 2050. Rhaid i ni wneud tai yn genhadaeth sylfaenol i'r llywodraeth a'i ariannu'n unol â hynny.

**Cerys Clark yw rheolydd polisi a materion cyhoeddus CIH Cymru**





# Tri mochyn bach aeth i’r farchnad

Altair

**Spencer Hill yn adrodd dameg am feddwl yn fasnachol**

**Yn aml fe wna sefydliadau gryn ymdrech i adweithio i rywbeth neu ei drwsio heb ei olrhain yn ôl i’w wraidd mewn perthynas â chyflenwr, rheolaeth ar gontractau, caffael, neu strategaeth fasnachol. Oddi yno y mae’n tarddu bob amser, i ryw raddau, a dyna lle y gellid bod wedi ei osgoi neu ei liniaru cyn i bethau droi’n anodd.**

Gellir amlygu hyn drwy stori’r Tri Mochyn Bach, y ddameg adnabyddus honno ynglŷn â meddwl yn fasnachol yn y sector tai.

Roedd angen rhywle i fyw ar y tri mochyn. Gyda’r angen wedi’i nodi a’r canlyniad wedi’i bennu, dyma ddechrau ystyried cyllidebau, p’run ai i wneud y gwaith eu hunain neu ei roi i gorff allanol, a oedd angen ymgynghori ag unrhyw randdeiliaid, sut i sicrhau cynaliadwyedd, darganfod unrhyw risg ac ystyried deunyddiau adeiladu. Efallai eu bod hyd yn oed wedi mynd mor bell ag ystyried sut i fesur llwyddiant a chostau oes-gyfan cynnal a chadw’r cartrefi.

## Y MOCHYN CYNTAF

Roedd y mochyn cyntaf yn poeni’n fawr am yr amgylchedd, ac felly’n blaenoriaethu cynaliadwyedd, ac ac am gadw costau’n isel. Penderfynodd ar ddeunyddiau adnewyddadwy a dewis gwellt i adeiladu ei dŷ. Roedd yn cydnabod y byddai hyn yn golygu cynnal a chadw rheolaidd ond methodd ystyried pwysigrwydd y cynnal a chadw na chost hynny, na natur dymhorol gwellt gan nad oedd wedi gwneud ymchwil marchnad digonol. Yn bwysicaf oll, methodd ystyried peryglon defnyddio gwellt ac, i dorri costau ymhellach, penderfynodd ei adeiladu ei hunan. Y canlyniad oedd tŷ y gallai’r Blaidd Mawr Drwg ei chwythu i lawr yn hawdd, felly er bod y costau’n isel a’r tŷ yn gynaliadwy, doedd y canlyniad terfynol ddim yn dda. Dihangodd y mochyn i dŷ pren ei gymydog.

## YR AIL FOCHYN

Pren oedd dewis yr ail fochyn. Gan benderfynu bod y gwaith adeiladu y tu hwnt i’w allu technegol, fe’i rhoddodd i gorff allanol. Mae bydoedd straeon tylwyth teg yn goediog iawn fel arfer, felly gwyddai’r mochyn y dylai fod digonedd o goed ar gael, ac er gwaetha’r costau cynnal a chadw, dylai prisiau fod yn isel. Roedd cost y deunyddiau’n isel, a dewisodd y mochyn yr adeiladwr rhataf y gallai ddod o hyd iddo, gan seilio’r gystadleuaeth ar bris yn unig, yn hytrach na defnyddio gofal rhesymol. *Gobeithiai* y byddai’r pren o ffynonellau lleol ac adnewyddadwy, wedi ei ddylunio’n gadarn i allu gwrthsefyll yr elfennau. Ond



ni *ddynododd* hynny yn benodol, felly, i gadw’i brisiau i lawr, prynodd y cyflenwr y deunyddiau rhataf y gallai eu darganfod a chodi’r tŷ cyn gyflymed â phosib.

Yn y pen draw, heb gontract wedi’i lofnodi na gwarant, fe aeth pethau’n draed moch ar y mochyn! Y canlyniad oedd tŷ arall na fuodd y Blaidd Mawr Drwg chwinciad yn ei ddinistrio gyda hwff a phwff, ac unwaith eto, roedd y mochyn nôl i sgwâr un gyda’r gyllideb wedi ei gwario, dim tŷ a dim gallu i herio’r cyflenwr a oedd wedi darparu’r hyn y gofynnwyd amdano. Ffôdd y ddau i dŷ brics eu cymydog.

## Y TRYDYDD MOCHYN

Felly, mae’r tri mochyn bellach yn nhŷ brics y trydydd mochyn. Ystyriodd y mochyn yma y broses gaffael yn ofalus a phwyso a mesur y risg yn drylwyr. Gwyddai y byddai’r Blaidd Mawr Drwg yn dod i alw a bod hynny’n ystyriaeth. Gwnaeth ei ymchwil, gwyliodd y farchnad ac ymarweddu yn unol â hynny. Roedd ei achos busnes yn drylwyr ac yn ystyried y gost o adeiladu a chynnal a chadw. Roedd wedi nodi a lliniaru pob risg, gan gynnwys yr holl randdeiliaid angenrheidiol, a hyd yn oed wedi ystyried cynaliadwyedd trwy sicrhau bod dulliau a systemau adeiladu priodol yn rhan o’r fanyleb. Roedd dewis y cyflenwyr iawn drwy ymchwilio â gofal rhesymol i’r gadwyn gyflenwi ar gyfer y prosiect yn sicrhau ei fod yn bodloni ei fanyleb, gan alluogi’r mochyn i sicrhau bod ganddo warant a pherthynas barhaus â’i ddewis gyflenwyr.

Y canlyniad yw tŷ na ellid ei chwythu i lawr, gan orfodi’r Blaidd Mawr Drwg i droi at lwybr mynediad llai confensiynol a chwympo ar ei ben i’r crochan coginio. Mae’n ffaith bod moch yn fodlon bwyta unrhyw beth.

Moeswers y stori hon yw bod yna lawer o Fleiddiaid Mawr Drwg o gwmpas. Daw rhai ar ffurf rheoliadau, eraill ar ffurf rhanddeiliaid a anwybyddir, ac eraill ar ffurf trychinebau (naturiol, economaidd ac ati), contractau sy’n perfformio’n wael, diffyg prosesau a gofal rhesymol, a chostau sy’n codi i’r entrychion. Drwy fynd ati mewn ffordd fwy eang ei chwmpas o’r cychwyn cyntaf a chynnwys rhywfaint o feddylfryd masnachol yn y broses, gellir lleihau’r risg yn sylweddol, a gall canlyniadau’r prosiect fod yn rhai sicr a phellgyrhaeddol. Felly, y tro nesaf yr â rhywbeth o’i le, ystyriwch wreiddiau masnachol yr argyfwng ac ystyriwch beth y gellwch ei wneud yn wahanol y tro nesaf i’w osgoi.

**Spencer Hill yw cyfarwyddydd gwasanaethau masnachol Altair Cyf, e-bost: *spencer.hill@altairltd.co.uk* ffôn: 07471 314326**



James A Molnar via Unsplash







# LLE DIOGEL I FOD YN FI

Rebecca Mollart, Ceri Molloy a Siân Evans yn nodi sut y gellir defnyddio data a chyfathrebu i hyrwyddo cynhwysiant a llesiant ar gyfer pobl LGBTQ+ hŷn

**Mae Canllaw Arfer Da erosh ar Bobl LGBTQ+ Hŷn a Thai Gwarchod ac Ymddeol (a gynhyrchwyd mewn partneriaeth â Tai Pawb a Trivallis) wedi codi ymwybyddiaeth o'r anawsterau a wynebir gan bobl LGBTQ+ hŷn wrth gael mynediad i lety LGBTQ+ arbenigol ac o ran gallu byw eu dewis fywyd mewn mannau eraill fel cynlluniau tai gwarchod ac ymddeol heb ddioddef homoffobia, bwlio, aflonyddu a gwahaniaethu.**

Tanlinellwyd y ffaith fod pobl LGBTQ+ hŷn, o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol:

- Yn fwy tebygol o fod yn sengl, yn byw ar eu pen eu hunain, yn unig a/neu wedi eu hynysu'n gymdeithasol.
- Yn llai tebygol o fod â phlant neu weld aelodau o'r teulu yn rheolaidd.
- Yn yfed alcohol yn amlach neu'n cymryd cyffuriau.
- Yn fwy tebygol o fod â hanes o salwch meddwl neu brofi iselder a phryder.
- Yn fwy tebygol o ddibynnu ar wasanaethau iechyd a gofal.

Darparwyd cyngor ymarferol ar sut y gall darparwyr tai fynd ati'n rhagweithiol i gefnogi pobl LGBTQ+ hŷn a datblygu diwylliant positif a chynhwysol trwy'r holl sefydliad. Edrychwyd hefyd ar rôl staff rheng flaen o ran sicrhau bod prosesau ac arfer yn gynhwysol ac yn anwahaniaethol, a herio ac ymateb i enghreifftiau o homoffobia, gwahaniaethu, bwlio ac aflonyddu

Mewn erthygl ar gyfer WHQ yn 2019, cyfeiriwyd at bwysigrwydd monitro pa mor gynwysedig y teimlai pobl LGBTQ+ hŷn mewn cynlluniau gwarchod ac ymddeol. Cyfeiriwyd at ddiffyg tystiolaeth amdanynt (yn enwedig pobl hŷn traws) a'u hanghenion ac anogwyd darparwyr i wneud monitro yn rhan o'r broses broffilio cwsmeriaid gyfredol. Mae deall pobl LGBTQ+ hŷn a'u hanghenion yn helpu i sicrhau y cânt y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, y penderfynir ar sail wybodus, na chaiff anghydraddold ei atgyfnerthu, a bod rhwystrau i fynediad at wasanaethau a chymorth yn cael eu dileu. Mae hyn yn hanfodol i feithrin ymddiriedaeth pobl LGBTQ+ hŷn a'u cefnogi.

Yn ein harolwg yn 2022 canfuom fod:

- 45 y cant o'r ymatebwyr yn monitro nifer y bobl LGBTQ+ ymhlith yr holl denantiaid a defnyddwyr gwasanaeth, ac ni wyddai nifer sylweddol a oedd eu sefydliad yn gwneud ai peidio.
- 25 y cant o ymatebwyr yn monitro unigolion LGBTQ+ ymhlith *pobl hŷn*.
- 5 y cant o ymatebwyr yn monitro unigolion LGBTQ+ ymhlith preswylwyr tai gwarchod a thai ymddeol.
- 39 y cant o ymatebwyr heb fod yn gwybod a oedd monitro'n digwydd ai peidio.

## BETH, PRYD A SUT?

Fel darparwr tai, sut ydych chi'n gwybod beth, pryd a sut i fonitro? Y peth pwysicaf y gallwch chi ei wneud yw gwrando ar unigolion eu hunain. Sut maen *nhw'n* disgrifio eu hunain? Gan gadw categorïau'r Swyddfa Ystadegau gwladol a'r comisiwn cydraddoldeb a hawliau dynol mewn cof, man cychwyn defnyddiol yw cyhoeddiad rhagorol y Sefydliad LGBT, ***Good Practice Guide to Monitoring Sexual Orientation and Trans Status***.

Mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o ddarparwyr yn monitro anghenion pobl LGBTQ+ hŷn fel rhan o'r broses gofrestru a chynllunio cymorth/asesiad risg gychwynnol ac yna drwy brosesau cynllunio cymorth unigol parhaus. Mae llwyddiant hyn yn dibynnu i ba raddau y mae unigolion yn teimlo'n gysurus gyda datgan eu rhywioldeb, a'u hanghenion, hoffterau a phryderon. Mae hyn yn ategu pwysigrwydd creu diwylliant drwy'r holl sefydliad lle bydd pobl LGBTQ+ hŷn yn teimlo'n gysurus gyda bod 'allan' a mynegi eu hanghenion a'u pryderon.

Yn ogystal â'r prosesau cychwynnol hyn, mae'n bwysig monitro statws LGBTQ+ a thrawsrywiol fel rhan o'r broses gysylltu â defnyddwyr gwasanaeth reolaidd ac fel rhan o fonitro boddhad cwsmeriaid a chwynion. Mae'n hanfodol monitro ar adegau gwahanol hefyd gan na fydd pobl efallai am ddatgelu

eu cyfeiriadedd rhywiol wrth symud i mewn neu ddefnyddio gwasanaethau am y tro cyntaf, ond efallai'n fwy cysurus gyda gwneud hynny yn ddiweddarach. Gall cyfeiriadedd rhywiol unigolyn newid hefyd.

## AMRYWIAETH O DDULLIAU

Dangosodd canlyniadau ein harolwg pa mor bwysig yw defnyddio amrywiaeth o ddulliau i weddu i anghenion a dewisiadau unigol. Waeth beth fo'r dull, dylai fod esboniad clir ar gael bob amser ynghylch pam mae'r wybodaeth yn cael ei chasglu a sut y diogelir cyfrinachedd. Wrth gwrs, ni ddylid gadael data a gesglir ar yr e-fersiwn o'r silff lychlyd ond eu ddefnyddio i adeiladu proffil tymor hwy, gan gymharu gwybodaeth o flwyddyn i flwyddyn sy'n edrych ar:

- Pwy sy'n byw mewn llety gwarchod a llety ymddeol neu'n defnyddio gwasanaethau, a sut.
- Gwahaniaethau rhwng unigolion LGBTQ+ yn hytrach na'u trin wedyn fel un grŵp homogenaidd.
- Bylchau, tueddiadau, gwahaniaethau a chymariaethau ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig
- Data ar gyfeiriadedd rhywiol wedi'i groesgyfeirio â gwybodaeth arall e.e. cwynion, cofnodion cynllunio cymorth.
- Cymariaethau â data eraill, er enghraifft, gwybodaeth meincnodi, data iechyd/gwasanaethau cymdeithasol, data cynghorau lleol.
- Unrhyw newidiadau sylweddol (neu ddiffyg newid).

A phan fydd wedi'i ddadansoddi, dylid defnyddio data i:

- Wneud newidiadau i wasanaethau/darpariaeth neu wella canlyniadau neu ansawdd gwasanaethau.
- Dileu rhwystrau, gwella mynediad a chyfeirio.
- Datblygu a monitro targedau ac amcanion priodol.
- Canfod anghenion hyfforddi.
- Darparu mwy a/neu well gwybodaeth.
- Hyrwyddo arfer cadarnhaol a chynlluniau neu wasanaethau cydnaws â LGBTQ+.

## CYFATHREBU YN HANFODOL

Mae cyfathrebu â phreswylwyr ynghylch monitro yn hanfodol ond gall fod yn heriol gan ei fod yn aml yn codi cwestiynau ynglŷn â phreifatrwydd. Mae rhai pobl yn teimlo'n anghysurus o gael eu holi neu ddarparu gwybodaeth am eu cyfeiriadedd rhywiol, yn poeni am rannu gwybodaeth, ac yn ofni gwahaniaethu annheg os caiff y wybodaeth ei datgelu. Mae'n bwysig felly bod:

- Preswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn deall pam y cesglir gwybodaeth a sut y caiff ei dadansoddi, ar gyfer beth y caiff ei defnyddio a phwy fydd â mynediad iddi, a sut y'i diogelir yn unol â'r gyfraith ac arfer da.
- Darparwyr yn egluro, gydag enghreifftiau, sut y defnyddiwyd data monitro i wella gwasanaethau a sut y bydd o fudd i drigolion a defnyddwyr gwasanaeth – yr effaith.
- Caiff monitro cyfeiriadedd rhywiol a statws traws ei gynnwys gyda monitro safonol arall mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig eraill gan ddefnyddio'r un dulliau casglu. Mae hyn yn helpu i ategu'r ffaith ei fod yn gwestiwn arferol a ofynnir fel rhan o brosesau monitro rheolaidd.
- Mae cyfeiriadedd rhywiol a statws traws yn fater o hunan-ddiffiniad a hunan-ddatgeliad. Mae'n bwysig peidio â rhagdybio na gofyn, heb yn wybod i'r unigolyn, i deulu neu ffrindiau ynglŷn â'u cyfeiriadedd rhywiol.
- Dylai fod gan unigolion bob amser yr hawl i beidio â datgelu eu cyfeiriadedd rhywiol na darparu gwybodaeth fonitro.
- Ystyrir sut yr adroddir ar y wybodaeth, er enghraifft, os mai dim ond ychydig o ddata sydd ar gyfeiriadedd rhywiol a statws traws, prin ei fod yn gynrychioliadol a gallai dorri rheolau cyfrinachedd/preifatrwydd.

Bydd ein Canllaw Arfer Da nesaf yn canolbwyntio ar fonitro, casglu a dadansoddi data a chyfathrebu â phreswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth. Byddem wrth ein bodd i glywed am eich profiadau, heriau ac arferion da. Anfonwch y rhain at goodpractice@erosh.co.uk neu cysylltwch â ceri@taipawb.org

**Rebecca Mollart yw prif weithredydd erosh, ceo@erosh.co.uk, Ceri Meloy yw pennaeth busnes Tai Pawb, ceri@taipawb.org, a Siân Evans yw rheolwr Byw'n Dda yn United Welsh, sian.evans@unitedwelsh.com**

## ASTUDIAETH ACHOS: UNITED WELSH

**Mae United Welsh am i'w holl breswylwyr ac ymwelwyr deimlo bod croeso iddynt, y cânt eu cefnogi, ac y gallant fyw yn rhydd ac yn ddiogel. I godi ymwybyddiaeth o'r profiad o fod yn LGBTQ+ ymhlith ei breswylwyr, ac i ddangos cefnogaeth, mae'n gweithredu cynllun a ddechreuodd ym mis Ionawr 2023, sy'n cynnwys:**

- Sesiynau ymwybyddiaeth rhyngweithiol, pwrpasol a redir gan dîm Byw'n Dda ym mhob cynllun tai gwarchod a gofal ychwanegol United Welsh. Dywedodd preswylwyr eu bod wedi mwynhau'r sesiynau a chlywodd United Welsh straeon personol gwych tra'n cynyddu dealltwriaeth ymhlith y grwpiau.
- Arddangos posteri yn llety United Welsh i egluro'r gwahanol gymunedau a gynrychiolir gan faner yr enfys.
- Addewid o gynhwysiad ar gyfer preswylwyr Byw'n Dda, yn cwmpasu pob agwedd ar amrywiaeth, a arddangir yn eiddo United Welsh. Datblygwyd yr addewid a chytunwyd arno gyda'u Fforwm Preswylwyr ac fe'i cynhwysir ar eu tudalen we.
- Baneri enfys ym mhob un o gynlluniau tai gwarchod a gofal ychwanegol United Welsh; bathodynnau crog enfys i staff a rhai arbennig ar gyfer preswylwyr i ddangos cefnogaeth i bobl LGBTQ+.
- Canllawiau wedi'u diweddaru i gefnogi cydweithwyr a theuluoedd pobl LGBTQ+ sy'n byw gyda dementia.


*Baner yr enfys yn Hyb Gofal Ychwanegol United Welsh, Caerffili*



Un o breswylwyr Llys Y Werin, Dennis



# Y DARLUN TECHNEGOL MWY

Mae gwella'r ffordd y caiff technoleg ei defnyddio mewn tai a gofal am bobl hŷn â photensial enfawr i breswylwyr, landlordiaid a'r sector cyfan, medd Vikki Hiscocks

**Mae Dennis yn 90 ac yn byw yn Llys Y Werin, un o wasanaethau gofal ychwanegol Grŵp Pobl yn Abertawe. Mae'n gyn-ffitiwr a fu'n gweithio am flynyddoedd ar fysys a lorïau, ond mae'r gwaith codi trwm a chorfforol wedi gadael ei ôl ac mae ganddo osteoarthritis a nerfau caeth.**

Mae'n cael ei symudedd cyfyngedig yn rhwystred – mae'n gwneud tasgau bob dydd yn anodd, rhywbeth y galwodd gweithwyr gofal Llys y Werin sylw ein tîm technoleg ato. Mae Dennis yn falch o allu ymdopi â thasgau beunyddiol: gwneud y bwyd y mae'n ei hoffi, siopa am yr hyn mae arno ei eisiau a glanhau ei gartref fel y mynn. Mae dewis a rheolaeth yn ganolog i'w lesiant a'i iechyd corfforol a dymunem wneud popeth o fewn ein gallu i gynnal hynny.

Dyma lle daw fy nghyd-weithreg Lynne Whistance, swyddog cynhwysiant a thechnoleg gynorthwyol Pobl, i mewn. Mae Lynne yn angerddol am gefnogi pobl i fod yn annibynnol a byw'r bywydau maen nhw'u heisiau a hefyd yn greadigol iawn ynglŷn â gofal. Hi yw'r cyswllt rhwng ein timau technoleg, gofal, atgyweirio a rheoli tai, ac ers Medi 2022, buom yn gweithio ar brosiect o'r enw TAPPI sydd â dull cydweithredol tebyg o fynd ati.

## TAPPI

Caiff Technoleg ar gyfer ein Poblogaeth sy'n Heneiddio: Panel Arloesedd (TAPPI) ei gyllido gan Ymddiriedolaeth Feddygol Dunhill a'i arwain gan y Rhwydwaith Dysgu a Gwella Tai a Chymdeithas Gwasanaethau TEC. Mae a wnelo â gwella'r ffordd y defnyddir technoleg ym maes tai a gofal am bobl hŷn trwy ddeg egwyddor ymarferol.

Un o'r egwyddorion hynny yw cydgynhyrchu: rhannu pŵer a chyd-benderfynu gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau tai a gofal. Gwyddem y gallai Dennis a chwsmeriaid eraill Llys y Werin elwa ar dechnoleg, ond gwyddem hefyd na fydden nhw eisiau i ddyfeisiau gael eu gorfodi arnyn nhw, wedi eu prynu gan rywun nad oedd efallai'n gyfarwydd â nhw na'u diddordebau.



*Lynne Whistance, swyddog cynhwysiant a thechnoleg gynorthwyol Pobl*

Defnyddir technoleg fel hyn o hyd gan lawer o ddarparwyr tai a gofal yng Nghymru, heb sgyrsiau ystyrlon gyda phobl fel Dennis, sydd eu hunain yn arbenigwyr trwy brofiad.

## DIGIDOL LYTHRENNOG

Mae Dennis yn ddigidol lythrennog – mae ganddo PC a ffôn clyfar – ond mae pilennau'n pylu ei olwg, felly dyw Kindle neu lechen yn dda i ddim. Cerddoriaeth glasurol yw ei ddileit, felly awgrym Lynne oedd seinydd clyfar y gall Dennis ofyn iddo chwarae symffonïau, gwneud ei restr siopa a'i helpu i goginio. Dilynai Lynne egwyddorion parchu dewis, person-ganolog â ffocws ar ganlyniadau TAPPI wrth weithio gyda Dennis ac eraill yn Llys y Werin i ganfod y dechnoleg gywir ar eu cyfer. Ychydig o'r preswylwyr sydd â hyder cyfrifiadurol Dennis, felly roedd egwyddor gynhwysol TAPPI yn allweddol, a buom yn edrych ar ffyrdd o feithrin hyder a sgiliau digidol ymhlith yr holl gwsmeriaid.

Mae Lynne nawr yn edrych ar dechnolegau eraill i gynorthwyo symudedd Dennis ac ymateb i'w anghenion cyfnewidiol. Mae egwyddor addasrwydd TAPPI yn amhrisiadwy yn hyn o beth. Ein nod yw cefnogi Dennis i aros mor annibynnol â phosib, cyhyd â phosib.

Yn wir, dyma'r uchelgais ar gyfer holl gwsmeriaid hŷn Pobl. Fel darparwr tai, gofal a chymorth mwyaf Cymru, rydym eisoes yn defnyddio technoleg yn helaeth, ar draws gwahanol adrannau, mewn amryw ffyrdd. Yn ein gwasanaeth gofal yn unig mae gennym gardiau drws Rhyngrwyd y Pethau (IoT), systemau rota, synwyryddion cwymp, larymau gwddf a llawer, llawer mwy. Ond ysgogodd TAPPI ni i feddwl yn gyfannol am ein darlun technoleg mawr.

Sut y gallwn ni sicrhau bod y gymysgedd o ofal digidol a ddefnyddir gan ein cwsmeriaid, staff a chomisiynwyr yn rhyngweithredol (egwyddor TAPPI arall)? Rydym am ddeall sut y gellid gwella darn o dechnoleg fel synhwyrydd cwymp trwy ei gysylltu â meddalwedd modelu risg sy'n dadansoddi data am symudedd a chwsg a'i gysylltu wedyn â system cynllunio gofal. Gellid trefnu atgyfeiriadau at ffisio, meddyg, therapydd galwedigaethol neu ddosbarth ymarfer corff cymunedol i rai sydd mewn perygl o gwympo – y cwbl yn rhan o ffordd ataliol o fynd ati (egwyddor TAPPI arall).

## Y DARLUN MWY

Ond mae'r darlun technoleg mwy hwn yn ehangach na gwasanaeth gofal Pobl yn unig. Rydym am i'r cyfan fod yn fwy na'r rhannau gyda thechnoleg ar draws ein busnes. Gallai hynny olygu cysylltu data iechyd a gofal â chofnodion perfformiad ynni neu ddarlleniadau synhwyrydd lleithder. Mae'r cysylltiad rhwng cartrefi oer, llaith, â llwydni a phroblemau iechyd yn hysbys. Gallai golwg fwy eang ar anghenion iechyd cwsmeriaid ein helpu i flaenoriaethu gwaith cynnal a chadw ac ôl-ffitio.

Gallem hefyd gysylltu data iechyd a gofal â gwybodaeth am ôl-ddyledion rhent neu fesuryddion ynni rhagdalu. Gall problemau iechyd gynyddu risg bod ar ei hôl hi gyda rhent neu fynd i mewn i dlodi tanwydd a byddai cysylltu'r rhain yn ein helpu drefnu cymorth ataliol.

Mae'r integreiddio hyn yn mynd y tu hwnt i wahanol adrannau Pobl, wrth gwrs. Mae TAPPI wedi gwneud inni feddwl sut y gallwn uno â darparwyr tai, gofal a chymorth eraill, awdurdodau lleol a byrddau iechyd yng Nghymru i gydgysylltu'r defnydd o dechnoleg a data.

Fydd hi ddim yn hawdd. Does gennym ni ddim dull systemedig fel un Lloegr a arweinir gan systemau gofal integredig. Mae lle i Gymru fod yn llawer mwy cydweithredol ac uchelgeisiol o ran digideiddio gyda thai, gofal ac iechyd. Mae sefydliadau yn rhedeg cynlluniau peilot digidol, ond maen nhw'n aml yn ynysig ac yn fyrhoedlog – bratiog yw'n hecosystem data a tec mawr o hyd.


Dwi am symbylu'r sector fel y gallwn feddwl yn fwy cydweithredol am dechnoleg. Bydd gwell integreiddio a rhyngweithredu yn gwella'r broses o gydgysylltu gwasanaethau, gan sicrhau canlyniadau gwell i bobl. Gall wneud gofal yn fwy personol, gan alluogi darparwyr fel Pobl a'n cwsmeriaid i gymysgu a chydweddu technolegau yn ôl angen a dewis.

Bydd bod ag un pwynt mewngofnodi data yn golygu llai o wallau, ond hefyd llai o weithiau y bydd yn rhaid i bobl adrodd eu stori.

Bydd cydgysylltu ein gwaith yn y maes hwn hefyd yn helpu gydag egwyddor TAPPI arall – bod yn gost-effeithiol. Os gall darparwyr gofal a thai gytuno ar fanylebau cyson ar gyfer technoleg gofal, bydd hyn yn ysgogi mwy o gystadleuaeth a mwy o werth. Bydd hefyd yn ysgogiad i goleddu safonau digidol uchel ledled y sector, megis hysbysu cwsmeriaid o'r modd y defnyddir eu data, a sicrhau'n gyffredinol bod ffocws cadarn ar ansawdd – 10fed egwyddor TAPPI, a'r olaf.

Dwi'n llawn cyffro ynglŷn â dyfodol Pobl gyda gofal a hwylusir gan dechnoleg. Bu TAPPI a'i egwyddorion yn gatalydd i drawsnewidiad digidol ar draws y busnes, gan roi ffurf i'n gweledigaeth 10-mlynedd a chynnig ffordd newydd o feddwl am dechnoleg. Ond yn bwysicaf oll, mae'n ein helpu ni i ddechrau gweithio'n gydgynhyrchiol i ddiwallu anghenion ein cwsmeriaid yn well fel y gallant fyw'r bywydau y maent am eu byw.

**Vikki Hiscocks yw pennaeth ymchwil a datblygu Grŵp Pobl. Am ragor o wybodaeth am brosiect TAPPI ewch i *www.housinglin.org.uk/TAPPI***



# NEGESEUON GOBAITH

Alex Osmond yn adrodd ar fewnwelediadau allweddol a thystiolaeth ryngwladol o gynhadledd Tai yn Gyntaf Cymru

**Cynhaliwyd cynhadledd flynyddol Tai yn Gyntaf Cymorth Cymru ym mis Awst. Gwn 'mod i'n rhagfarnllyd, ond roedd gennym restr wych o siaradwyr, oll yn cyfrannu at y sgwrs genedlaethol ynghylch Tai yn Gyntaf. Mawr yw ein dyled iddynt oll, ond carwn nodi rhai negeseuon allweddol yma.**

Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol o'r cyd-destun yng Nghymru. Mae'r sector tai yn mynd trwy newid sylweddol, wrth i bob un ohonom symud i mewn i amgylchedd gwirioneddol ôl-COVID (i'r graddau y mae hyn yn bosib). Ychwaneger agenda drawsnewidiol Llywodraeth Cymru a'r ffocws ar amryw ddulliau o fynd ati gyda thai ar flaen y gad, a newidiadau deddfwriaethol sydd ar fin dod i rym, ac mae'n amlwg ein bod yn wynebu cyfnod ansicr, ond llawn posibiliadau a chyfleoedd. Awgrymodd ein siaradwyr sut y gallai'r potensial hwn ddatblygu.

Trafododd ein siaradwr cyntaf, Nicky Miller, pennaeth digartrefedd ac ataliaeth yn Turning Point Scotland, ei farn ar 'ddull systemau-cyfain', gan bwysleisio na all Tai yn Gyntaf weithredu fel gwasanaeth sy'n rhyw 'ychwanegiad' at system ddigartrefedd, ond bod angen i'r systemau o gwmpas Tai yn Gyntaf newid. 'Does dim drws anghywir' meddai, sy'n golygu, pa lwybr bynnag a gymerir gan bobl i mewn i'r system ddigartrefedd hon, rhaid iddynt dderbyn y cymorth sydd ei angen arnynt. 'Ymateb tai i anghenion iechyd meddwl nas diwallwyd yw Tai yn Gyntaf' nododd Nicky, 'ond dim ond rhan gyntaf hynny yw tai bob amser.'

Daeth yr Athro Tim Aubry, uwch-ymchwilydd ym Mhrifysgol Ottawa, â rhai syniadau tebyg i'r gynhadledd.

## YMYRIAD IECHYD MEDDWL

Roedd sgyrsiau Nicky a Tim ar yr un pwnc – siaradai Nicky o gyd-destun mwy ymarferol, gan fyfyrio ar brofiad maith Turning Point Scotland o ddarparu gwasanaethau, tra bod Tim yn trafod ymchwil ryngwladol – cychwyn a diweddglo gwych i'r diwrnod. Pwysleisient ill dau y ffaith bod Tai yn Gyntaf, yn ei hanfod, yn ymyriad iechyd meddwl, gyda'r cynnig hollbwysig o lety. Eglurodd Tim, pan ofynnid iddynt beth fyddai'n eu helpu fwyaf, fod pobl a fu'n byw ar strydoedd Efrog Newydd yn ystod gaeafau brawychus y 90au yn gwbl glir: 'Cartref.' (Y rhyngweithredu hwn oedd y sail i wasanaethau Tai yn Gyntaf cynharaf y byd.)




I Tim, cwestiwn allweddol i'w ofyn wrth gyflwyno rhywbeth arloesol yw 'sut mae ail-weithio neu ddisodli'r hyn a oedd yn bodoli cyn hyn?' Mynegodd Nicky hyn hefyd, gan nodi y cafodd Tai yn Gyntaf ei gyflwyno yn ffordd 'atodol' y cyfeiriwyd ati yn flaenorol; yn awr, fodd bynnag, mae rhaid ei integreiddio'n wirioneddol yn y system ehangach. Roedd Tai yn Gyntaf, meddai, wedi hybu newid. Gwelsom yr un peth yn digwydd yng Nghymru, lle bu ehangu Tai yn Gyntaf yn rhagflaenydd i newid llwyr tuag at fabwysiadu dull o fynd ati a arweinir gan dai, gydag ailgartrefu cyflym yn greiddiol iddo.

## TYSTIOLAETH GREF


Gwyddom eisoes fod y dystiolaeth ryngwladol o blaid Tai yn Gyntaf yn gryf, ond rhannodd Tim ymchwil fwy diweddar o Ganada, lle derbyniodd cyfranogwyr naill ai Tai yn Gyntaf neu 'driniaeth fel arfer'. Roedd y canlyniadau o ran sefydlogrwydd tai ar gyfer y rhai a oedd yn derbyn Tai yn Gyntaf yn sylweddol well yn syth bron, o'i gymharu â 'thriniaeth fel arfer', ac roedd y bwlch yno 24 mis yn ddiweddarach. Nododd Tim hefyd, o ran ansawdd bywyd rhywun, fod y bwlch rhwng Tai yn Gyntaf ac ymyriadau eraill yn culhau ychydig wrth i'r blynyddoedd fynd heibio. Mae Tai yn Gyntaf yn dal ar y blaen o ran gwella bywydau, ond ceir y bwlch mwyaf ar y cychwyn, sy'n danos mai pobl Efrog Newydd oedd yn iawn – ac mae ymddiried fel hyn ym mhenderfyniadau rhywun arall hefyd yn greiddiol i'r model. Yn ddelfrydol, felly, dylem weld pobl yn cael cynnig cartrefi yn gyflym, ynghyd â chymorth dwys gan system gyfan.

## HERIAU POSIBL

Nododd Tim rai heriau posibl all fod yn gysylltiedig â Tai yn Gyntaf, yn enwedig yn y dyddiau cynnar, ac roedd hyn i'w groesawu. Mae camu o'r strydoedd i gartref yn anodd, a gall pobl gael eu hunain yn unig, wedi'u hynysu, a heb fawr ddim i'w wneud. Mae'r math o gymorth systemau-cyfan, rhagweithiol a gefnogir gan Nicky yn allweddol er mwyn atal, lliniaru, a goresgyn y fath sefyllfaoedd.

Roedd lefelau gorddosio yn gymharol uchel hefyd ymhlith cleientiaid Housing First yng Nghanada, o'i gymharu ag ymyriadau a chyd-destunau eraill. Gallai bod mewn cartref sefydlog olygu bod mwy o arian, neu fwy o amser, ar gael i'w wario ar alcohol a/neu sylweddau – a gallai rhywun fod ar ei ben/phen ei hun, lle na fyddent, o bosib, mewn cyd-destun arall (fel hostel).

Unwaith eto, bydd integreiddio gwasanaethau fel y pwysleisiai sgwrs Nicky yn allweddol i ganfod peryglon o'r fath a'u hatal. Pwysleisiwyd mor bwysig yw'r sector iechyd o ran




*Nicky Miller: 'Ymateb tai i anghenion iechyd meddwl nas diwallwyd yw Tai yn Gyntaf, ond dim ond rhan gyntaf hynny yw tai'*




*Tim Aubry: Cwestiwn allweddol i'w ofyn yw: 'sut mae ail-weithio neu ddisodli'r hyn a oedd yn bodoli cyn hyn?'*

darparu'r cymorth dwys hwn gan Tim, a ddyfynnodd ymchwil sy'n dangos fod bod â meddyg teulu yn rhagfynegydd cryf o sefydlogrwydd tai. Hynny yw, mae integreiddio pobl i mewn i wasanaethau cyffredinol yn golygu eu bod yn fwy tebygol o fyw bywyd sefydlog. Mae partneriaethau cryfach rhwng Tai yn Gyntaf a'r gwasanaethau iechyd yn rhywbeth y carem ei weld yng Nghymru.

Clywsom hefyd gan rai siaradwyr mwy lleol – cadeiriodd Bill Rowlands o End Youth Homelessness Cymru sesiwn ardderchog yn trafod Tai yn Gyntaf ar gyfer Ieuenctid, a sut mae hynny'n cyferbynnu â Tai yn Gyntaf yn gyffredinol. Siaradodd Lucy Powell o Llamau a Gary Taverner o'r Gymdeithas Ofal am hyn yn feddylgar iawn.

Cynrychiolwyd yr unig wasanaeth yng Nghymru sy'n darparu Tai yn Gyntaf i fenywod yn benodol, Thrive Women's Aid, gan Chantelle Davies. Mae'r model hwn yn parhau i ddatblygu, a bydd llawer o'r hyn a ddywedodd Chantelle yn werthfawr ar gyfer gwasanaethau cyffredinol Tai yn Gyntaf a datblygu gwasanaethau Tai yn Gyntaf i Fenywod yng Nghymru.

Disgrifiodd Tim brofiadau'r rhai a gafodd gymorth drwy Housing First yng Nghanada fel rhai 'trawsnewidiol'. Yn sicr, dangosodd ein sesiynau yn y gynhadledd bŵer Tai yn Gyntaf a'i atgyfnerthu, a bwrw ei fod yn cael ei ddarparu yn y cyd-destun cywir – fel rhan o system gyfan sy'n gweithio ar y cyd, gyda gwaith partneriaeth gwirioneddol ar draws y sectorau tai ac iechyd. Rydym bellach wrthi'n diwygio'r egwyddorion Tai yn Gyntaf a ddefnyddiwn yng Nghymru, ac mae'r rhaglen ailgartrefu cyflym yn parhau i dyfu. Gobeithio y gwelir amrywiaeth o ddatblygiadau pwysig yn y blynyddoedd i ddod – ac y bydd ein digwyddiadau yn parhau i'w harddangos.

**Alex Osmond yw rheolydd Tai yn Gyntaf a profiad byw Cymorth Cymru**



# LLYWIO CWRS Y DYFODOL

Francesca Zenati yn myfyrio ar newid a'r her i arweinwyr y maes tai cymdeithasol



*Geraint Lewis and Mark Soanes yng nghanolfan ragoriaeth Call of the Wild ym Mannau Brycheiniog*

**Mae'r sector tai cymdeithasol yn wynebu heriau digynsail, gan gynnwys yr angen am ddulliau newydd ac arloesol o fynd i'r afael ag anghenion cyfnewidiol ac amrywiol gwahanol gymunedau. Ni fu erioed mwy o angen arweinyddiaeth gref.**

Mae llywio cwrs llwyddiannus trwy newid yn gofyn i arweinwyr ymaddasu i'r dirwedd sy'n esblygu a bod yn rhagweithiol wrth yrru newid o'r tu mewn. Bydd yr erthygl hon yn archwilio'r heriau allweddol sy'n wynebu'r sector tai, y bwlch gallu, effaith gweithio hybrid, a strategaethau i wella cyfathrebu, ysbryd a pherfformiad. Byddwn hefyd yn trafod pwysigrwydd arweinyddiaeth sy'n canolbwyntio ar bobl, datblygu diwylliannau sefydliadol cryf, a manteision hirdymor buddsoddi mewn dysgu a datblygu.

## YR HER

Mae pwysau ar y sector tai cymdeithasol i ymgodymu â galw cynyddol, seilwaith sy'n heneiddio, datblygiadau mewn technoleg a'r angen am atebion mwy cynaliadwy. Ac eto, fel pob busnes, ceir arweinwyr yn y sector tai cymdeithasol sydd heb y gallu angenrheidiol i ysgogi newid oherwydd diffyg sgiliau neu brofiad angenrheidiol.

Arweinwyr ein tîm yn Call of the Wild yw ein cyfarwyddwyr/sefydlwyr Geraint Lewis a Mark Soanes. Yr hyn a glywn gan gleientiaid yn y sector tai yw bod gwybodaeth annigonol am arloesedd a thechnolegau newydd, diffyg sgiliau cynllunio strategol a rheoli newid, a gweithio o bell i gyd yn ffactorau sy'n llesteirio cynnydd.

Mae gweithio hybrid hefyd yn rhwystro newid, gyda phrif swyddfeydd heb eu staffio'n llawn a llai o bobl yn bresennol yn ei gwneud hi'n anodd i reolwyr wireddu polisïau a gweithdrefnau. Mae cymaint o ddarparwyr tai yn buddsoddi mewn datblygu polisïau gwych ond mae gweithio hybrid wedyn yn cyfyngu ar weithrediad effeithiol.

Yn y cyfamser, yn y rheng flaen, mae angen amgyffred nodweddion ac anghenion cyfnewidiol cymunedau amrywiol ar yr un pryd â darparu

hyfforddiant mewn ôl-ffitio ac ymdopi â phroblemau fel lleithder, llwydni ac anwedd.

### DEALL Y DARLUN EHANGACH

Mae'n hanfodol bod pawb yn y sefydliad, beth bynnag fo'u swydd, yn cydfynd â'r darlun ehangach ac yn glir ynghylch yr hyn y mae'r weledigaeth a'r amcanion yn ei olygu iddyn nhw. Rhaid i gydweithwyr ymateb i'w gilydd a'r cwsmeriaid maent yn eu gwasanaethu ac felly mae'n bwysig eu bod yn deall a gwerthfawrogi gwahanol swyddi ar bob lefel. Gall cysgodi swyddi, trafodaethau bord-gron a sgyrsiau wyneb-yn-wyneb rheolaidd wneud byd o wahaniaeth, gan alluogi arweinwyr i feithrin perthynas, magu ymddiriedaeth a dangos eu gwerthfawrogiad o'u cydweithwyr.

Mae sicrhau atebolrwydd gweithwyr am eu hymddygiad a'u perfformiad yn llawer haws hefyd gyda diwylliant o gyfathrebu agored a pharch. Mae sgyrsiau anodd am broblemau gyda pherfformiad neu faterion personol yn llawer mwy adeiladol o'u cynnal mewn amgylchedd y teimla pobl yn gysurus ac yn ddiogel ynddo. Mae bod yn hawdd siarad â chi, dangos gofal a chydnabod y pethau positif o fudd mawr. Gall hwylusydd o'r tu allan fod o gymorth gwirioneddol, yn enwedig wrth ymdrin â phroblemau iechyd meddwl a llesiant.

### CREU CYFLEOEDD

Gyda data gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn dangos bod 44 y cant o weithwyr bellach yn gweithio gartref neu'n hybrid, rhaid i lawer o arweinwyr mewn busnesau ar draws pob sector ddysgu rheoli timau mewn byd gwaith newydd lle mae llai gyfathrebu wyneb-yn-wyneb a chydlyniad mewn timau. Mae hyn yn aml yn ei gwneud hi'n anodd monitro perfformiad a chynhyrchiant a hefyd meithrin ymddiriedaeth a chydberthynas.

Ond mae cyfle i greu ffordd newydd o arwain sy'n cynyddu ymgysylltiad gweithwyr, eu boddhad a'ch gallu i ddal gafael arnynt. Gellir meithrin diwylliant o ymddiriedaeth ac atebolrwydd trwy fod â rheolau cyfathrebu clir a pholisïau gweithio o bell. Gellir buddsoddi mewn offer a thechnoleg sy'n hwyluso cydweithredu a chyfathrebu hefyd, ond yr hyn sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol yw bod yn arweinydd sy'n canolbwyntio ar bobl.

Cawsom fod arweinwyr a ysgogir gan dasgau yn canolbwyntio'n bennaf ar gyrraedd nodau a chwblhau tasgau, yn aml ar draul boddhad gweithwyr a llwyddiant hirdymor. Mae gan dimau sy'n perfformio'n dda arweinwyr sy'n cydbwyso pobl a pherthynas gyda thasgau a phrosesau. Mae arweinwyr â'u ffocws ar bobl yn ymbweru a chefnogi eu timau gan feithrin cydweithrediad a gwaith tîm. Lles a datblygiad gweithwyr yw'r flaenoriaeth.

Wrth gwrs, anghenion tenantiaid fydd yn dod gyntaf yn aml. Mae cymdeithasau tai blaengar yn fwy na darparwyr gwasanaethau yn unig, gan ymfalchïo mewn ymgysylltu â thenantiaid a gofal. Dydy cydbwyso'r blaenoriaethau ddim yn dasg hawdd a rhaid i hyn ddod o'r brig i greu newid parhaol.

## *Er mwyn gwella perfformiad ar lefel unigolyn, tîm neu sefydliad, rhaid canolbwyntio ar gyfathrebu*

### GWELLA PERFFORMIAD BUSNES

Er mwyn gwella perfformiad ar lefel unigolyn, tîm neu sefydliad, rhaid canolbwyntio ar gyfathrebu. Mae angen i arweinwyr feithrin cysylltiadau trwy ddarparu adborth cyson a chydnabyddiaeth, ysgogi cyfathrebu agored a gwrando gweithredol, a chynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol a thwf. Bydd annog deialog agored ac adborth gonest a rhannu gwybodaeth yn dryloyw oll yn helpu i feithrin ymddiriedaeth.

Gall y strategaethau hyn wella perfformiad busnes trwy wella ysbryd y gweithlu gyda chyfathrebu clir sy'n cyfleu disgwyliadau a nodau, ond rhaid i ddiwylliant sefydliadol cryf fod yn seiliedig ar werthoedd da hefyd.

### GWYBOD EICH GWERTHOEDD

Bydd gwerthoedd da wedi eu cyfleu yn glir a'u deall gan bawb yn helpu i feithrin mwy o ymgysylltiad a boddhad ymhlith gweithwyr. Byddwch hefyd yn elwa ar well cydweithio a gwaith tîm; yn allanol, gwna les i'ch enw da a chynyddu ymddiriedaeth y cyhoedd.

Ond sut mae gwreiddio gwerthoedd da? Dylai arweinwyr arddangos yr ymddygiad a'r agweddau a ddymunir – gwneud nid dweud, a bod yn atebol am ymgorffori'r gwerthoedd a ddisgwylir gan eraill. Dylech gyfleu gwerthoedd a disgwyliadau'r sefydliad yn glir, a chydnabod a gwobrwyo gweithwyr sy'n ymgorffori'r gwerthoedd hyn. Fe wna wahaniaeth enfawr i ysbryd, ymgysylltiad a pherfformiad yn y pen draw.

Mae buddsoddi mewn dysgu a datblygu hefyd yn bwysig gan y bydd yn arwain at fwy o ymgysylltu â gweithwyr a'u cadw, ynghyd â gwell perfformiad a chynhyrchiant.

### NÔL AT YR HANFODION

Ond, yn y cyfamser, peidiwch â diystyru pŵer mynd nôl at yr hanfodion trwy ddal i fyny wyneb-yn-wyneb a sesiynau briffio tîm. Gyrrwch allan i weld cydweithwyr sy'n gweithio ar safle, adeiladwch berthynas a chymerwch amser i ddod i adnabod eich tîm. Byddwch yn dileu rhwystrau, yn dylanwadu ar y diwylliant ac yn meithrin ymdeimlad o bositifrwydd ac undod a fydd yn gwneud gwahaniaeth i sut rydych chi'n teimlo, sut mae eich tîm yn gweithredu a'r sefydliad yn perfformio. Mae'r cwbl yn ymwneud â'r cyffyrddiad personol ac mae ei effaith yn para'n hir.

**Francesca Zenati yw pennaeth datrys problemau busnes Call of the Wild. Mae'r cwmni o Gastell-nedd yn darparu rhaglenni datblygu personol, timau a rheolwyr yn seiliedig ar ymchwil i amryw o gwmnïau sector cyhoeddus a phreifat ledled y DU. Rhagor o fanylion yn *www.callofthewild.co.uk***




# Llwyfan ar gyfer cyfranogiad, nid elw

**Kathryn Griffiths a Rosie Barnes yn adrodd ar dai dan arweiniad y gymuned mewn dau ddigwyddiad ysbrydoledig**

**Dros yr Haf, mae tîm Creu Cartrefi Cymunedau Cwmpas wedi bod allan yn lledaenu'r gair am dai dan arweiniad y gymuned, i gymunedau ledled Cymru, ac ymhellach i ffwrdd.**

- Yn 2019/20 aeth 40 y cant o gartrefi a werthwyd yng Ngwynedd i brynwyr ail gartrefi
- Pris tŷ ar gyfartaledd yn y sir yw £244,000, gyda'r rhent misol ar gyfartaledd yn £700
- Mae mwy na 3,000 o bobl ar y rhestr aros am dai cymdeithasol (*bbc.co.uk*)

O ystyried yr ystadegau brawychus hyn, aeth tîm Cymunedau'n Creu Cartrefi i Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd ym mis Awst yn ymwybodol y byddai emosiynau'n corddi ac yn barod i rannu gwybodaeth ac ysbrydoliaeth ynglŷn ag atebion amgen, dan arweiniad y gymuned, i'r argyfwng tai lleol presennol. Yn ôl y disgwyl, roedd gan bawb y buom yn siarad â nhw ar y mater stori i'w hadrodd a ddatgelai'r realiti peoenus y tu ôl i'r ffigyrau: pobl ifanc yn gorfod symud i ffwrdd o fro eu geni; teuluoedd sy'n stryffaglu i dalu rhenti a morgeisiau; cydlyniad cymunedol a'r iaith Gymraeg ar drai.

## GORYMDAITH AR Y MAES

Daeth pethau i'r pen mewn rali a drefnwyd gan Gymdeithas yr Iaith – un o'r sgil-ddigwyddiadau mwyaf poblogaidd o lawer a welsom drwy'r wythnos. Anogwyd y mynychwyr i orymdeithio ar draws y Maes i fynegi eu hanfodlonrwydd, tra bu siaradwyr gwadd yn rhannu eu teimladau angerddol am y sefyllfa bresennol, ei heffeithiau pellgyrhaeddol a'r newidiadau sydd ar drigolion Gwynedd angen eu gweld.

Cawsom ein calonogi gan eiriau Cian Ireland – cadeirydd Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol Bro'r Eifl, sy'n derbyn cefnogaeth barhaus gan dîm Cymunedau yn Creu Cartrefi i greu cartrefi newydd, fforddiadwy yn eu hardal sydd o dan reolaeth pobl leol am byth. Roedd ymgyrch Cian i ysgogi newid parhaol, cadarnhaol o fewn Bro'r Eifl a thu hwnt yn ein llenwi â gobaith anorchfygol bod gan gymunedau Gwynedd y wybodaeth, y sgiliau, a'r angerdd i ddatblygu eu hatebion eu hunain i'r argyfwng tai – rhywbeth cynhyrfus i barhau i fod yn rhan ohono!

Ym mis Mehefin, dyma ymuno â 2,100 o ddarparwyr tai cymdeithasol, llunwyr polisi, cynrychiolwyr dinasoedd, trefolwyr, penseiri, ymchwilwyr, cyrff NGO, a gweithredwyr, yn yr Ŵyl Tai







*Kathryn Griffiths gyda Llŷr ap Rhisiart o YTC Bro'r Eifl*

Cymdeithasol Ryngwladol yn Barcelona. Yn ystod y tridiau, cawsom gwrdd â chynrychiolwyr o bedwar ban, a dysgu a chael ein hysbrydoli ganddynt, a hwythau bob un ohonynt yn gweithio i adeiladu system dai wedi'i gwreiddio mewn cyfiawnder a chynaliadwyedd i bawb yn eu trefi, eu dinasoedd a thu hwnt.

## STRAEON GOBAITH

Dydy'r heriau tai a wynebir gennym yng Nghymru ddim yn unigryw. Dro ar ôl tro, crybwyllwyd datblygiadau wedi eu gyrru gan y farchnad a thra-arglwyddiaeth darparu tai am elw, ochr yn ochr â chwtogi ar ran y sector cyhoeddus mewn cyflenwi tai gan siaradwyr o bob rhan o Ewrop. Ond ymhlith yr heriau clywsom hefyd straeon gobeithiol gan ddinasoedd fel Barcelona, sy'n gweithredu polisïau arloesol i adfer hawl pobl i dai addas. Mae enghreifftiau'n cynnwys: caffael tir ac adeiladau i'w troi'n gartrefi; defnyddio dulliau adeiladu cynaliadwy i sicrhau bod y cartrefi hynny'n cael eu llunio yn unol â therfynau ein planed; defnyddio tai preifat i ddarparu cartrefi ar rent fforddiadwy i ddadwneud degawdau o gostau tai yn codi i'r entrychion, yn ogystal â chymorth ariannol a logistaidd ar gyfer tai dan arweiniad y gymuned fel model hanfodol a chyffrous sy'n rhoi cartrefi nôl yn nwylo cymunedau. Gwelir hyn yng nghefnogaeth Cyngor y Ddinas i brosiect [*Cydweithredol La Borda*].



*Cynrychiolwyr yn yr Ŵyl Tai Cymdeithasol Ryngwladol yn Barcelona*

Mae Ada Colau, y maer, yn gwbl allweddol i'r newidiadau yn Barcelona. Mae wedi atgyfnerthu'r 'newid ym mhatrwm diwylliannol tai', gan ddefnyddio ei pholisïau tai i weithredu o blaid preswylwyr. Roedd y newid hwn yn thema flaenllaw yn y gynhadledd ac fe'i hadlewyrchwyd yn araith agoriadol llywydd Housing Europe, Bent Madsen, a eglurodd bod 'tai yn llwyfan ar gyfer cyfranogiad, nid elw'. Mae hyn yn unol â gweledigaeth Cwmpas – cymunedau â rheolaeth ar dai sy'n ymateb i'w hanghenion nhw, nid rhai cyfranddalwyr y datblygwyr.

Nod ein gweithdy, 'Meistroli geiriau fel ffordd o oresgyn un rhan o'r argyfwng tai', oedd ymateb i un rhan o'r newid hwnnw. Mae cyfathrebu yn arf pwysig ar gyfer ymgysylltu â chymunedau amrywiol a chasglu cefnogaeth boblogaidd i ffyrdd o ddatrys yr argyfwng tai dan arweiniad y gymuned. Yn yr ysbryd o gydweithredu sy'n rhedeg drwy ein gwaith yn Cwmpas, daeth trefnwyr y gynhadledd â grŵp o gydweithwyr ynghyd, yn cynnwys Cwmpas, Housing Europe, Den Haag, awdurdod dinas yr Hâg, a GHS, hyrwyddwyr a rheolwyr Ffederasiwn Tai Cyhoeddus, Preifat a Chydweithredol a Chymdeithasol Catalwnia, i gynnal cyfarfod ar bŵer cyfathrebu i ddatblygu gwell system dai, lle mae cymunedau a thrigolion yn ganolog i'r sgwrs. O flaen cynulleidfa o 125 o bobl o bedwar ban, clywsom straeon a negeseuon i'n hysbrydoli gan arweinwyr polisi sydd wedi torri drwy'r sŵn a sbarduno gweithredu – a hoffem ddiolch yn fawr i'n partneriaid a'r siaradwyr am eu cyfraniadau i'r digwyddiad llwyddiannus hwn.

## MUDIAD CYDGYSYLLTIEDIG

Roedd yn anhygoel clywed ein credoau bod tai dan arweiniad y gymuned yn ganolog i strategaeth tai cymysg yn cael eu hadlewyrchu ar draws yr ŵyl, a gyda chyfres benodol o sesiynau'n canolbwyntio'n llwyr ar dai dan arweiniad y gymuned, gallem ddysgu digonedd gan eraill. Roedd y pynciau'n cynnwys datblygu modelau cyllid cydweithredol newydd, denu ewyllys wleidyddol, meithrin cyfranogiad cymunedol, a defnyddio dulliau adeiladu cynaliadwy. Byddwn yn gallu elwa ar yr addysg hon i ddod â datblygiadau arloesol i'r mudiad tai dan arweiniad y gymuned yng Nghymru. Ar ddiwrnod olaf y gynhadledd, lansiwyd Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol Ewrop – a gyda hynny mudiad cryfach a mwy cydgysylltiedig ar draws y cyfandir – ac roedd hi'n wych dathlu'r foment hon gydag YTCau o bob rhan o'r DU ac Ewrop.

Mae'n cymryd ewyllys wleidyddol, ymroddiad, ac amser, yn ogystal â buddsoddi digonol wedi'i dargedu i sicrhau bod cymunedau'n cael cartrefi o safon sy'n caniatáu iddynt fyw bywyd boddhaol. Gobeithio y bydd darparwyr tai fforddiadwy, llunwyr polisi, gwleidyddion, a threfolwyr ledled Cymru yn parhau i edrych tuag allan – mae cymaint i'w ddysgu gan bolisïau arloesol gwledydd eraill a allai gynnig templed ar gyfer gwreiddio cyfiawnder tai yn ein cymunedau ninnau.

**Mae Kathryn Griffiths a Rosie Barnes yn gydlynwyr tai dan arweiniad y gymuned yn Cwmpas. Am ragor o wybodaeth am y cymorth y gall Cymunedau yn Creu Cartrefi ei ddarparu, e-bostiwch co-op.housing@cwmpas.coop neu ffoniwch 0300 111 5050.**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Diweddariad ymchwil

Y newyddion diweddaraf gan dîm Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru



## YMCHWIL TAI LLYWODRAETH CYMRU

Mae'r prosiectau canlynol ar y gweill:

- **Ymchwil i archwilio'r gweithlu adeiladau amlfeddiannaeth.** Bydd yr ymchwil hon yn archwilio gallu'r gweithlu diogelwch adeiladau ledled Cymru yn gyfredol ac yn y dyfodol a'r gofynion cyfredol ar awdurdodau lleol gyda'r system reoleiddio bresennol mewn perthynas ag adnoddau, gallu a chymhwysedd.
- **Gwerthusiad o ymyriadau digartrefedd i gefnogi trawsnewid gwasanaethau digartrefedd.** Bydd yr ymchwil hon yn adeiladu'r gronfa dystiolaeth ar atal digartrefedd ac ymyriadau.
- **Ymchwil gyda thrigolion adeiladau amlfeddiannaeth.** Bydd yn golygu casglu tystiolaeth am brofiadau trigolion o ran eu gwybodaeth am, a'u hymwneud â diogelwch adeiladau er mwyn darparu argymhellion ar sut y gallai ymgysylltu effeithiol ar ddiogelwch adeiladau ymddangos.
- **Gwerthusiad o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.** Bydd yr ymchwil hon yn gwerthuso Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) sydd newydd ddod i rym drwy edrych ar farn a phrofiadau tenantiaid, landlordiaid a rhanddeiliaid.
- **Rhenti Teg: Mapio Data a Delweddu.** Bydd yr ymchwil yn nodi ac yn mapio data cyfredol, a hanesyddol, er mwyn archwilio rhenti a fforddiadwyedd yng Nghymru.
- **Meincnodi Cyflog y Gweithlu Digartrefedd.** Bydd yr ymchwil hon yn nodi'r strwythur cyflog presennol ar gyfer amrywiaeth o aelodau'r gweithlu cymorth digartrefedd ac yn meincnodi'r rhain yn erbyn swyddi tebyg yn y sector cyhoeddus.
- **Gwerthusiad Cynllun Prydlesu Cymru.** Bydd yr ymchwil hon yn gwerthuso rhaglen cynllun prydlesu Cymru, gan edrych ar brofiadau tenantiaid, landlordiaid ac awdurdodau lleol. Bydd hefyd yn casglu gwybodaeth am ddemograffeg y rhai sy'n defnyddio'r cynllun (tenantiaid a landlordiaid).
- **Tai Arloesol: Dysgu Gwersi Adeiladu Blwyddyn 2.** Bydd yr ymchwil hon yn nodi'r gwersi allweddol a ddysgwyd mewn perthynas ag adeiladu o brosiectau a ariannwyd yn ail flwyddyn y rhaglen tai arloesol.

Mae'r holl adroddiadau ymchwil tai i'w gweld yn: *llyw.cymru/ymchwil*

## RHAGLEN TYSTIOLAETH CYFLWR TAI

Rydym newydd gyhoeddi:

- *Adeiladu tai newydd: Ebrill 2022 i Fawrth 2023*

Rydym hefyd wedi cyhoeddi:

- *Tlodi tanwydd yn Nghymru: dangosfwrdd rhyngweithiol* (Mehefin 2023) sy'n dwyn ynghyd ddata o Arolwg Byw yng Nghymru 2008, Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18 a model ynni domestig y sefydliad ymchwil Adeiladu (BREDEM) i amlygu tueddiadau mewn tlodi tanwydd yng Nghymru.
- *Tystysgrifau Perfformiad Ynni (EPC) ar gyfer cartrefi yng Nghymru: dangosfwrdd rhyngweithiol* (Mai 2023) sy'n dangos amrywiaeth effeithlonrwydd ynni gwahanol fathau o gartrefi yng Nghymru.

Rydym yn parhau i ddatblygu'r prosiect Data Gweinyddol Cartrefi (AD|Homes) (yr Adnodd Dadansoddi Stoc Tai yn flaenorol). Ffocws y prosiect hwn yw defnyddio data gweinyddol i ddarparu cymorth i bolisïau. Mae'r blaenoriaethau presennol yn cynnwys:

- Dadansoddiad archwiliadol o ddata o'r Gofrestr Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC), i ddeall yn well pa mor gywir y mae'n adlewyrchu effeithlonrwydd ynni cartrefi yng Nghymru.
- Archwilio sut y gall data gweinyddol fel Cronfa Cyfeiriadau'r Arolwg Ordnans, data treth gyngor awdurdodau lleol a'r Gofrestr EPC wella ansawdd ystadegau cyflenwad tai.
- Defnyddio data treth gyngor

awdurdodau lleol i ychwanegu at y gronfa o dystiolaeth ar ail gartrefi.

Rydym yn parhau i weithio gyda Thîm Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) i ddarparu cymorth dadansoddol i'r gwaith o ddatblygu'r SATC ar ôl 2020. Rydym hefyd yn datblygu achos busnes ar gyfer yr Arolwg Cyflwr Tai Cymru nesaf.

Os oes gennych ymholiad, awgrym o waith dadansoddi y gallem ei wneud neu ffynonellau data y gallem ymchwilio iddynt, cysyllter â ni yn: **Stats.HousingConditions@llyw.cymru**

## YSTADEGAU TAI

Mae gwybodaeth am reolaeth y ***ddarpariaeth o lety i'r digartref a chysgu allan*** yn parhau i gael ei chyhoeddi'n fisol, ryw ddau fis yn ddiweddarach. Yn dilyn adborth gan ddefnyddwyr, o fis Gorffennaf 2023, rydym wedi ehangu'r data a gyhoeddir, o'r cyfnod Ebrill 2023 ymlaen. Er mwyn gwella defnyddioldeb ac ansawdd y data ymhellach, buom yn gweithio gydag awdurdodau lleol i gryfhau'r canllawiau casglu data, yn ogystal ag addasu rhai eitemau data a gasglwyd. Y bwriad yw ehangu'r ystod o ddata a gyhoeddir cyn gynted ag y bydd y datblygiad hwn wedi'i gwblhau.

Cyhoeddodd y ***Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR)*** lythyr at y Prif Ystadegydd yn amlinellu canfyddiadau ei hadolygiad o'n gwybodaeth fisol am reolaeth y ddarpariaeth o lety i'r digartref a chysgu allan yn erbyn pileri'r ***Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau***.

Cyhoeddwyd dau adroddiad yn ymwneud ag ail gartrefi ym mis Mehefin. Cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ***ddata Cyfrifiad 2021 ar nifer a lleoliad ail gyfeiriadau***, gan gynnwys rhai a ddefnyddir fel cartrefi gwyliau. Cyhoeddwyd ***crynodeb o'r prif ganlyniadau ar gyfer Cymru*** gan Lywodraeth Cymru ochr yn ochr â hyn. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru hefyd erthygl ystadegol ***'Ail gartrefi: beth mae'r data'n ei ddweud wrthym?'***. Darparai hon wybodaeth am ffynonellau data ar ail gartrefi, yn cynnwys gwybodaeth am ddiffiniadau, cwmpas, cryfderau, cyfyngiadau, a chrynodeb o'r data.

Yn ddiweddar cyhoeddwyd:

- ***Gwerthiannau tai landlordiaid cymdeithasol Ebrill2022 i Fawrth 2023***
- ***Digartrefedd Ebrill 2022 i Fawrth 2023***
- ***Amcangyfrifon stoc anheddau 2022***, wedi'u hailseilio ar gyfrif Cyfrifiad 2021
- ***Cymorth i Brynu – Cymru (Cynllun Benthyg Ecwiti a Rennir)*** Ebrill i Fehefin 2023.

Croesewir adborth ar gynnwys a chyflwyniad unrhyw rai o'r ystadegau hyn a gwybodaeth reoli: ***stats.housing@gov.wales***

Mae pob datganiad ar gael o ***www.gov.wales/statistics***

## CYFARFOD NESAF Y GRŴP GWYBODAETH TAI (HIG)

Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf y Grŵp Gwybodaeth Tai ym mis Medi. Ceir yr agenda, y papurau a'r cofnodion ar wefan ***wefan Llywodraeth Cymru***.

**NAWDD** *CARTREFI CYMUNEDOL CYMRU*



# Cyfrif i lawr i'n cynhadledd

**Mae sector tai cymdeithasol 'gwydn a hynod arloesol' Cymru ar fin symud i ganol y llwyfan yng nghynhadledd flynyddol Cartrefi Cymunedol Cymru, cynhadledd flaenaf y diwydiant**

**Bydd y digwyddiad ar 28 a 29 Tachwedd yn Techniquest ym Mae Caerdydd a bydd arweinwyr o bob rhan o sector tai cymdeithasol Cymru yn bresennol.**

Bydd prif siaradwyr, panelwyr ac arbenigwyr hefyd yn rhannu gwybodaeth yn ystod y deuddydd, gyda siaradwyr blaenorol yn cynnwys y gweinidog newid hinsawdd Julie James AoS, a phrif weithredydd a sylfaenydd Change Please, Cemal Ezel.

Bydd y gynhadledd yn gyfle i arweinwyr a staff cymdeithasau tai, partneriaid, a llawer o rai eraill i drafod heriau eang eu cwmpas ar draws y sector a sut y gellir cydweithio i'w hwynebu, dadansoddi'r problemau gwleidyddol ac economaidd sy'n wynebu tai cymdeithasol, a thrafod yr amgylchedd gweithredu ledled y DU.

Caiff gwesteion hefyd gyfle i drafod sut y maen nhw'n ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a thlodi a waethygwyd gan yr argyfwng costau byw, a rhannu arfer gorau ar sut i gefnogi pobl sy'n byw yn eu cartrefi.

Yn ystod y digwyddiad bydd Stuart Ropke, prif weithredydd Cartrefi Cymunedol Cymru, yn tanlinellu gwytnwch cymdeithasau tai, sy'n defnyddio arloesedd a gweithio ar y cyd i helpu'r sector i gymryd camau hanfodol ymlaen.

Meddai: *'Heb os, mae'r sector tai cymdeithasol wedi wynebu heriau digynsail yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf – o bandemig y coronafeirws, i'r DU yn gadael yr UE, ac argyfwng costau byw a chwyddiant – mae'r rhain oll wedi effeithio'n ddwys ar y sector a'i bartneriaid. Er gwaethaf yr heriau amrywiol hyn, profodd cymdeithasau tai Cymru eu bod yn wydn ac yn hynod arloesol.*

*'Mae nhw nid yn unig wedi dod at ei gilydd i rannu arfer gorau, ond wedi defnyddio gwybodaeth partneriaid yn y sector a'r rhai sy'n byw yn eu cartrefi, i wella eu gwasanaethau a darparu tai sy'n ateb anghenion esblygol eu tenantiaid a'u cymunedau.'*

**Am fwy o wybodaeth am y gynhadledd ac i fwcio tocynnau, ymwelwch â *thudalen Cynhadledd flynyddol Cartrefi Cymunedol Cymru*.**